- Tystiolaeth bod Ffordd Gwynedd wedi llwyddo i wella gwasanaethau i drigolion a sicrhau arbedion ariannol yn y ddau gynllun peilot ym meysydd digartrefedd ac eiddo.
- Dulliau o sicrhau ymrwymiad a dealltwriaeth ar draws y Cyngor i wireddu Ffordd Gwynedd.
- Y mesurau perfformiad sy'n bosib' eu rhoi mewn lle er mwyn sicrhau'r newid diwylliant o fewn y Cyngor.
- Yr ymgysylltu ffurfiol / anffurfiol gyda budd-ddeiliaid.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau pellach a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd yr Aelod Cabinet a'r Prif Weithredwr i gwestiynau / sylwadau ynglŷn â:-

- Sut mae'r Strategaeth yn cyd-blethu gyda'r cysyniad o Reoli Galw a'r Strategaeth Arbedion?
- Y dull o raeadru Ffordd Gwynedd i lawr ac ar draws y sefydliad.
- Sut mae Ffordd Gwynedd yn ymateb i ddeddfwriaeth gwlad a gofynion Llywodraeth Cymru ac amrywiol gyrff allanol ac ydi'r Cyngor hwn yn ddigon dewr i gymryd y cerydd er mwyn cadw trigolion Gwynedd yn hapus?
- Y sialens o gael pobl i ymddwyn yn wahanol.
- Ymdeimlad bod y datganiad '*Rhoi Pobl Gwynedd yn Ganolog*' yn her sylweddol oherwydd bod yna leisiau cryfion o fewn pob ardal sydd â'u hagenda eu hunain.
- Y gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot.

Mynegwyd dymuniad y pwyllgor i weld Strategaeth Ffordd Gwynedd yn llwyddo a chasglwyd mai un o'r pwyntiau pwysicaf yn codi o'r drafodaeth oedd y cwestiwn o risg a'r angen i arfogi'r holl staff, o'r brig i lawr, i ddefnyddio eu synnwyr cyffredin ac i fod â'r hyder i gymryd risgiau bach, sydd efallai, yn mynd i ddod â gwobrwyon mawr.

Mynegwyd pryder mai ond hanner aelodau'r pwyllgor oedd yn bresennol i gymryd rhan yn y drafodaeth hon. 'Roedd y staff wedi ymroddi i'r newidiadau hyn, ac 'roedd hynod bwysig eu bod hwy a'r Tîm Arweinyddiaeth yn cael y gefnogaeth briodol gan yr aelodau hefyd.

FFORDD GWYNEDD

Mehefin 2015



1. Beth yw Ffordd Gwynedd ?

Ffordd Gwynedd yw'r enw a roddwyd ar y "ffordd" y byddwn ni yng Nghyngor Gwynedd yn sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Nid proses na syniad damcaniaethol mohono ond yn hytrach casgliad o drefniadau gwaith, ymddygiadau a diwylliant sydd, gyda'i gilydd, yn caniatáu i ni fod yn hyderus ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog bob tro.

2. Pam mae angen y strategaeth yma ?

Fel corff sydd yn bodoli i wasanaethu pobl Gwynedd, fe ddylai ein diwylliant a'n trefniadau gwaith fod yn sicrhau fod y bobl hynny yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Byddai nifer helaeth o weithwyr y Cyngor yn ystyried ein bod eisoes yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae yna gryn dipyn o dystiolaeth i awgrymu nad yw'n wir bob tro.

Yn aml iawn fodd bynnag, nid bai'r staff yw hynny. Mae trwch staff y Cyngor yn gweithio'n galed i geisio cyflawni pethau sydd o fudd i bobl Gwynedd. Ond mae yna bethau yn digwydd yn eu gwaith dyddiol sy'n eu hatal rhag gwireddu'r dyhead hwnnw – pethau sy'n deillio o flynyddoedd lawer o adeiladu arferion gwaith a threfniadau sydd wedi cael eu sefydlu am amrywiol resymau.

Mae diwylliant y Cyngor hefyd wedi arwain i ni feddwl weithiau ein bod yn gwybod yn well ac i beidio ystyried beth yw gwir anghenion ein trigolion

Os ydym am ofyn i staff roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud go iawn, mae'n rhaid cael yr amodau priodol o fewn y Cyngor i ganiatáu i hynny ddigwydd.

Mae hynny yn golygu creu diwylliant sy'n gyson gyda'r amcan yma ac sy'n ddiflino yn cael gwared â'r rhwystrau hynny sy'n atal ein gweithlu rhag gwneud hynny.

Rhaid tanlinellu nad yw rhoi pobl Gwynedd yn ganolog yr un fath â dweud ein bod am gwrdd â dyheadau pawb. Mae'n rhaid i'r Cyngor weithio o fewn cyfyngiadau ariannol sylweddol ac ni allwn gyfarch disgwyliadau pawb.

O fewn yr adnodd sydd gennym fodd bynnag, fe ddylem sicrhau fod pob ceiniog yn cael ei defnyddio i uchafu'r gwerth sydd yn cael ei greu i bobl Gwynedd a'r pethau hynny sydd yn bwysig iddynt. Man cychwyn hyn oll yw ystyried popeth drwy lygaid pobl Gwynedd yn hytrach na thrwy lygaid y sefydliad a'i staff.

Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, sydd yn debygol o barhau am gyfnod estynedig, bydd Llywodraeth Leol yn derbyn llawer llai o arian a golyga hyn os ydym am fedru parhau i sicrhau fod y rhai mwyaf anghenus yn derbyn sylw gennym, bydd yn rhaid hefyd edrych am ddulliau newydd o gyflawni gofynion pobl Gwynedd.


Rhaid i bobl Gwynedd hefyd wynebu'r ffaith os ydym am barhau i gyflawni'r gwasanaethau hynny sydd o flaenoriaeth uchaf iddynt, yna mae'n rhaid iddynt hwy fod yn fodlon derbyn dulliau gwahanol o gwrdd â'u hanghenion - efallai hyd yn oed drwy ofyn i rai carfannau gwrdd â'u hanghenion eu hunain gyda chymorth gwahanol gan y Cyngor neu gan fudiadau eraill.

Bydd nifer yn gweld y newidiadau yma yn annymunol (tydi newid byth yn boblogaidd) ond mae o'n elfen hanfodol o rododi pobl Gwynedd yn ganolog drwy sicrhau fod y gwerth a geir o bob punt o wariant yn cyflawni'r budd mwyaf posibl.

3. Beth sydd angen bod yn ei le i wireddu'r weledigaeth ?

Mae hyn oll yn dechrau drwy ddeall y model busnes sylfaenol y dylai'r Cyngor fod yn gweithio iddo.

Gellir crynhoi'r model busnes hwnnw fel a ganlyn -



Mae'n dechrau drwy ddiffinio pa anghenion y mae unrhyw dim gwasanaeth yn eu cyfarch i bobl Gwynedd (sef diffinio "pwrpas" y tîm); diffinio be sy'n bwysig i bobl Gwynedd wrth gyfarch yr angen hwnnw; ac yna sefydlu'r mesurau sydd am fesur pa mor dda y maent yn cyflawni'r pwrpas hwnnw.

Fe ddylai timau wedyn fod yn anelu'n barhaus i ddarganfod ffyrdd o wella eu perfformiad ar y mesurau hynny.

Oherwydd y cyfyngiadau ariannol sylweddol yr ydym yn eu hwynebu, bydd angen i dimau gwasanaeth hefyd ystyried a oes yna ffyrdd o osgoi i'r anghenion hynny godi yn y lle cyntaf (efallai drwy fuddsoddi ynghynt ac mewn gwasanaethau ataliol) er mwyn lleihau'r "anghenion" y mae gofyn i ni eu cyflawni a thrwy hynny sicrhau fod yr adnoddau sydd gennym yn gallu gwasanaethu mwy o bobl.

Pan ddaw'n adeg blaenoriaethu anghenion i'w cyfarch, mater i aelodau etholedig y Cyngor fydd hynny.

Nid yw dealltwriaeth o'r model busnes uchod ac ymgeisio ei weithredu ynddo'i hun am fod yn ddigonol fodd bynnag. Mae sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog yn golygu cael diwylliant a threfniadau gwaith o fewn y Cyngor sydd yn atgyfnerthu ein gallu i wireddu'r dyhead hwnnw.



4. Sicrhau diwylliant a threfniadau gwaith priodol

Nid yw newid diwylliant am ddigwydd dros nos, ac o reidrwydd, mae cyrraedd pen y daith am gymryd amser. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn dechrau ar y daith honno ac yn asesu o bryd i'w gilydd a ydym ar y llwybr cywir a pha mor bell ydan ni wedi teithio.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau trafod gydag aelodau, rheolwyr a staff i asesu beth oedd y gwendidau oedd yn cael eu gweld o ran ymateb i anghenion ein trigolion.

Yn ogystal â hynny gwnaed asesiad o'r trefniadau llywodraethu presennol (wrth baratoi ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol).

Hefyd, bu i ni arbrofi gyda syniadaeth "Systems Thinking" fel dull o sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar gyflawni anghenion go iawn.

Fe arweiniodd y profiadau yma ynghyd â'r asesiadau a wnaed at y casgliad fod angen i'r pethau canlynol fod yn eu lle os am lwyddo i gael diwylliant priodol ar gyfer gwireddu ein huchelgais. Rhaid cael -



5. Sut ydan ni am gyflawni hyn oll ?

Dengys profiad y gorffennol nad drwy sesiynau hyfforddi a darlithio i staff y byddwn yn sicrhau fod yr elfennau yma yn disgyn i'w lle.

Rhaid cael fframwaith ddatblygu sy'n sicrhau fod yna gyfle i dimau gwasanaeth adlewyrchu ar yr hyn y maent yn ei wneud ac i ofyn y cwestiwn sylfaenol "A ydym yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog?".

Mae'n rhaid i'r fframwaith yma arfogi timau gyda'r sgiliau angenrheidiol i fedru adlewyrchu ar hynny gan hefyd roddi'r cymorth a chefnogaeth briodol i weithredu ar unrhyw newidiadau angenrheidiol a

chynnig her barhaus drwy gydol y broses i sicrhau ei fod yn digwydd.

Project Rhif 1 fydd yn gwneud hyn. Hwn yw'r gongl faen fydd yn ceisio gwreiddio'r ffordd o feddwl a'r ymddygiadau perthnasol o fewn pob un uned gwasanaeth o fewn y Cyngor.

Mae'n dasg anferthol gan ein bod yn ceisio trawsnewid degau o flynyddoedd o arferion ond dim ond drwy'r dull yma y byddwn yn gallu ceisio sicrhau gwreiddio'r newid ymddygiadau angenrheidiol ac arfogi'r gweithlu.



Ynndo'i hun nid yw am fod yn ddigon fodd bynnag gan fod yn rhaid i elfennau eraill a nodir uchod fod yn tynnu i'r un cyfeiriad os ydym am lwyddo.

Mae yna bosibilrwydd hefyd ein bod wedi methu rhywbeth a bydd yn rhaid bod yn fyw i hynny wrth fynd ar y daith gan newid y strategaeth yn ôl y gofyn.

Un peth sydd yn sicr, bydd yn rhaid bod yn "ddigyfaddawd" am weithrediad y strategaeth yma neu methu fydd ei hanes. Tydi o ddim yn ddigon i ddweud ein bod am ei weithredu - mae'n rhaid i'n hymddygiadau gefnogi hynny.



6. Y rhaglen waith

Mae'r canlynol yn nodi pa brojectau y byddwn yn eu cyflawni er mwyn sicrhau ein bod yn creu diwylliant priodol o fewn y cyngor gan nodi pa elfen o'r cylchoedd uchod y byddant yn eu taro.

Rhoddir amserlen amlinellol hefyd yn Atodiad 1.

Rheolwyr sydd yn y gwaith yn grymuso staff i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid ac edrych am ddulliau o wyro'r galw am wasanaeth; yn deall anghenion cwsmeriaid a chael gwared a rhwystrau.

Staff sydd wedi eu grymuso i weithredu'n hyblyg i gyflawni anghenion cwsmeriaid ac i fynd ar ol cyfleoedd i ddileu galw am wasanaethau.

Project 1 - Project Rhoi Ffordd Gwynedd ar Waith

Bydd y Project "Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith" cynnwys dwy ffrwd gwaith.

Y cyntaf fydd trwytho holl reolwyr y Cyngor yr egwyddorion sylfaenol Ffordd Gwynedd i sicrhau fod dealltwriaeth ganddynt o'r cysyniadau perthnasol a beth y gallent hwy eu gwneud i ledaenu'r ffordd o feddwl yn eu hunedau nhw. Fodd bynnag nid yw codi ymwybyddiaeth ynndo'i hun am lwyddo.

Bydd yr ail ffrwd yn golygu gweithredu ar raglen fydd yn arfogi timau gwasanaeth i fedru adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol; i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella; gan sicrhau fod pob tîm gwasanaeth yn cael y cyfle i weithredu'r rhaglen.

Rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys cyfres o sesiynau dysgu gyda'i gilydd yn y gwaith fydd yn arfogi rheolwyr a staff i :-

- Edrych ar y gwasanaeth a roddir drwy lygaid y dinesydd bob tro.
- Gytuno gyda'i gilydd sut orau i fynd o gwmpas pethau er mwyn diwallu'r hyn sy'n bwysig i'n pobl.
- Herio dulliau o weithio sydd ddim yn eu helpu i gyflawni i'n pobl.
- Fod yn fodlon arbrofi (gyda mesurau llwyddiant yn glir) er mwyn gwella gwasanaeth.
- Fanteisio ar y cyfleoedd a roddir i awgrymu sut y gellir gwella gwasanaeth.
- Sicrhau deialog parhaus rhwng rheolwyr a staff i weld sut y gall rheolwyr helpu staff i wneud eu gwaith yn well a manteisio ar wybodaeth staff i wella gwasanaeth.
- Sicrhau fod perchnogaeth perfformiad yr Uned yn nwylo pawb (nid dim ond y rheolwr).
- Sicrhau fod gwybodaeth perfformiad yn cael ei defnyddio i wella gwasanaeth.

- Greu diwylliant o welliant parhaus er budd pobl Gwynedd.
- Asesu'r rolau sydd eu hangen i gyflawni i'n pobl yn effeithiol
- Edrych am gyfleoedd i sicrhau fod y galw am wasanaeth yn cael ei wyro.

Project 2 - Rhaglen Ddatblygu Arweinwyr

Arweinyddiaeth sy'n amlygu bod Ffordd Gwynedd yn bwysig ac yn cynnal y weledigaeth.

Bydd y Project Rhaglen Datblygu Arweinwyr yn sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion "Ffordd Gwynedd"; eu bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu egwyddorion "Ffordd Gwynedd" drwy holl haenau'r sefydliad; a'u bod wedi eu harfogi i wneud hynny.

Project 3 - Strategaeth Ymgysylltu

Trefniadau Ymgysylltu addas er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sydd o bwys i bobl Gwynedd ac ymhle i flaenoriaethu ein hadnoddau.

Bydd y Project Strategaeth Ymgysylltu yn sicrhau fod yna gefnogaeth briodol ar gael i helpu i dimau gwasanaeth ac aelodau wella trefniadau ymgysylltu'r Cyngor gan sicrhau fod blaenoriaeth yn cael ei roi i'r meysydd blaenoriaeth hynny o fewn y Cynllun Strategol.

Project 4 - Mewnosod Cyfundrefn Berfformiad

Cyfundrefn Perfformiad sy'n mesur os ydan ni'n cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd ac yn rhoi gwerth am arian iddynt.

Bydd y project Mewnosod Cyfundrefn Berfformiad yn datblygu a mewnosod cyfundrefn berfformiad newydd fydd yn sicrhau fod timau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd gan ddefnyddio'r mesurau hynny i wella perfformiad a bod y drefn adrodd ar hynny yn ychwanegu gwerth drwy ddal gwasanaethau yn

atebol.

Project 5 - Adolygiad o oriau agor

Bydd Project Adolygiad o oriau agor yn ymgysylltu gyda phobl Gwynedd i weld a oes yna alw am oriau agor gwahanol ac ystyried a ellir gwireddu hynny o fewn y cyfyngiadau ariannol sydd arnom.

Trefniadau darparu gwasanaeth sy'n creu gwerth i'r cwsmer.

Project 6 - Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth

Bydd y project Ymestyn Defnydd o Hunan Wasanaeth yn sefydlu ym mha feysydd y dylid anelu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth i ymestyn y defnydd o hunan wasanaeth er mwyn ei wneud yn haws i gael mynediad at wasanaethau gan ystyried y budd a'r gost o wneud hynny a gwireddu'r cynllun busnes a sefydlir.

Project 7 - Trefniadau Cefnogi Newid

Bydd y project Trefniadau Cefnogi Newidyn yn asesu ymhle mae angen cryfhau ein trefniadau cefnogi newid gan sefydlu rhaglen ar gyfer cryfhau'r maes hwnnw a'i wireddu er mwyn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol.

Project 8 - Strategaeth Technoleg Gwybodaeth

Bydd y project Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn llunio strategaeth a rhaglen waith ar gyfer gwireddu'r strategaeth honno fydd yn uchafu defnydd o dechnoleg gwybodaeth i gynorthwyo gweithlu'r Cyngor i gyflawni ar gyfer pobl Gwynedd yng nghydestun yr hinsawdd ariannol sydd o'n blaenau.

Polisiau sy'n hyrwyddo cefnogi cyflawni anghenion ein pobl yn hytrach na chreu rhwystrau.

Project 9 - Bydd y Project ERDMS yn gosod cyfundrefn yn ei le fydd yn lleihau ein dibyniaeth ar bapur ac yn arbed amser a chostau i ni.



Integreiddio gwasanaethau cyhoeddus - Bychan fu effaith ymdrechion i gydweithio hyd yn hyn. Er mwyn ymateb i hyn byddwn yn sefydlu'r project canlynol -

Project 10 - Ail ddiffinio rôl a maes llafur Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd

Bydd y project Ail ddiffinio rôl a maes llafur Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd yn sicrhau ein bod yn cynnal adolygiad o rôl a maes llafur y Bwrdd

Gwasanaethau Lleol gan sicrhau fod ei weithgareddau yn ychwanegu gwerth i bobl Gwynedd ar gyfer y dyfodol.

Trefniadau Llywodraethu sy'n seilio penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn o'r effaith ar bobl Gwynedd.

Mae'r Datganiad Llywodraethu a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn yr Haf 2014 yn

adnabod nifer o risgiau llywodraethu sydd angen sylw gyda'r canlynol yn cael eu hadnabod fel risgiau uchel iawn sydd angen sylw -

Gwerthoedd y Cyngor - Does dim llawer o dystiolaeth fod gwerthoedd y Cyngor wedi treiddio fel y byddem wedi dymuno ymysg staff ac aelodau'r Cyngor. Mae trafodaethau gyda staff wedi amlygu fod yna ffactorau eraill yn goruchafu gwerthoedd. **Bydd Project 1 uchod yn gyfrwng i ymateb i'r risg yma.**

Y gyfundrefn "Cyflawni" - Mae diffyg perchnogaeth o'r wybodaeth perfformiad a'i ddefnydd i wella. Mae angen bod yn gliriach ynglŷn â beth sydd yn wybodaeth rheoli a beth sydd yn fesur perfformiad. **Bydd project 4 uchod yn gyfrwng i ymateb i'r risg yma.**

Ymgysylltu - Nid yw trefniadau ymgysylltu'r Cyngor cystal ag y dylent fod ar gyfer yr hinsawdd newydd sydd o'n blaenau. **Bydd project 3 uchod yn ymateb i'r risg yma.**

Project 11 - Llywodraethu Gwybodaeth

Mae yna elfen o dystiolaeth yn sgil methiannau diweddar fod angen gwella ein trefniadau rheoli gwybodaeth. **Bydd prosiect rhif 11 yn gyfrwng i wneud hynny.**

Cyfundrefn Cyflogaeth - Nid oes yna unrhyw brosiectau penodol wedi eu hadnabod ar hyn o bryd ar gyfer y maes yma ond mae yna oblygiadau yn deillio allan o Broiect 1 fydd yn golygu y bydd yna ffrydiau gwaith o fewn y project hwnnw i addasu ein trefniadau recriwtio, gwerthuso ac anwytho yn gyson gyda'r hyn fydd yn cael ei ledaenu fel rhan o'r project hwnnw.

Cyfundrefnau cyflogaeth sy'n arfogi staff ac yn atgyfnerthu'r ymddygiadau hynny sy'n rhoi pobl Gwynedd yn ganolog;



7 Adnoddau

O ran adnoddau, mae'r Cyngor eisoes wedi darparu adnodd i fedru cyflawni Project 1 ac 'rydym wedi atgyfnerthu hynny drwy greu swydd Arweinydd Rhaglen Arbennig am gyfnod o dair blynedd er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol.

Rhagwelir felly y gellir ei gyflawni i lefel benodol heb ofyn am gyllid pellach i'r hyn sydd eisoes ar gael ond ni ellir bod yn bendant na fydd anghenion eraill yn codi yn y dyfodol.

Bydd angen i'r Cyngor ystyried unrhyw angen pellach allasai godi yn y dyfodol ar sail ei haeddiant a'r sefyllfa ariannol ar y pryd.

Mae yna gwestiwn a yw'r adnodd presennol a ddarparwyd yn adlewyrchu'r uchelgais sydd gan y Cyngor.

Argymhellir fod yr adnodd presennol yn ddigon i wreiddio'r egwyddorion mewn 21 o unedau gwasanaeth erbyn diwedd 2018/19. Gyda buddsoddiad pellach unwaith ac am byth o £150,000 gellid cynyddu hyn i 31.

8 Sut fyddwn ni'ngwybod os ydym wedi llwyddo ?

Yn y pen draw, llwyddiant Ffordd Gwynedd fydd sefyllfa lle bydd profiadau unigolion wrth iddynt ddod i gyffyrddiad â'r Cyngor yn rai positif ac yn cwrdd â'u hanghenion. Er mwyn i hyn ddigwydd, rhaid i ni gael

gwasanaethau sydd yn gallu dangos eu bod yn ymateb i'r hyn sy'n bwysig, drwy ddangos eu bod yn gwybod beth sydd yn bwysig i bobl Gwynedd; bod ganddynt fesurau priodol i ddangos pa mor dda y maent yn ymateb i'r pethau hynny ac yn medru dangos fod ganddynt drefniadau mewn lle i adnabod rhwystrau ac i ymateb i gael gwared a'r rhwystrau hynny.

Y nod yw cael pob Uned Gwasanaeth o fewn y Cyngor yn diffinio'n glir pa anghenion y maent yn eu cyflawni a'r mesurau sy'n profi pa mor dda y maent yn cyflawni'r anghenion hynny (yn unol â'r model busnes a nodir yn rhan 2 uchod). Gwir llwyddiant y strategaeth yma wedyn fydd cael sicrwydd fod y mesurau hynny yn eu lle ac ein bod yn gweld y mesurau hynny yn gwella.

Er mwyn rhoddi elfen o sicrwydd fod unedau gwasanaeth o fewn y cyngor yn gweithredu i'r egwyddorion yma ac yn dilyn trefniadau gwaith ac ymddygiadau fydd yn caniatáu i hynny wella i'r dyfodol, bwriedir sefydlu marc siartr Ffordd Gwynedd.

Byddwn felly yn mesur y canlynol i fesur llwyddiant

- Canran o unedau busnes o fewn y Cyngor sydd wedi derbyn marc siartr Ffordd Gwynedd.
- Canran o fesurau a sefydlwyd wrth ddilyn trywydd Project 1 sydd yn dangos gwelliant;

Ymhen cyfnod o ddwy flynedd byddwn yn cynnal adolygiad ffurfiol o gynnydd yn erbyn yr amcan.

Project Rhif 1 : Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith (Rhaglen ar waith fydd yn arfogi timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol ac i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog.)	
Prif Garreg Miltir	Erbyn diwedd
Dechrau hyfforddi ANO a 3 ymgynghorydd pellach ar y gyfundrefn fewnol.	Chwarter 2 2015
Asesu gwersi i'w dysgu o adolygiad gwasanaeth Uned Gefnogol (Adolygiad 3)	Chwarter 3 2015
Cynnal adolygiad o fuddion parhaus yr hyn sy'n digwydd yn Cynnal a Chadw (Adolygiad 1)	Chwarter 3 2015
Dechrau adolygiad yn Adran Addysg Adolygiad 6.	Chwarter 2 2015
Dechrau adolygiadau gwasanaeth ymysg 1 uned bellach. (Adolygiad 7)	Chwarter 3 2015
Ystyried yr hyn sy'n digwydd o fewn Digartrefedd (Adolygiad 2) a'r gwersi sydd i'w dysgu.	Chwarter 3 2015
Cwblhau ac asesu canlyniadau adolygiad Gwasanaeth Uned Gefnogol (Adolygiad 3)	Chwarter 4 2015
Diffinio a sefydlu'r marc siatr arfaethedig	Chwarter 4 2015
Asesu canlyniadau a gwersi i'w dysgu o Adolygiad 5 (cynnal a chadw rhaglunedig)	Chwarter 4 2015
Dechrau hyfforddi 3 ymgynghorydd pellach ar y gyfundrefn fewnol.	Chwarter 1 2016
Cwblhau ac asesu canlyniadau adolygiad 7.	Chwarter 2 2016
Asesu gwersi i'w dysgu a chanlyniadau arbrawf Uned Alltwen (Adolygiad 4)	Chwarter 2 2016
Dechrau adolygiadau gwasanaeth ymysg 5 uned bellach (Adolygiadau 8,9,10,11 a 12).	Chwarter 2 2016
Cynnal adolygiad a chynnydd yn Adolygiad 6 Adran Addysg.	Chwarter 3 2106
Dechrau hyfforddi 3 ymgynghorydd pellach ar y gyfundrefn fewnol	Chwarter 4 2016
Cwblhau ac asesu canlyniadau adolygiadau 8, 9,10,11 ac 12.	Chwarter 1 2017
Dechrau adolygiadau gwasanaeth ymysg 8 uned bellach (Adolygiadau 13,14,15,16,17,18,19 a 20).	Chwarter 2 2017

Cwblhau ac asesu Canlyniadau adolygiadau Unedau 13,14,15,16,17,18,19 a 20.	Chwarter 1 2018
Dechrau adolygiadau Unedau 21 - 31.	Chwarter 2 2018
Cynnal adolygiad o'r rhaglen yn ei chyfanrwydd i weld a yw wedi arwain at y canlyniadau disgwylidig	Chwarter 3 2018

Mynegai Adolygiadau Ffordd Gwynedd

1. Cynnal a chadw ymatebol
2. Digartrefedd
3. Gwasanaethau Cefnogol
4. Gofal Cymdeithasol (Alltwen)
5. Cynnal a Chadw wedi ei raglenni
6. Addysg
7. Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Project Rhif 1(b) : Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith (Rhaglen ar waith fydd datblygu rheolwyr a staff i'r rolau newydd er mwyn iddynt roi pobl Gwynedd yn ganolog.

Prif Garreg Milltir	Erbyn diwedd
<p>Cwblhau Cam 3 - Sut ydan ni'n neud? Ar ddiwedd y cam hwn bydd gennym reolwyr sy'n</p> <ul style="list-style-type: none"> • pwysleisio'r pwysigrwydd o adnabod anghenion eu defnyddwyr • yn ymwybodol o bwrpas eu gwasanaethau • gyda chyfres o fesuriadau sy'n mesur pa mor dda mae'r gwasanaethau yn cwrdd â'u pwrpasau • gyda'r gallu i ddadansoddi a dehongli data'r mesuriadau perfformiad a thimau sy'n • ymwybodol o'r pwysigrwydd o adnabod anghenion eu defnyddwyr • wedi cyfrannu at ganfod pwrpas a mesuriadau eu gwasanaethau • ymwybodol o'u perfformiad 	Chwarter 3 2015
<p>Cwblhau Cam 4 - Beth am drïo fo? Ar ddiwedd y cam hwn bydd gennym reolwyr sy'n</p> <ul style="list-style-type: none"> • ymwybodol o berfformiad y tîm a'i drafod yn rheolaidd gyda hwy sut i'w wella • wedi grymuso nifer o gyfrifoldebau i'w staff • hyrwyddo a chefnogi arloesi, arbrofi ac arwain dysgu o brofiadau • gweithredu yn rhagweithiol i lenwi bylchau datblygol a thimau sy'n • Ymwybodol o berfformiad eu gwasanaeth trwy gymryd perchnogaeth o'u mesuryddion • Trafod gyda'u timau ar sut i wella perfformiad • Dallt y lefel o benderfyniadau o fewn eu gallu a gweithredu arno • Sy'n arloesi, arbrofi a dysgu o brofiadau 	Chwarter 2 2016
<p>Cwblhau Cam 5 - Sut aeth hi? Ar ddiwedd y cam hwn bydd gennym reolwyr sy'n</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynorthwyo eu timau i asesu effaith newid dulliau gweithredu • arwain pobl a thimau sy'n • asesu effaith newid dulliau gweithredu 	Chwarter 1 2017
<p>Cwblhau Cam 6 - Ein ffordd o weithio Ar ddiwedd y cam hwn bydd gennym reolwyr sy'n</p> <ul style="list-style-type: none"> • sy'n amlygu'r rôl yn llawn a thimau sy'n • sy'n amlygu'r rôl yn llawn 	Chwarter 4 2017

Project Rhif 2 : Rhaglen Datblygu Arweinwyr (Rhaglen wedi ei llunio a'i gweithredu fydd yn arfogi Arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd i chwarae eu rhan i gefnogi'r diwylliant newydd)	
Sicrhau proffiliau Insights ar gyfer pob Pennaeth Adran	Chwarter 1 2015
Cynnal cyfarfod adborth ar gasgliadau'r proffiliau hefo pob Pennaeth Adran	Chwarter 1 2015
Sefydlu trefniadau gwerthuso ar gyfer y Penaethiaid Adran/Tîm Rheoli	Chwarter 1 2015
Cynnal gwerthuso cychwynnol hefo Penaethiaid Adran/Tîm Rheoli	Chwarter 2 2015
Cyfarfod Cymhelliant - Penaethiaid Adran/Tîm Rheoli	Chwarter 2 2015
Adolygu anghenion datblygol aelodau'r Cabinet	Chwarter 3 2015
Cynnal ymarferiad 360 ar gyfer pob Pennaeth Adran/Tîm Rheoli	Chwarter 3 2015
Cynnig adborth unigol ar ganlyniadau y 360 a chynnal cyfarfod cymhelliant	Chwarter 3 2015
Cynnal adolygiad o'r gwerthuso gyda phob Pennaeth Adran/Tim Rheoli	Chwarter 3 2015
Sefydlu a chynnal "Action Learning Sets" ar sail casgliadau o'r adborth a'r adolygiadau (gyda hwylusydd) i) Grŵp Rheoli ii) Cabinet	Chwarter 4 2016
Cyfarfod gwerthuso blynyddol (i gynnwys adolygiad o anghenion hyfforddi a datblygu)	Chwarter 4 2016
Cynnal grwpiau ffocws ymysg aelodau'r Grŵp Rheoli a'r Cabinet fel rhan o ddatblygu cynllun ymgysylltu	Chwarter 1 2016
Adolygu cynnydd a llwyddiant trefniadau datblygu arweinyddiaeth	Chwarter 2 2016
Adolygiad gwerthuso pob Pennaeth Adran/Tim Rheoli	Chwarter 2 2016
Cyflwyno a chynnal "master-classes" ar sail casgliadau o'r adolygiadau a'r grwpiau ffocws	Chwarter 3 2016

(themâu yn codi o'r adolygiadau)	
Adolygiad gwerthuso unigol ar gyfer pob Pennaeth Adran/Tim Rheoli	Chwarter 3 2016

Project Rhif 3 a 7 : Ymgysylltu a Chefnogi Newid (Trefn yn ei lle i sicrhau'r gefnogaeth briodol i dimau Gwasanaeth ac aelodau i wella trefniadau ymgysylltu'r Cyngor)	
Prif Garreg Milltir	Erbyn diwedd
Sefydlu trefn o logio holl weithgareddau ymgysylltu'r Cyngor er mwyn osgoi dyblygu gweithgareddau.	Chwarter 2 2015
Cynyddu ymwybyddiaeth adrannau o'r gefnogaeth gorfforaethol sydd ar gael i hwyluso gweithgareddau ymgysylltu.	Chwarter 2 2015
Sicrhau cytundeb ar sut i ymestyn y defnydd o lwyfannau cyfathrebu ac ymgysylltu newydd (gwefannau cymdeithasol).	Chwarter 2 2015
Datblygu llyfrgell o esiamplau ymarfer da ymgysylltu er mwyn hyrwyddo diwylliant o ymgysylltu effeithiol ar draws y Cyngor.	Chwarter 3 2015
Adolygu'r Llawlyfr Ymgysylltu Corfforaethol a'r bocs twls o ganllawiau ymarferol.	Chwarter 4 2015
Diwygio'r Llawlyfr Ymgysylltu Corfforaethol a'r bocs twls o ganllawiau ymarferol ar sail argymhellion yr Adolygiad.	Chwarter 1 2016
Hyrwyddo'r llawlyfr a'r bocs twls newydd ar ei newydd wedd, gan gynnal sesiynau hyfforddi ymarferol yn ôl yr angen - Angen cynnal grŵp ffocws i ystyried pa mor addas a ddefnyddiol yw'r llawlyfr.	Chwarter 2 2016
Ymateb yn lleol i argymhellion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar drefniadau ymgysylltu o fewn awdurdodau lleol.	Chwarter 2 2016
Adolygu rôl a bodlonrwydd aelodau ar drefniadau ymgysylltu yn dilyn argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.	Chwarter 3 2016
Defnyddio adnoddau Cyfathrebu Mewnol y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o ymarfer da yn y maes ymgysylltu ac i ddathlu llwyddiant - clipiau fideo o astudiaethau achos, categori ymgysylltu cyhoeddus effeithiol yn y gwobrau Cyngor ar ei Orau ayyb	Chwarter 3 2016
Adolygu'r trefniadau a'r gefnogaeth ar gyfer y Cylch Hwyluswyr	Chwarter 3 2016
Adolygu trefniadau cefnogi newid	Chwarter 4 2016

Project Rhif 4 : Mewnosod Cyfundrefn Berfformiad (Datblygu a mewnosod cyfundrefn berfformiad sy'n sicrhau fod timau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd a defnyddio'r mesurau i wella).	
Colegau Rheolwyr – Cam 3 wedi eu cynnal	Chwarter 2 2015-16
Hyfforddiant Modiwl Perfformiad yn digwydd	Chwarter 3 2015-16
Cyfresi mesurau y Cyngor yn dangos newid i adlewyrchu'n well yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd	Chwarter 1 2016-17
Trefniadau adrodd ar brosiectau a mesurau yr Aelodau Cabinet wedi gwreiddio	Chwarter 3 2016-17
Adroddiadau trosolwg perfformiad ar holl wasanaethau'r Cyngor yn cael eu cyflwyno bedair gwaith y flwyddyn i'r Cabinet	Chwarter 4 2016-17
Project Rhif 5 : Adolygiad o oriau agor (Sefydlu a oes yna alw am oriau agor gwahanol ac a ellid gwireddu hynny o fewn y cyfyngiadau ariannol)	
Project Rhif 6 : Ymestyn y defnydd o hunan wasanaeth (Sefydlu ym mha feysydd y dylid ymestyn yr egwyddor ; creu achos busnes a rei gyfer a gweithredu arno)	
Project Rhif 7 : Trefniadau Cefnogi Newid	
Project rhif 8 : Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (Llunio strategaeth a rhaglen waith ar gyfer uchafu defnydd o dechnoleg gwybodaeth i gynorthwyo gweithlu'r cyngor i gyflawni)	
Project Rhif 9 : EDRMS (Mewnosod cyfundrefn EDRMS er mwyn lleihau dibyniaeth adrannau ar bapur ac arbed ymdrech a chostau yn sgil hynny.)	
Project Rhif 10 : Ail ddiffinio rôl a maes llafur y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (Sicrhau fod yna adolygiad o rôl a maes llafur y Bwrdd wedi cael ei gynnal er mwyn sicrhau ei fod yn ychwanegu gwerth ar gyfer y dyfodol.)	

Project Rhif 6 : Ymestyn y defnydd o hunan wasanaeth (Sefydlu ym mha feysydd y dylid ymestyn yr egwyddor ; creu achos busnes a rei gyfer a gweithredu arno)	
Prif Garreg Milltir	Erbyn diwedd
Cyflwyno achos busnes i gyfuno sianeli cyswllt y Cyngor	Chwarter 1 2015/16
Derbyn cymeradwyaeth o'r achos busnes	Chwarter 2 2015/16
Sefydlu tîm sy'n cynnwys tri adnodd newydd a dargyfeirio hanner amser arweinydd technegol	Chwarter 2 2015/16
Sefydlu'r system graidd fydd yn sail i'r datrysiad	Chwarter 3 2015/16 Chwarter 4 2015/16
Casglu ystadegau ar ddefnydd gwasanaeth yn y meysydd: <ul style="list-style-type: none"> • Cwynion cyffredinol • Grantiau prydau ysgol • Grantiau gwisg ysgol • Cofrestr mynediad i ysgol • Cais am gludiant am ddim • Ymholiad am goeden wedi ei warchod • Rheolaeth Adeiladu 	Chwarter 3 2015/16
Casglu ystadegau ar ddefnydd gwasanaeth yn y meysydd: <ul style="list-style-type: none"> • Safonau masnach • Ceisiadau am grantiau (Economi a Chymuned) • Ceisiadau rhyddid gwybodaeth • Ceisiadau cofrestr tai • Ymholiad ac asesiadau Oedolion 	Chwarter 4 2015/16
Datrysiad "cwynion cyffredinol" yn mynd yn fyw ar ail lansiad sianel ddigidol Gwynedd.	Chwarter 4 2015/16
Gweithredu rhaglen ddatblygu "agile" fydd yn cyflwyno nifer o wasanaethau ar hyd y sianeli cyswllt. Rhaglen "agile" yn bythefnos o hyd, a bydd hwn yn gyfres o 6 rhediad "agile" gydag wythnos o adlewyrchu.	Chwarter 1 2016/17
Gweithredu rhaglen ddatblygu "agile" fydd yn cyflwyno nifer o wasanaethau ar hyd y sianeli cyswllt. Rhaglen "agile" yn bythefnos o hyd, a bydd hwn yn gyfres o 6 rhediad "agile" gydag wythnos o adlewyrchu.	Chwarter 2 2016/17
Gweithredu rhaglen ddatblygu "agile" fydd yn cyflwyno nifer o wasanaethau ar hyd y sianeli cyswllt. Rhaglen "agile" yn bythefnos o hyd, a bydd hwn yn gyfres o 6 rhediad "agile" gydag wythnos o adlewyrchu.	Chwarter 3 2016/17
Gweithredu rhaglen ddatblygu "agile" fydd yn cyflwyno nifer o wasanaethau ar hyd y sianeli	Chwarter 4 2016/17

cyswllt. Rhaglen “agile” yn bythefnos o hyd, a bydd hwn yn gyfres o 6 rhediad “agile” gydag wythnos o adlewyrchu.	
Oddeutu 18 gwasanaeth wedi eu cyflwyno ar y sianeli cyswllt	Chwarter 4 2016/17
Cyfnod “aros ac adolygu”. Asesu a yw’r datrysiadau a gyflwynwyd yn cyrraedd y nod disgwylidig ac addasu fel bo’r angen.	Chwarter 4 2016/17
Gweithredu rhaglen ddatblygu “agile” fydd yn cyflwyno nifer o wasanaethau ar hyd y sianeli cyswllt. Rhaglen “agile” yn bythefnos o hyd, a bydd hwn yn gyfres o 6 rhediad “agile” gydag wythnos o adlewyrchu.	Chwarter 1 2017/18
Gweithredu rhaglen ddatblygu “agile” fydd yn cyflwyno nifer o wasanaethau ar hyd y sianeli cyswllt. Rhaglen “agile” yn bythefnos o hyd, a bydd hwn yn gyfres o 6 rhediad “agile” gydag wythnos o adlewyrchu.	Chwarter 2 2017/18
Cyfnod yr is-raglennwr (dros dro - 2 flynedd) yn dod i ben	Chwarter 2 2017/18
Gweithredu rhaglen ddatblygu “agile” fydd yn cyflwyno nifer o wasanaethau ar hyd y sianeli cyswllt. Rhaglen “agile” yn bythefnos o hyd, a bydd hwn yn gyfres o 6 rhediad “agile” gydag wythnos o adlewyrchu.	Chwarter 3 2017/18
Gweithredu rhaglen ddatblygu “agile” fydd yn cyflwyno nifer o wasanaethau ar hyd y sianeli cyswllt. Rhaglen “agile” yn bythefnos o hyd, a bydd hwn yn gyfres o 6 rhediad “agile” gydag wythnos o adlewyrchu.	Chwarter 4 2017/18
Oddeutu 32 gwasanaeth wedi eu cyflwyno ar y sianeli cyswllt	Chwarter 4 2017/18
Cyfnod “aros ac adolygu”. Asesu a yw’r datrysiadau a gyflwynwyd yn cyrraedd y nod disgwylidig ac addasu fel bo’r angen.	Chwarter 4 2017/18
Gweithredu rhaglen ddatblygu “agile” fydd yn cyflwyno nifer o wasanaethau ar hyd y sianeli cyswllt. Rhaglen “agile” yn bythefnos o hyd, a bydd hwn yn gyfres o 6 rhediad “agile” gydag wythnos o adlewyrchu.	Chwarter 1 2018/19
Gweithredu rhaglen ddatblygu “agile” fydd yn cyflwyno nifer o wasanaethau ar hyd y sianeli cyswllt. Rhaglen “agile” yn bythefnos o hyd, a bydd hwn yn gyfres o 6 rhediad “agile” gydag wythnos o adlewyrchu.	Chwarter 2 2018/19
Oddeutu 38 gwasanaeth wedi eu cyflwyno ar y sianeli cyswllt	Chwarter 4 2017/18
Cyfnod “aros ac adolygu”. Asesu a yw’r datrysiadau a gyflwynwyd yn cyrraedd y nod disgwylidig ac addasu fel bo’r angen.	Chwarter 2 2018/19
Cyfnod y dadansoddwr busnes/rheolwr prosiect	Chwarter 2 2018/19

(dros dro – 3 blynedd) yn dod i ben	
Cynnal adolygiad o'r rhaglen yn ei chyfanrwydd i weld a yw wedi arwain at y canlyniadau disgwylidig	

Project rhif 8 : Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (Llunio strategaeth a rhaglen waith ar gyfer uchafu defnydd o dechnoleg gwybodaeth i gynorthwyo gweithlu'r cyngor i gyflawni)	
Prif Garreg Milltir	Erbyn diwedd
<p>Cyflwyno dogfennaeth gynhwysfawr ar gyfer Strategaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor ar gyfer y tair blynedd nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth TG (2015/2017) - Y Weledigaeth • Strategaeth TG (2015/2017) - Gwireddu'r Weledigaeth • Strategaeth TG (2015/2017) - Amserlen ac Ymdrech <p>Panel Cyflawni Trefniadaeth Gorfforaethol</p>	<p>Chwarter 2 2015/16 30ain Gorffennaf, 2015</p>
<p>Cyflwyno'r Strategaeth TG ynghyd ag argymhellion y Panel Cyflawni Trefniadaeth Corfforaethol I aelodau'r Grŵp Llywodraethu Technoleg Gwybodaeth.</p>	<p>Chwarter 2 2015/16</p>
<p>Derbyn cymeradwyaeth o'r Strategaeth gan Banel Cyflawni Trefniadaeth Corfforaethol</p>	<p>Chwarter 2 2015/16 21ain Medi, 2015</p>
<p>Derbyn cymeradwyaeth o'r Strategaeth gan Gabinet y Cyngor</p>	<p>Chwarter 3 2015/16 6ed Hydref, 2015 3ydd Tachwedd, 2015</p>
<p>Gweithredu'r Strategaeth</p>	<p>Chwarter 3 2015/16 hyd at Chwarter 4 2017/18</p>
<p>Monitro datblygiad y Strategaeth gan adrodd yn ôl i Banel Cyflawni Trefniadaeth Corfforaethol a'r Grŵp Llywodraethu Technoleg Gwybodaeth.</p>	<p>Chwarter 3 2015/16 hyd at Chwarter 4 2017/18</p>

Project Rhif 9 : EDRMS (Mewnosod cyfundrefn EDRMS er mwyn lleihau dibyniaeth adrannau ar bapur ac arbed ymdrech a chostau yn sgil hynny.)	
Adeiladu a datblygu system SharePoint, sef y meddalwedd fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer iGwynedd	Chwarter 1 a 2 2015
Cyflwyno system iGwynedd i Gefnogaeth Gorfforaethol	Chwarter 3 2015
Paratoi a chyflwyno'r system i Economi a Chymuned	Chwarter 4 2015 / Chwarter 1 2016
Paratoi a chyflwyno'r System i 'r Tîm Arweinyddiaeth	Chwarter 1 2016
Paratoi a chyflwyno'r System i Addysg	Chwarter 2 2016
Paratoi a chyflwyno'r System i Cyllid	Chwarter 3 2016
Paratoi a chyflwyno'r System i Rheoleiddio	Chwarter 4 2016
Paratoi a chyflwyno'r System i Oedolion	Chwarter 1 2017
Paratoi a chyflwyno'r system i Plant	Chwarter 2 2017
Paratoi a chyflwyno System i Briffyrdd	Chwarter 3 2017
Paratoi a chyflwyno'r System i Ymgynghoriaeth	Chwarter 4 2017 / Chwarter 1 2018

Eitem 8

ADRODDIAD I'R CABINET

14 GORFFENNAF 2015

Aelod Cabinet: CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS
AELOD CABINET ADNODDAU

Pwnc: CYLLIDEB REFENIW 2015/16 – ADNABOD RISGIAU CYNNAR

Swyddog Cyswllt: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

1. Y penderfyniad a geisir

1.1 Nodi'r risgiau cyllidebol sydd wedi'u hadnabod yn gynnar yn 2015/16 a gofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu rheolaeth.

2. Casgliadau Cynnar am Gyllidebau'r Adrannau

2.1 Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw 2015/16.

2.2 Yn **Atodiad 1** mae amlinelliad o'r sefyllfa fesul adran, gyda sylwadau cryno ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol (gyllidebau lle rhagwelir gorwariant yn 2015/16 ar sail profiad y chwarter gyntaf).

2.3 Gan ei bod mor fuan yn y flwyddyn, nid yw'r holl dueddiadau gwariant yn eglur, ac mae'r adroddiad ar gyfer y chwarter cyntaf yn dueddol o ganolbwyntio ar faterion sydd wedi dod i'r amlwg ers paratoi'r gyllideb ac unrhyw broblemau o sylwedd sydd wedi amlygu eu hunain yn y cyfamser.

2.4 O ganlyniad, mae'r adroddiad yma, sydd wedi'i baratoi ar sail eithriadau, yn hadnabod risgiau ariannol, yn hytrach na phroffwydo cyfanswm o orwariant gan y Cyngor yn 2015/16. Diau y bydd penawdau cyllideb eraill yn tanwario eleni a gwrthbwysu rhai o'r problemau sydd wedi'u nodi yma.

2.5 Mae'n rhy gynnar i ddod i ganlyniad pendant am y perfformiad ariannol tebygol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Er hynny, mae tueddiad tuag at orwariant ar rai penawdau gwariant eisoes, sy'n awgrymu risg o orwariant go sylweddol mewn sawl adran, gan gynnwys Oedolion, Addysg, Economi a Chymuned, Priffyrdd, ac Ymgynghoriaeth, ond mae'r asesiad sydd yma o sefyllfa cyllideb 2015/16 yn un cynnar ar sail eithriadau. Cadarnhaf fod yr adrannau perthnasol yn cymryd camau i geisio rheoli cyllideb eleni.

3. Camau nesaf ac amserlen

- 3.1 Disgwylir i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid perthnasol barhau i gadw llygad ar y materion amlygwyd yn Atodiad 1.
- 3.2 Adroddir ymhellach gyda mwy o fanylder a mwy o sail i'n rhagamcanion wedi dysgu o brofiad yr ail chwarter, gan gofio fod cynnwys yr adroddiad yma wedi'i baratoi **cyn** diwedd y chwarter cyntaf.

Barn yr aelod lleol

Dim yn berthnasol

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:

Fel y noda'r adroddiad, mae'n fuan iawn yn y flwyddyn i fod yn adnabod unrhyw dueddiadau arwyddocaol ond mae'n allweddol bod penaethiaid ac Aelodau Cabinet yn cadw llygad barcud ar unrhyw awgrymiadau cynnar o orwariant er mwyn dod a'r mater dan reolaeth.

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad 1 – Amlinelliad o'r sefyllfa fesul adran

CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF					
Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb 2015/16	Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16	Defnydd o Ffynonellau Eraill	Gor / (Tan) Wariant Addasedig
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>					
Gwasanaethau Pobl Hŷn					
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	10,292	9,816	(476)	0	(476)
Gofal Cartref	5,920	6,125	205	0	205
Eraill	2,904	2,914	10	0	10
	19,116	18,855	(261)	0	(261)
Gwasanaethau Anabledd Corff					
Preswyl a Nyrsio	434	454	20	0	20
Gofal Cartref	1,019	1,089	70	0	70
Eraill	648	648	0	0	0
	2,101	2,191	90	0	90
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	13,817	13,817	0	0	0
Gwasanaethau Iechyd Meddwl					
Preswyl a Nyrsio	1,192	1,342	150	0	150
Eraill	2,154	2,104	(50)	0	(50)
	3,346	3,446	100	0	100
Gwasanaethau Eraill (Oedolion)					
Rheolwyr	406	406	0	0	0
Tim Pobl Hyn ac Anabledd Corff	2,852	2,852	0	0	0
	3,258	3,258	0	0	0
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	41,638	41,567	(71)	0	(71)

CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF					
Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb 2015/16	Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16	Defnydd o Ffynonellau Eraill	Gor / (Tan) Wariant Addasedig
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Darparu</u>					
Rheolaeth a Gweinyddiaeth	(97)	(97)	0	0	0
Gwasanaethau Gofal Preswyl	0	50	50	0	50
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	(97)	(47)	50	0	50
<u>Gwasanaethau Eraill</u>					
Gwasanaethau Tai	4,989	4,954	(35)	0	(35)
Gwasanaethau Gofal Cwsmer	223	223	0	0	0
Gwasanaethau Canolog Adrannol	3,300	3,742	442	0	442
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Eraill</u>	8,512	8,919	407	0	407
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	50,053	50,439	386	0	386

Crynodeb Oedolion, Iechyd a Llesiant**Prif Faterion:-****Gwasanaethau Pobl Hŷn:-**

- Preswyl a Nyrsio - Cartrefi - gwelir posibilrwydd y bydd tanwariant o (£476k) am y tro ac yn gyfuniad o danwariant o (£176k) ar Gartrefi Annibynnol ac yn adlewyrchu gostyngiad sylweddol yn y nifer o leoliadau dros y misoedd diwethaf, ynghyd a chynnydd o (£300k) mewn Cyfraniadau, ond sydd yn cynnwys rhagdybiaeth o dderbyniad grant Cronfa Ganolraddol (I.C.F) o (£200k).
- Gofal Cartref - risg o orwario £205k ar y pennawd yma, oherwydd, yn bennaf, fod y pwysau am y ddarpariaeth yn parhau.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl:-

- Preswyl a Nyrsio - oherwydd rhagolygon o achosion newydd am y tro, mae sefyllfa gorwariant o £150k yn debygol.

Gwasanaethau Eraill:-

- Gwasanaethau Canolog Adrannol - fe gynhwysir o fewn y pennawd yma sefyllfa 'Cynlluniau Arbedion i'w Gwireddu'. Mae'r gwaith i wireddu'r targed am eleni yn parhau, a'r Aelod Cabinet eisoes yn ystyried y mater a'r Pennaeth yn adnabod dulliau amgen i wireddu'r arbedion eleni. Er hynny, mae posibilrwydd o beidio cyflawni yn llawn eleni, gyda risg o fethu cyflawni hyd at £442k o arbedion.

Crynhoad:-

Hyderaf y bydd yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth yn llwyddo i wella'r sefyllfa yn ystod 2015-16 ond, pe bai'r tueddiad cynnar yma'n parhau, gwynebir risg bydd yr Adran yn gorwario £386k.

CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF					
Crynhoad Sefyllfa Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb 2015/16	Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16	Defnydd o Ffynonellau Eraill	Gor / (Tan) Wariant Addasedig
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Gwasanaeth	405	362	(43)	0	(43)
Gwasanaethau Gweithredol	1,826	1,926	100	0	100
Gwasanaethau Lleoliadau					
Uned Breswyl	140	556	416	(200)	216
Lleoliadau All-Sirol	2,233	2,184	(49)	0	(49)
Maethu Drwy Asiant	1,020	1,054	34	0	34
Maethu Mewnol	1,809	1,709	(100)	0	(100)
Eraill	1,500	1,438	(62)	0	(62)
	6,702	6,941	239	(200)	39
Gwasanaethau Ôl-16	991	991	0	0	0
Gwasanaethau Arbenigol/Derwen	1,543	1,493	(50)	0	(50)
Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid	255	255	0	0	0
Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar	108	108	0	0	0
Gwasanaethau Eraill	1,897	1,865	(32)	0	(32)
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	13,727	13,941	214	(200)	14

Crynodeb Plant a Theuluoedd**Prif Faterion:-****Gwasanaethau Gweithredol:-**

Sefyllfa staffio gweithwyr maes yn parhau i achosi gorwariant ar y pennawd yma.

Gwasanaeth Lleoliadau:-

- Uned Breswyl - fe gynhwysir yma effaith methiant i gyflawni cynllun arbedion perthnasol i gartref preswyl plant, ac os ydi'r sefyllfa yn parhau, yn debygol o achosi gorwariant o £416k eleni. Oherwydd yr ymhlygiadau ariannol sylweddol, fe ddisgwylir i'r Adran gymryd pob cam posib i geisio gwireddu'r cynllun yma cyn gynted â phosib.
- Maethu Mewnol - rhagolygon cynnar iawn yn y flwyddyn yn amcan fod y sefyllfa tanwariant ar y pennawd yma yn parhau.

Crynhoad:-

Y tueddiadau cynnar yma yn awgrymu posibilrwydd gorwariant gros o £214k, a phe byddai'r darlun yn parhau i ddiwedd y flwyddyn, bwriedir defnyddio (£200k) o arian wrth gefn mewn cronfeydd i liniaru ar y sefyllfa.

CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF					
Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg	Cyllideb 2015/16	Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16	Defnydd o Ffynonellau Eraill	Gor / (Tan) Wariant Addasedig
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion Datganoledig	68,367	68,367	0	0	0
Cludiant	4,232	4,234	2	0	2
Diswyddo ac Ymddeol Cynnar	358	1,608	1,250	(1,218)	32
Integreiddio	96	96	0	0	0
All Sirol	982	982	0	0	0
Arlwyaeth a Glanhau	356	461	105	(105)	0
Addysg Meithrin	606	606	0	0	0
Grant Gwella Addysg	686	686	0	0	0
Rheolaeth	1,874	1,874	0	0	0
Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol	1,725	1,969	244	(230)	14
Strategaeth Cynhwysiad	348	318	(30)	0	(30)
Addysg Bellach	24	24	0	0	0
Arian wrth Gefn Ysgolion	118	118	0	0	0
Cefnogaeth i Ysgolion yn Tan-berfformio	0	50	50	0	50
Cyfraniad Addysg i Cyd-Bwyllgorau	1,566	1,566	0	0	0
Eraill	7,488	7,488	0	0	0
Cyfanswm Addysg	88,826	90,447	1,621	(1,553)	68

Crynodeb Addysg**Prif Faterion:-****Diswyddo ac Ymddeol Cynnar:-**

Yn bennaf oherwydd effaith demograffeg ar y sector uwchradd, sef gostyngiad mewn niferoedd disgyblion, a hefyd yn rhannol effaith colled grant 6ed dosbarth, a'r ymhlygiadau'r rhaglen arbedion ar y sector uwchradd, rhagwelir gorwariant gros sylweddol o £1,250k mewn costau Ymddeol Cynnar / Diswyddo Gorfodol eleni. Pe byddai'r sefyllfa a ragwelir yn bodoli erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, mae'r Adran yn bwriadau defnyddio cronfa benodol wrth gefn o £270k, ynghyd â darpariaeth o £948k mewn cyfuniad o gronfeydd eraill, i liniaru'r sefyllfa.

Arlwyaeth a Glanhau:-

Sefyllfa gorwariant o £105k a ragwelir am y tro, yn cynnwys gorwariant o £55k ar y ddarpariaeth Brecwast am Ddim, ynghyd â gorwariant o £50k ar Arlwyaeth Ysgolion. Disgwylir i'r Adran gymryd camau priodol i sicrhau fod y pennawd yma yn gweithredu o fewn y ddarpariaeth gyllidol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol:-

Oherwydd y sefyllfa bresennol berthnasol i ddau ganolfan a'r angen i wneud trefniadau priodol, pe byddai'r sefyllfa yn parhau i ddiwedd y flwyddyn ariannol byddai cost ychwanegol o £196k sy'n gynwysedig yn y gorwariant posib o £244k ar y pennawd yma. Disgwylir i'r adran sicrhau trefniadau newydd perthnasol cyn gynted â phosib, a thrwy hynny leihau'r gorwariant posib. Efallai byddai'r Cabinet yn awyddus i roddi ystyriaeth i roddi cymorth cyllidol ychwanegol yn hwyrach yn y flwyddyn. Yn ychwanegol, fe ragwelir gorwariant o £50k gan yr Uned Awtistiaeth. Mae'r Adran yn cynnal adolygiad brys o'r ddarpariaeth gyda'r bwriad o weithredu o fewn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

Crynhoad:-

Mae cyfuniad o ddefnydd o gronfeydd wrth gefn, a mesurau penodol gan yr Adran i ymateb i'r sefyllfa, yn bwriadu gostwng sefyllfa'r rhagolygon cynnar i orwariant o oddeutu £68k.

CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF					
Crynhoad Sefyllfa Adran Economi a Chymuned	Cyllideb 2015/16	Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16	Defnydd o Ffynonellau Eraill	Gor / (Tan) Wariant Addasedig
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	816	816	0	0	0
Cefnogaeth Busnes	255	255	0	0	0
Marchnata a Gofal Cwsmer	992	992	0	0	0
Adfywio Cymunedol	541	541	0	0	0
Sgiliau a Maentgarwch	67	67	0	0	0
Tîm Prosiectau Strategol	596	596	0	0	0
Strategaeth a Datblygu	158	158	0	0	0
Archifiau	435	425	(10)	0	(10)
Amgueddfeydd	180	185	5	0	5
Orielau	63	63	0	0	0
Neuaddau	249	264	15	0	15
Celfyddydau	265	265	0	0	0
Parciau Gwledig	116	126	10	0	10
Morwrol	194	224	30	0	30
Gwasanaeth Ieuenctid	1,303	1,283	(20)	0	(20)
Gwasanaeth Cymunedau'n Iach - Canolfannau Hamdden	3,821	3,944	123	(80)	43
Datblygu Chwaraeon	249	249	0	0	0
Llyfrgelloedd	1,930	1,945	15	0	15
Cyfanswm Economi a Chymuned	12,230	12,398	168	(80)	88

Crynodeb Economi a Chymuned**Prif Faterion:-****Gwasanaeth Cymunedau'n Iach - Canolfannau Hamdden:-**

Nodi'r risg o orwariant gros ar y pennawd yma o £123k, yn cynnwys nifer o wahaniaethau ac yn arbennig gostyngiad mewn grant nofio o £50k a chostau ail strwythuro o £20k, gostyngiad mewn incwm o feysydd iach mewn canolfannau. Trwy gyfuniad o fesurau rhagwelir gallu gostwng y risg o orwariant yma i £43k.

Crynhoad:-

Tueddiadau cynnar yn awgrymu gorwariant adrannol net o £88k am y tro, ond mae'r Adran yn gweithio i geisio cadw o fewn y ddarpariaeth gyllidol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF					
Crynhoad Sefyllfa Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Cyllideb 2015/16	Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16	Defnydd o Ffynonellau Eraill	Gor / (Tan) Wariant Addasedig
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	10,389	10,389	0	0	0
Gwasanaethau Peirianeg	510	510	0	0	0
Gwasanaethau Bwrdeistrefol					
Gwastraff					
Gwaredu Gwastraff	2,262	2,262	0	0	0
Safleoedd Trin a Throsglwyddo	1,321	1,521	200	0	200
Canolfannau Ailgylchu	1,295	1,295	0	0	0
Casglu Gwastraff ac Ailgylchu	3,681	3,681	0	0	0
Safleoedd Gwaredu	388	388	0	0	0
Eraill Gwastraff	87	87	0	0	0
Is-Gyfanswm Gwastraff	9,034	9,234	200	0	200
Eraill Bwrdeistrefol	4,468	4,468	0	0	0
	13,502	13,702	200	0	200
Unedau Gwaith Bwrdeistrefol	(17)	(17)	0	0	0
<u>Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)</u>	24,384	24,584	200	0	200

Crynodeb Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**Prif Faterion:-****Gwasanaethau Bwrdeistrefol:-**

- Gwastraff - Safleoedd Trin a Throsglwyddo - Fe welwyd diffyg mewn derbyniad incwm o werthiant deunyddiau ailgylchu'r llynedd, a hyd yma eleni mae'r broblem yma yn parhau i fodoli, ac fe ragwelir gostyngiad mewn derbyniad incwm o oddeutu £200k. Gan fod hyn yn broblem genedlaethol, mae pump o gynghorau yng Ngogledd Cymru (ac yn cynnwys Cyngor Gwynedd), yn gweithio ar y cyd i geisio cael gwell prisiau am y deunyddiau a werthir.

Yn y cyfamser, mae'r Adran yn edrych i addasu trefniadau a phrosesau i leihau gwariant.

CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF					
Crynhoad Sefyllfa Adran Rheoleiddio	Cyllideb 2015/16	Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16	Defnydd o Ffynonellau Eraill	Gor / (Tan) Wariant Addasedig
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth yr Adran	470	470	0	0	0
Gwasanaethau Cynllunio					
Rheolaeth Datblygu	406	406	0	0	0
Eraill	26	26	0	0	0
	432	432	0	0	0
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth					
Cynllunio Ymlaen	2,058	2,058	0	0	0
Cynnal Adeiladweithiau	1,242	1,242	0	0	0
Diogelwch y Ffyrdd	402	402	0	0	0
Traffig a Threfniadau Statudol	654	654	0	0	0
Gwasanaethau Parcio	(835)	(835)	0	0	0
Cludiant	2,135	2,119	(16)	0	(16)
Eraill	474	474	0	0	0
	6,130	6,114	(16)	0	(16)
Gwasanaethau Cefn Gwlad a Mynediad	1,275	1,275	0	0	0
Gwasanaethau Polisi Cynllunio ar y Cyd	284	284	0	0	0
Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd	1,772	1,772	0	0	0
Gwasanaethau Arlwy, Glanhau a Gofalu	11	11	0	0	0
Gwasanaethau Eiddo	(106)	(105)	1	0	1
Cyfanswm Rheoleiddio	10,268	10,253	(15)	0	(15)

CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF					
Crynhoad Sefyllfa Adran Ymgynghoriaeth	Cyllideb 2015/16	Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16	Defnydd o Ffynonellau Eraill	Gor / (Tan) Wariant Addasedig
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianeg	(291)	(125)	166	0	166
Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd	865	865	0	0	0
Gwasanaethau Adeiladu	287	287	0	0	0
Cyfanswm Ymgynghoriaeth	861	1,027	166	0	166

Prif Faterion:-

Mae tueddiadau cynnar yn awgrymu gorwariant o £166k gan yr Adran, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad mewn incwm ffioedd am eleni, ac yn arbennig ble disgwylir yr un gwaith am lai o gost gan rai cleientiaid.

Mae'r Adran yn parhau i ystyried camau posib i geisio gweithredu o fewn y targed cyllidol eleni.

CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF					
Crynhoad Sefyllfa Adrannau Canolog	Cyllideb 2015/16	Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16	Defnydd o Ffynonellau Eraill	Gor / (Tan) Wariant Addasedig
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Adran y Prif Weithredwr	646	646	0	0	0
Cyllid	1,162	1,213	51	(51)	0
Cefnogaeth Gorfforaethol	568	578	10	0	10
Cyfanswm Adrannau Canolog	2,376	2,437	61	(51)	10

Cyllid - fe ragwelir llithriad yn y rhaglen arbedion Technoleg Gwybodaeth am eleni mewn perthynas â chynllun VOIP. Bwriedir defnyddio adnoddau adrannol i bontio'r sefyllfa am eleni.

CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF					
Crynhoad Sefyllfa Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu penawdau ble rhagwelir gor/(tan)wariant)	Cyllideb 2015/16	Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16	Defnydd o Ffynonellau Eraill	Gor / (Tan) Wariant Addasedig
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Derbyniad Llog Net	(503)	(439)	64	0	64
<u>Cyfanswm Corfforaethol</u>	(503)	(439)	64	0	64

Derbyniad Llog Net - fe ragwelir bellach na fydd cyfraddau llogau perthnasol yn codi eleni fel y rhagwelwyd yn flaenorol, ac o ganlyniad yn debygol o arwain at ostyngiad mewn derbyniad incwm ar y pennawd yma eleni.

ADRODDIAD I'R CABINET 14 GORFFENNAF 2015

Aelod Cabinet: CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS – AELOD CABINET ADNODDAU

Pwnc: RHAGLEN GYFALAF 2015/16 - ADOLYGIAD CHWARTER GYNTAF
(30 MEHEFIN 2015)

Swyddog Cyswllt: DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID

Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

Adroddir ar adolygiad y chwarter gyntaf (sefyllfa 30 Mehefin 2015) o'r rhaglen gyfalaf, a gofynnir i Gabinet 14 Gorffennaf 2015 gymeradwyo'r ariannu addasedig.

Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o broses monitro'r gyllideb 2015/16. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 2 rhan:

Rhan 1: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £76.1m am y 3 blynedd 2015/16 – 2017/18.

Rhan 2: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £9.7m ers y gyllideb agoriadol, gyda £4.3m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2014/15 (adroddwyd eisoes ar 2 Mehefin 2015).

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

Prif Gasgliadau:

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £41m yn 2015/16, gyda £13m wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Llwyddodd y Cyngor i wario ychydig dros £8.9m, sef bron i 22% o'r gyllideb ar gynlluniau cyfalaf yn ystod y chwarter cyntaf o 2015/16, o'i gymharu â 10% yn y cyfnod cyfatebol llynedd.
- Ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2015/16 - 2017/18.

Ystyriaethau perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Barn yr Aelod Lleol

Dim yn berthnasol.

Barn y Swyddogion Statudol

Y Prif Weithredwr:

Rwy'n cymeradwyo'r adroddiad a'r argymhellion ynddo.

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiad

Adroddiad manwl, rhan 1-2, ar dudalennau 3-5.

1 RHAGLEN GYFALAF 2015/16 i 2017/18

1.1 Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Mehefin 2015 yn erbyn y gyllideb wreiddiol:

SYMUDIAD O'R GYLLIDEB AGORIADOL I DDIWEDD Y CHWARTER CYNTAF

	CYLLIDEB AGORIADOL				ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN				CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL	ADDASIADAU LLITHRIADAU	NEWIDIADAU ERAILL
	2015/16	2016/17	2017/18	CYFANSWM	2015/16	2016/17	2017/18	CYFANSWM			
ADRAN	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg	16,374	14,659	5,703	36,736	14,869	16,449	5,703	37,021	285	244	41
Cyllid	894	448	-	1,342	804	560	-	1,364	22	250	(228)
Economi a Chymuned	4,217	610	-	4,827	5,147	656	-	5,803	976	854	122
Tai	2,283	2,237	-	4,520	3,153	2,238	-	5,391	871	(31)	902
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,545	96	155	1,796	775	397	155	1,327	(469)	103	(572)
Plant a Theuluoedd	-	-	-	-	10	-	-	10	10	-	10
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	3,430	1,519	1,992	6,941	4,378	1,979	2,702	9,059	2,118	727	1,391
Cefnogaeth Gorfforaethol	160	-	-	160	61	105	-	166	6	29	(23)
Rheoleiddio	6,228	3,620	18	9,866	12,013	3,619	18	15,650	5,784	2,141	3,643
Ymgynghoriaeth	58	-	-	58	128	-	-	128	70	-	70
Corfforaethol	-	202	-	202	-	202	-	202	-	-	-
CYFANSWM	35,189	23,391	7,868	66,448	41,338	26,205	8,578	76,121	9,673	4,317	5,356

1.2 Bu sefyllfa gwir wariant o £8.9miliwn (sydd bron yn 22% o'r gyllideb yn ei gyfanrwydd am 2015/16) hyd at ddiwedd mis Mehefin 2015, o'i gymharu â 10% o'r gyllideb am y cyfnod cyfatebol yn 2014/15.

2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

2.1 Mae cynnydd o £9.673m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb agoriadol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

ARIANNU	CYLLIDEB AGORIADOL			ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN			CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL	ADDASIADAU LLITHRIADAU	NEWIDIADAU ERAILL
	2015/16	2016/17	2017/18	2015/16	2016/17	2017/18			
	£000	£000	£000	£'000	£'000	£000			
Benthycia gyda chefnogaeth	6,637	6,637	2,817	6,637	6,637	2,817	-	-	-
Benthycia heb gefnogaeth	5,858	5,775	0	7,392	7,424	0	3,183	269	2,914
Grantiau a Chyfraniadau	10,205	8,017	2,886	13,210	8,027	2,886	3,015	2,878	137
Derbyniadau Cyfalaf	1,519	468	0	1520	514	0	47	9	38
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	4,440	1245	0	4,484	1,245	0	44	10	34
Cronfa Cyfalaf	3,874	200	155	3,353	859	155	138	711	(573)
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	2,656	1,049	2,010	4,742	1,499	2,720	3,246	440	2,806
CYFANSWM	35,189	23,391	7,868	41,338	26,205	8,578	9,673	4,317	5,356
CYFANSWM 3 MLYNEDD			66,448			76,121			

2.2 Gwir Lithriadau o 2014/15

Ar gyfer y gyllideb agoriadol eleni fe seiliwyd y lefel llithriadau i 2015/16 ar y sefyllfa a ragwelwyd yn y drydydd chwarter o 2014/15. Adroddwyd i gyfarfod 2 Mehefin o'r Cabinet ar sefyllfa diwedd y flwyddyn 2014/15, a nodwyd pryd hynny roedd lefel y gwir lithriad wedi cynyddu yn y chwarter olaf, fel y manylir uchod yn y golofn 'Addasiadau Lithriadau'. Eto, fel adroddwyd ar 2 Mehefin, nid oes unrhyw golled mewn ariannu i'r Cyngor oherwydd y llithriad yma. Fe eglurir gweddill y newidiadau fel a ganlyn.

2.3 Benthycia Heb Gefnogaeth

Cynnydd o £2,914,000 yn 2015/16 yn y dull yma o ariannu yn bennaf ar gyfer

- **Cynlluniau Cronfa Benthyciadau Tai (Gwasanaeth Tai) £900,474 2015/16**
Benthyciad gan Lywodraeth Cymru am gyfnod o 15 mlynedd i'w ddefnyddio at ddibenion codi safonau tai yng Ngwynedd (adroddiad Cabinet 17 Mawrth 2015).
- **Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) £2,000,000 2015/16** - Addasiad technegol i'r ffynhonnell ariannu er mwyn cyfnewid grant a dderbynnir gan y Llywodraeth gyda benthyciad (gweler hefyd 2.4 isod). Ni fydd hyn yn cael effaith ar y cynlluniau o gwbl.

2.4 Grantiau a Chyfraniadau

Cynnydd net o £137,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf oherwydd:

- **Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) Lleihad £2,000,000 2015/16**
Addasiad technegol i gyfnewid grant am fenthyciad (gweler hefyd 2.3 uchod)
- **Pont Briwet (Adran Rheoleiddio) £900,881 2015/16**
Cyfraniad Network Rail at gostau ychwanegol ar y cynllun yma yn unol â'r cytundeb gwreiddiol.
- **Cynlluniau Cronfa Trafnidiaeth Leol (Adran Rheoleiddio) - £735,760 yn 2015/16**
Derbyniwyd ariannu ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant ar y prif gynlluniau isod:
 - Croesfan Rheilffordd Pont Britannia, Porthmadog £332,960
 - Mynediad i Faes Awyr Llanbedr £206,000
 - Llwybrau Diogel i Ysgolion – Ysgol Friars ac Ysgol Cae Top £189,800
- **Cynllun Bwrdd Deifio Pwll Nofio Bangor (Adran Economi a Chymuned) - £184,940 yn 2015/16**
Cafwyd grant gan Gyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer uwchraddio cyfleusterau deifio ym mhwl nofio Bangor.
- **Cynllun Llwybr yr Arfordir (Gwedd 2) (Adran Rheoleiddio) £138,000 yn 2015/16**
Derbyniwyd grant gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cynlluniau i ehangu mynediad i'r arfordir.

2.5 Derbyniadau Cyfalaf

Cynnydd net o £38,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf ar gyfer prynu darn o dir wrth ymyl yr ysgol yn Cefn Coch, Penrhyndeudraeth (Adran Addysg) am £40,000 yn ystod 2015/16.

2.6 Refeniw Adrannol a Chorfforaethol

Cynnydd net o £34,000 yn y dull yma o ariannu, ar amryw o fan gynlluniau.

2.7 Cronfa Cyfalaf

Lleihad o £572,500 yn y dull yma o ariannu yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth i ariannu cynllun Systemau Rheoli Gofal Cymunedol (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) eu hunain.

2.8 Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill

Cynnydd net o £2,806,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf ar gynlluniau Rheoli Carbon (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, a'r Adran Rheoleiddio – Uned Eiddo). Cymeradwywyd :

- i uwchraddio goleuadau stryd i 'LED' (£1,410,000 dros 3 mlynedd) sydd wedi ei ariannu o'r gronfa Buddsoddi i Arbed (adroddiad i'r Cabinet 5/5/15), a
- Cynllun Carbon Dau (adroddiad i'r Cabinet 23/6/15) ac fe welir yma ran o'r pecyn ariannu perthnasol o'r Gronfa Rheoli Carbon.

2.9 Argymhelliad

Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2015/16 i 2017/18, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu berthnasol (para. 2.2 i 2.8 uchod).

Eitem 10

ADRODDIAD I'R CABINET {Gorffennaf 14, 2015}

Aelod Cabinet: Mandy Williams Davies

Pwnc: Ardaloedd Gwella Busnes Bangor a Chaernarfon

Swyddog cyswllt: Rhys A Williams

Y penderfyniad a geisir

Cymeradwyo'r bwriad o gynnal pleidlais ymysg busnesau canol dinas Bangor a chanol tref Caernarfon ar y bwriad o sefydlu Ardal Gwella Busnes o fewn y ddwy ardal.

Barn yr aelod lleol

I'w gadarnhau

Cyflwyniad

Mae Ardal Gwella Busnes (AGB) yn bartneriaeth sydd yn cael ei arwain gan gymuned fusnes sydd yn cael ei sefydlu drwy broses bleidleisio ffurfiol er mwyn darparu gwasanaethau ychwanegol i fusnesau lleol. Mae AGB yn ardal benodol, ac oddi fewn i'w ffiniau bydd talwyr trethi annomestig yn talu ardoll ychwanegol i'r trethi busnes. Mae'r ardoll ychwanegol yma yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu prosiectau er budd busnesau'r ardal honno.

Derbyniodd Cyngor Gwynedd gymorth gan Lywodraeth Cymru (yn wreiddiol drwy raglen Adfywio Môn Menai) i ymchwilio'r cyfleoedd o sefydlu AGB yng nghanolfannau masnachol Bangor a Chaernarfon. Yn 2014, penodwyd ymgynghorwyr i wneud gwaith dichonoldeb gan weithio gyda grwpiau busnes i ddatblygu cynigion amlinellol.

Yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr 2014, trefnwyd ymgynghoriad gyda busnesau, ac o'r ymatebion a dderbyniwyd roedd 83% o fusnesau Caernarfon ynghyd a 77% o fusnesau Bangor wedi datgan eu bod yn gefnogol i'r bwriad ac y dylid cynnal pleidlais. Yn sgil y gefnogaeth gychwynol yma, aethpwyd ati i sefydlu grwpiau llywio, trefnu sesiynau codi ymwybyddiaeth ac i ddatblygu pecynnau cynigion yn unol â gofynion y broses o sefydlu AGB.

Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Mae rheoliadau AGB yn nodi fod angen i awdurdodau lleol reoli'r broses bleidleisio. Mae gan awdurdodau lleol yr hawl feto os yw'n ystyried y byddai cynigion AGB yn debygol o wrthdaro'n sylweddol gyda pholisi presennol, yn gosod baich ariannol ar drethdalwyr, neu fod baich yr ardoll yn rhy uchel. Fodd bynnag, fe gefnogir y bwriad o gynnal pleidlais oherwydd :

- Mae'r cynigion i sefydlu AGB ym Mangor a Chaernarfon yn ymateb i heriau sydd wedi eu hadnabod gan y gymuned fusnes.
- Wrth gynnal pleidlais, mae'r gymuned fusnes yn derbyn y cyfle i gefnogi sefydliad yr AGB er mwyn rhoi'r gallu iddynt wireddu'r amcanion sydd wedi eu nodi o fewn y cynlluniau busnes.
- Gallai'r AGB arfaethedig ddenu buddsoddiad ychwanegol ag uchafu cynnig a phroffil Bangor a Chaernarfon
- Byddai'r AGB yn gyfrwng i gydweithio gyda'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ychwanegol.

Ystyriaethau perthnasol

Cynigion Ardal Gwella Busnes

Fel rhan o'r broses AGB, mae'n ofynnol i baratoi cynigion ynghyd a chynllun busnes. Mae'n ofynnol i'r cynigion gynnwys gwybodaeth am wasanaethau sydd i'w darparu ynghyd a maint yr AGB arfaethedig. Dylai hefyd gynnwys maint yr ardoll a'r trefniadau ar gyfer ei gasglu.

Mae Cynigion AGB ar gyfer Bangor a Chaernarfon wedi eu cynnwys fel Atodiad 1 a 2.

Mae prif faterion y cynigion hyn wedi eu datblygu gan ddilyn tair prif thema sef:

Dylanwadol ag Integredig – gan gynnwys penodi Cyd-gysylltwr Canol Tref ag ymyraethau i gefnogi a hybu busnesau

Glan a Gwyrdd, Taclus a Diogel - gan gynnwys glanhau ychwanegol, gwybodaeth a dehongli, gwella blaen siopau a chreu amgylchedd diogel

Hyrwyddo'n falch – gan gynnwys rhaglen ddigwyddiadau, sefydlu 'her ganol dref / ddinas' i hybu cyfleoedd mentro a marchnata

Rhagwelir y byddai'r AGB arfaethedig yn codi ardoll o 1.5% yn erbyn cyfradd trethi annomestig, gan eithrio eiddo sydd â gwerth trethiannol llai na £2,000. Amcangyfrifir y byddai'r AGB yn codi hyd at £127,000 y flwyddyn (sef £635,000 dros 5 mlynedd) ym Mangor; a £86,000 y flwyddyn (sef £430,000 dros 5 mlynedd) yng Nghaernarfon.

Mae'r cynigion arfaethedig wedi eu datblygu drwy gyfrwng grwpiau llywio cyn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes. Mae llythyrau cefnogaeth wedi eu derbyn gan Fforwm Busnes Bangor a Siambr Masnach Caernarfon.

Ar gychwyn mis Gorffennaf, mae gweithdai wedi eu trefnu ar gyfer busnesau fydd yn gyfle i arbenigwr AGB cenedlaethol rannu gwybodaeth a phrofiad o ddatblygu a chefnogi AGB mewn ardaloedd eraill. Hefyd, mae digwyddiadau gwybodaeth i'w cynnal er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynigion arfaethedig.

Cytundebau Ymarferol a Gwaelodlin

Fel rhan o'r broses AGB mae gofyn ar awdurdodau lleol i baratoi Cytundebau Ymarferol a Gwaelodlin. Lluniwyd cytundebau arfaethedig mewn cydweithrediad â'r Adrannau Cyllid, Rheoleiddio a Phrifyrdd a Bwrdeistrefol ac wedi eu cynnwys fel Atodiad 3 a 4.

Pwrpas y Cytundeb Ymarferol yw gosod trefniadau cydweithio a rheolaeth ariannol rhwng y AGB a Chyngor Gwynedd wrth iddo gasglu ardoll a throsglwyddo talebion i'r endid newydd.

Mae'r Cytundeb Gwaelodlin yn amlygu gwasanaethau a gweithgareddau safonol presennol Cyngor Gwynedd o fewn ardaloedd arfaethedig y AGB. Mae'r cytundeb yn gosod trefniadau ble y gallai'r AGB gydweithio gyda Chyngor Gwynedd i sefydlu gweithgareddau neu wasanaethau ychwanegol.

Oblygiadau i Gyngor Gwynedd

Rhagwelir y byddai oblygiadau canlynol i'r Cyngor fel yr awdurdod lleol perthnasol :

Cynnal y bleidlais - Yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Cabinet, bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal pleidlais o'r gymuned fusnes o fewn yr ardal ddynodedig i brofi cefnogaeth i sefydlu'r AGB yng Nghaernarfon a Bangor. Bwriedir i'r bleidlais cael ei gynnal gan Wasanaethau Etholiadol Cyngor Gwynedd gyda £1100 wedi ei neilltuo i ddiwallu'r costau gan y prosiect datblygu'r AGB.

Cefnogaeth i sefydlu - Os bydd y bleidlais yn llwyddiannus, bydd Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r grwpiau llywio i sefydlu cwmnïau cyfyngedig trwy warant newydd. Bydd Cyngor Gwynedd hefyd yn gosod trefniadau ychwanegol i sefydlu systemau newydd i gasglu'r ardoll gyda chost oddeutu £15,000 i'w dalu gan y AGB dros y cyfnod.

Cytundebau cyfreithiol - Gydag AGB wedi eu sefydlu, bydd y cytundebau arfaethedig atodol yn gosod trefniadau iddynt gydweithio gyda Chyngor Gwynedd

Casglu'r ardoll - Os bydd AGB yn cael ei sefydlu bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gasglu'r ardoll ar ran yr endid newydd. Dylai cadw mewn cof bod disgwyl hefyd i'r AGB talu ffi i Cyngor Gwynedd am gasglu'r ardoll.

Costau casglu'r ardoll Cyngor Gwynedd bydd £24.48 fesul uned busnes gyda chyfanswm Bangor yn £5,749 ag £5,923 yng Nghaernarfon. Mae'r costau casglu wedi i'w gynnwys o fewn y cynlluniau busnes perthnasol.

Fel trethdalwr –. Pe sefydlir AGB, byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu'r ardoll ychwanegol am eiddo annomestig ym mherchnogaeth y Cyngor o fewn finiau'r AGB e.e. ar sail ardoll o 1.5%, rhagwelir y byddai cost ychwanegol o tua £16,411 y flwyddyn (£3,346 ym Mangor a £13,065 yng Nghaernarfon).

Pe byddai pleidlais yn cael ei threfnu, byddai cyfle i'r Cyngor bleidleisio fel trethdalwr trethi annomestig eiddo o fewn ffiniau'r AGB arfaethedig. Argymhellir fod penderfyniad(au) o safbwynt pleidleisio yn ychwanegol ac ar wahân i argymhelliad yr adroddiad yma.

Camau nesaf ac amserlen

Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cabinet, bwriedir cyhoeddi'r bleidlais erbyn diwedd mis Gorffennaf 2015. Unwaith byddai'r rhybudd wedi ei gyflwyno, byddai hyn yn caniatáu rhydau'r papurau pleidleisio ynghyd a manylion y cynigion arfaethedig (gyda nodiadau esboniadol) yn ystod mis Awst.

Yn unol â'r amserlen uchod, byddai dyddiad cau pleidlais bost erbyn 24ain o Fedi, a'r canlyniad ar 25ain o Fedi.

Pe byddai pleidlais o blaid sefydlu AGM, bwriedir bwrw ymlaen i sefydlu trefniadau llywodraethu perthnasol (gan gynnwys sefydlu cwmni/au) er mwyn eu lansio a chychwyn casglu'r ardoll gyntaf ym mis Ebrill 2016.

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:

Mae'n amlwg bod y cynnig hwn wedi bod yn destun trafod ac ymgynghori helaeth dros y misoedd diwethaf. Yn amlwg hefyd, mae goblygiadau i'r Cyngor yn ei sgil ond y casgliad yw bod y budd posib a ddaw ohono yn gorbwyso'r goblygiadau hynny

Y Swyddog Monitro:

Mae cyfundrefn statudol fanwl ynglyn a gweithredu'r cais am bleidlais. Golygai hyn hefyd fod disgriswin cyfyngedig ynglyn a phenderfynu ar gynnal pleidlais a'i pheidio a gweithredu'r canlyniadau. Byddaf yn rhoi arweiniad pellach i'r Cabinet yn y cyfarfod ar hyn. Nodi'r hefyd fod gan y Cyngor hawl pleidleisio

oherwydd ei statws fel treth dalwr annomestig ym Mangor a Chaernarfon a bydd angen ystyried dirprwyo'r hawl priodol i weithredu hyn fel rhan o'r penderfyniad.

Y Pennaeth Cyllid:

Fel nodir ar 4ydd dudalen yr adroddiad, dan "Oblygiadau i Gyngor Gwynedd fel trethdalwr", os bydd canlyniad y bleidlais o blaid sefydlu Ardal Gwella Busnes, bydd y Cyngor ei hun yn gyfrifol am dalu'r ardoll ychwanegol, ar gost oddeutu £3,346 ym Mangor a £13,065 yng Nghaernarfon. Mae hyn hefyd yn golygu y bydd gan y Cyngor bleidleisiau, fel trethdalwr, a rhaid i'r Cabinet ddatrys pwy caiff fwrw'r pleidleisiau hynny.

Ymhellach, pe byddai'r bleidlais yn mynd o blaid sefydlu Ardal Gwella Busnes ym Mangor a/neu Caernarfon, bydd gan Uned Trethi'r Adran Cyllid waith ychwanegol yn casglu'r ardoll. Mae swyddogion Cyllid wedi trafod hyn gyda'r Adran Economi a Chymuned, a cadarnhaf rydym yn fodlon gyda chynnwys y cytundebau. Credaf fod y costau gweinyddol a nodir yn yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r buddsoddiad a'r gwaith ychwanegol fydd ynghlwm â gweinyddu'r Ardal Gwella Busnes.

Atodiadau

- 1.Cynnig Ardal Gwella Busnes Bangor
- 2.Cynnig Ardal Gwella Busnes Caernarfon
- 3.Cytundebau Ymarferol drafft (Bangor a Chaernarfon)
- 4.Cytundebau Gwaelodlin drafft (Bangor a Chaernarfon)

Cynnig i gael Ardal Gwella Busnes (AGB) ym Mangor

DRAFFT 29/6/15

AGB Bangor (Cynigydd yr AGB)
Mehefin 2015

Business Improvement District (BID)

1 Cyflwyniad

Rhagair

Pam rydyn ni angen Ardal Gwella Busnes (AGB) ym Mangor?

Mae Ardal Gwella Busnes yn gynllun sydd yn cael ei arwain gan fusnesau. Ei nod yw dod â phawb sy'n dibynnu ar ganol y ddinas at ei gilydd er mwyn iddynt ffynnu yn economaidd. Byddant yn cydweithio ar brosiectau sy'n gwella canol y ddinas ac yn gwneud gwahaniaeth i'w hamgylchedd masnachu eu hunain.

Mae llawer o bobl eisiau gwella sut mae'r ddinas a'r cyffiniau yn edrych, ac maent yn frwd iawn dros weld hynny'n digwydd. Maent hefyd am weld gweithgareddau a digwyddiadau siopa, twristiaeth a diwylliannol yn cael eu rheoli mewn ffordd fwy effeithiol a chydlynol. **Mae sicrhau bod y sectorau yma yn cydweithio yn hollbwysig i gael lleoliad llwyddiannus sydd wedi'i reoli'n dda.**

Ar ôl gwranddo ar beth oedd gan fusnesau i'w ddweud yn ystod ein gwaith ymgynghori dros y flwyddyn ddiwethaf, mae eich barn wedi cael ei gynnwys yn y cynnig hwn. Menter dan arweiniad busnesau yw AGB, ac mae'n rhoi'r pŵer i fusnesau reoli eu hamgylchedd gweithio eu hunain, a hynny er budd eu busnesau, eu gweithwyr a'u cwsmeriaid. Gyda'i gilydd, bydd busnesau yn nodi'r blaenoriaethau a'r gwasanaethau sydd eu hangen yn eu barn nhw i ychwanegu gwerth at y gwasanaethau presennol, ac yna yn cytuno trwy broses bleidleisio ffurfiol ar lefel y buddsoddiad i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni.

Ar hyn o bryd, mae 187 AGB yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Ardaloedd Gwella Busnes hyn wedi'u cynllunio i gyd-fynd ag anghenion busnesau yn yr ardal benodol honno, ac yn gyffredinol maen nhw'n canolbwyntio ar y canlynol:

- gwella'r amodau masnachu i fusnesau,
- gwella gallu'r ardal leol i gystadlu â llefydd eraill, a
- lleihau faint mae'n ei gostio i fusnesau weithredu.

Ym mis Awst, byddwn yn gofyn i chi bleidleisio ar y cynnig hwn. Os bydd mwyafrif y busnesau yn cefnogi'r cynnig, bydd Ardal Gwella Busnes yn cael ei sefydlu ym Mangor, ac yn dechrau ar 1 Ebrill 2016. Dyma ein cyfle i gael rheolaeth ar y prif bethau sy'n creu canol dinas lwyddiannus, a'r cyfle i chi wneud y penderfyniadau a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar eich busnes, a gwneud gwahaniaeth go iawn.

Haydn Davies

Cadeirydd Fforwm Busnes Bangor

AGB ar gyfer Bangor

Beth ydi Ardal Gwella Busnes (AGB)?

Ardal Gwella Busnes ydi ardal benodol lle mae busnesau'n cydweithio efo'i gilydd ac yn buddsoddi mewn gwasanaethau, prosiectau a digwyddiadau arbennig y cytunwyd arnynt o flaen llaw.

Mae cylch gwaith AGB Bangor wedi cael ei benderfynu a bydd yn cael ei reoli gennych chi, y busnesau sy'n aelodau. Wrth i chi reoli'r AGB, byddwch yn chwarae rôl allweddol wrth benderfynu pa brosiectau a mentrau fydd yn digwydd yn ystod tymor pum mlynedd yr AGB. Bydd yr AGB yn cael ei ariannu gan ardoll (*levy*) o 1.5%. Mae faint o ardoll y byddwch yn ei dalu yn seiliedig ar eich gwerth ardrethol (*rateable value*). Bydd cytundeb i sefydlu AGB yn cael ei wneud drwy bleidlais drwy'r post. Rhaid i chi bleidleisio er mwyn dweud eich dweud. Nid yw'r AGB yn gallu cymryd lle gwasanaethau craidd y sector cyhoeddus ac mae'n rhaid iddo gynnig enillion clir ar y buddsoddiad (*clear return on investment*) i'r rheiny sy'n talu'r ardoll.

Gwefan: www.agbbangorbid.com

Cyfeiriad e-bost: bid@gwynedd.gov.uk

Mae AGB Bangor wedi'i arwain gan Fwrdd AGB sy'n cynnwys cynrychiolwyr gwirfoddol o wahanol sectorau busnes a sefydliadau yn y ddinas. Ar ôl ymgynghori, mae'r grŵp wedi creu cynllun busnes pum mlynedd mewn tri maes gweithgarwch.

Y bleidlais

Bydd tua 330 o fusnesau ym Mangor yn cael bwrw pleidlais ynghylch talu ardoll ychwanegol o 1.5% ar ben yr ardrethi busnes, sef arian ychwanegol i fynd i gronfa a fydd yn cael ei defnyddio at gynnal gweithgareddau a mentrau i gael dinas fwy bywiog ac economaidd lwyddiannus. Dyma'r amser i fusnesau a'r sector cyhoeddus ddod at ei gilydd i geisio creu canol dinas sy'n brysurach ac yn fwy deniadol. Mae Cyngor Gwynedd o blaid y cynnig ac mae ymrwymiad y Cyngor i AGB Bangor wedi'i ddangos drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu a sefydlu'r AGB ac fel sefydliad mawr sy'n talu ardrethi.

Y busnesau eu hunain fydd yn berchen ar yr AGB a nhw fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n iawn. Bydd Bwrdd yn goruchwyllo'r AGB a bydd yn cael ei werthuso'n annibynnol. Bydd pob ceiniog yn cyfrif. Rydyn ni'n gwybod fod Bangor yn ddinas wych a llawer o bethau i'w gwneud, i'w gweld a'u profi yma. Rydyn ni hefyd yn gwybod fod angen gwneud llawer yn barhaus i wella pethau drwy'r amser, yn enwedig yng nghanol y ddinas. Bydd AGB Bangor yn galluogi hyn i ddigwydd.

Yr AGB: Pam?

Pwrpas yr AGB yw esgor ar gydweithredu a chydweithio er mwyn gwella pethau. Byddwn yn cydweithio i wneud ein gweledigaeth yn bosibl ac yn ystod y pum mlynedd nesaf bydd canol y ddinas yn cael buddsoddiad o £635,000 yn ogystal â chael sicrwydd o ran lefelau gwasanaeth gan Gyngor Gwynedd.

- Bydd dros £127,000 yn cael ei godi gan yr AGB trwy'r ardoll (*levy*) bob blwyddyn.
- Mae hynny'n £635,000 o fuddsoddiad ychwanegol yng nghanol y ddinas dros gyfnod o bum mlynedd.

Dychmygwch sut y gallai ein dyfodol edrych:

Erbyn 2020, bydd Canol Dinas Bangor wedi mynd o nerth i nerth. Bydd faint o ymwelwyr sy'n dod yma wedi codi. Bydd ein busnesau yn ffynnu a chanol y ddinas fydd un o'r canolfannau gorau ar gyfer ymwelwyr a'r cymunedau lleol a chyfagos.

Rhan allweddol o sicrhau bod hyn yn digwydd yw trwy bleidleisio o blaid AGB Bangor.

2 Beth mae'r AGB yn ei addo

Y prif bethau sy'n denu pobl i Fangor yw Treftadaeth a Diwylliant, Adloniant a Siopa. Mae gan y ddinas hanesyddol hon Eglwys Gadeiriol a Phrifysgol ac mae'n buddsoddi yn ei chymeriad diwylliannol unigryw, gyda Pontio: Canolfan Celfyddydau ac Arloesi newydd a datblygiadau Amgueddfa ac Oriol Gelf Gwynedd. Mae yma bier Fictoraidd sydd heb gael ei newid ac yma mae'r stryd fawr hiraf yng Nghymru. Mae gan Fangor lawer i'w gynnig i drigolion, ymwelwyr a myfyrwyr fel ei gilydd, o'r dewisiadau siopa, hamdden a bywyd nos amrywiol i'w threftadaeth a'i diwylliant cyfoethog.

Yn ystod gaeaf 2014, holwyd 84 o fusnesau Bangor am eu barn ynghylch canol y ddinas ac am AGB¹. Roedd y prif faterion a blaenoriaethau y soniodd busnesau amdanynt yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys cael y parcio i gostio llai, gwella sut mae canol y ddinas yn edrych, a chael rhagor o bobl i ddod yma trwy ddigwyddiadau a hyrwyddo.


Felly, er mwyn i Fangor fod yn ddinas i **ymweld â hi ac i weithio, byw a mwynhau ynddi**, gweledigaeth yr AGB ydi bod y ddinas fel a ganlyn:

- **Glân a Gwyrdd, Smart a Diogel:** Gwella delwedd Bangor trwy ei gwneud hi'n ddinas fwy deniadol a chroesawgar trwy reoli pa mor lân ydi hi a rheoli'r awyrgylch cyffredinol. Bydd tîm stryd yn ymateb yn gyflym i fonitro a sicrhau bod Bangor yn llawer glanach, a bydd blodau a gwyrddni yn dod â lliw i'r strydoedd. Bydd hyn yn agor y Stryd Fawr er mwyn ychwanegu at atyniadau pwysig eraill fel yr Eglwys Gadeiriol, Plas yr Esgob, y Brifysgol, Pontio (y Ganolfan Celfyddydau ac Arloesi newydd) a'r Pier. Bydd yr AGB yn gwneud Canol Dinas Bangor yn lle mwy croesawgar hefyd drwy gefnogi economi'r dydd a'r nos trwy fentrau lleihau troseddau. Gan gydweithio gyda'r Brifysgol, yr heddlu a Chynllun Gwarchod Tafarndai Bangor a'r Cylch, byddwn yn helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sbwriel a niwsans yn ystod y dydd a'r nos.
- **Ei hyrwyddo â balchder:** byddwn yn hyrwyddo dinas Bangor fel lle gwych i ymweld â hi ar gyfer Treftadaeth a Diwylliant, Adloniant, Siopa a Dysgu. Bydd cynnal digwyddiadau o safon uchel a chyfleoedd marchnata yn ysgogi rhagor o bobl i ddod i'r canol a bydd yn denu busnesau i fuddsoddi yn y ddinas hefyd. Mae dinas Bangor mewn lleoliad eithriadol wrth odrau Eryri a gerllaw Afon Menai odidog, a dylem ei hyrwyddo â balchder. Dyma ein cyfle, fel cymuned o fusnesau, i godi'r safonau a chyflwyno Bangor fel lleoliad busnes a siopau a chyrchfan i dwristiaid.

¹ Gweler rhan 11 i gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwil gyda'r busnesau.

- **Dylanwadol ac integredig:** Dyma gyfle gwych i'r gymuned busnesau ddylanwadu'n uniongyrchol ar ba ffordd fyddai orau i ddefnyddio'r arian a godir trwy'r ardoll a thrwy ffynonellau ariannu eraill er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl, a ble bydd ymwelwyr yn gweld y gwahaniaeth mwyaf. Drwy gael cyllideb sy'n targedu'r hysbysebu a gweithgareddau hyrwyddo, bydd Bangor yn gallu cystadlu â lleoliadau eraill yn y Gogledd Orllewin. Yr AGB fydd llais cymuned busnesau Bangor wrth ddatblygu'r ddinas a'r rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Chyngor Gwynedd ar faterion fel parcio a glanhau, yn ogystal â strategaethau datblygu. Bydd yr AGB yn datblygu cysylltiadau sy'n fanteisiol i bawb rhwng busnesau, y brifysgol a'r cymunedau lleol er mwyn gwneud beth sydd orau i Fangor a meithrin cyfleoedd i fusnesau newydd ac i fusnesau sydd wedi ennill eu plwyf.

Bwriad yr AGB yw **canolbwyntio ar y tri maes gweithgarwch yma**. Bydd yn llunio cynllun gweithredu manwl sydd â cherrig milltir i'w monitro bob chwarter a bydd gwerthusiad yn cael ei gynnal bob blwyddyn ar y cynnydd tuag at y targedau. Ar ôl i'r AGB gael ei sefydlu, bydd yr aelodau yn gallu dylanwadu ar ffocws yr AGB er mwyn cynnal prosiectau dan y themâu hyn sy'n cyd-fynd orau â newidiadau yn anghenion canol y ddinas.



3 Glân a Gwyrdd, Smart a Diogel

Buddsoddiad yr AGB a ragwelir dros 5 mlynedd: £212,500

Gwella argraff gyntaf siopwyr, ymwelwyr a thrigolion wrth iddynt gyrraedd Bangor oedd un thema gyffredin a oedd wedi codi yn ystod yr ymgynghoriad gyda busnesau. Gyda dewisiadau deniadol eraill fel Llandudno a Chaer yn gyrchfannau poblogaidd i siopwyr, soniodd sawl busnes fod angen i Fangor gystadlu'n well gyda'r trefi a'r dinasoedd hynny er mwyn denu siopwyr ac ymwelwyr o bob cwr o Wynedd, Ynys Môn, Conwy a thu hwnt. Gan fod datblygiad cyffrous Pontio ar fin agor, mae'n bryd i ganol y ddinas fanteisio ar yr ymwelwyr y mae canolfan y celfyddydau yn debygol o'u denu.

Bydd yr AGB yn canolbwyntio ar y gweithgareddau canlynol dan y thema Glân a Gwyrdd, Smart a Diogel:

- **Glanhau ychwanegol ac o'r newydd**

Byddwn yn sefydlu tîm stryd sy'n ymateb yn gyflym i ganolbwyntio ar fonitro'r gwaith o reoli a glanhau canol y ddinas. Y nod yw sicrhau bod y gwaith o lanhau'r strydoedd yn cael ei gadw i safon dderbyniol, a bod pawb yn cytuno ar faterion fel lleoliadau biniau sbwriel. Bydd yr AGB yn sicrhau bod y strydoedd yn cael eu glanhau yn fwy effeithiol na'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd e.e. mwy o lanhau yn rheolaidd yn ogystal â gwaith glanhau dwfn. Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi amserlen sylfaenol o wasanaethau glanhau a bydd yn llofnodi Cytundeb Sylfaenol (*Baseline Agreement*) gyda'r AGB i sicrhau bod gweithgareddau AGB yn ychwanegol at y gwasanaethau presennol.

- **Mwy o wyrddni**

Byddwn yn datblygu ac yn gwella'r basgedi crog a'r planhigion sydd wedi bod yn nodwedd o Fangor yn ystod misoedd yr haf er mwyn gwneud y ddinas yn le mwy deniadol i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi.

- **Gwybodaeth yng nghanol y ddinas ac mewn ardaloedd sy'n arwain at y canol**

Bydd yr AGB yn canolbwyntio ar greu llefydd mynediad deniadol a chroesawgar i'r ddinas trwy roi sylw i'r ardaloedd y mae pobl yn cyrraedd iddynt a'r llwybrau allweddol i mewn i'r ddinas e.e. yr orsaf drenau, yr orsaf fysiau, Pontio, y Brifysgol a Bangor Uchaf, safleoedd tacsis a meysydd parcio. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy arwyddion wedi'u brandio, mapiau o safon uchel ac apiau rhyngweithiol i gyfeirio ymwelwyr at safleoedd a gwasanaethau lleol.

- **Blaen siopau**

Byddwn yn ceisio gwella blaen siopau, gan gynnwys gosod deunydd marchnata cyrchfan deniadol ar ffenestri siopau gwag. Byddai hyn yn elwa ar amrywiaeth y prif safleoedd treftadaeth sydd yn ardal Bangor – y pontydd ar draws y Fenai, Pier Bangor, Castell Penrhyn, Eglwys Gadeiriol Bangor a Phrifysgol Bangor. Byddai marchnata cyrchfan yn elwa hefyd ar leoliad gwych Bangor fel safle i ddechrau archwilio gogledd a gogledd-ddwyrain Parc Cenedlaethol Eryri.

- **Amgylchedd Diogel**

Bydd yr AGB yn ymdrechu i wneud Canol Dinas Bangor yn lle mwy croesawgar i ymwelwyr, trigolion a myfyrwyr fel ei gilydd. Gan gydweithio gyda'r Brifysgol, yr heddlu a Chynllun Gwarchod Tafarndai Bangor a'r Cylch, byddwn yn helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sbwriel a niwsans yn ystod y dydd a'r nos.

Bydd yr AGB yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd i gefnogi'r gwaith o gynnal ei wasanaethau safonol mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Drwy gydweithio gyda'r Awdurdod, bydd yr AGB yn ceisio cyflawni'r gwasanaethau a'r gweithgareddau ychwanegol fel y nodwyd uchod.

4 Hyrwyddo â balchder

Buddsoddiad yr AGB a ragwelir dros 5 mlynedd: £107,500

Digwyddiadau a Gweithgareddau

Bydd yr AGB yn cefnogi ac yn gorchwyllo rhaglen o ddigwyddiadau allweddol ar gyfer canol y ddinas. Bydd digwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol lleol ac eraill, gan gydweithio i ennyn diddordeb trigolion ac ymwelwyr, i fywiogi'r strydoedd ac i annog pawb i dreulio amser yng nghanol y ddinas.

Nod yr AGB fydd datblygu digwyddiadau newydd o ansawdd uchel, cefnogi a gwella digwyddiadau sy'n bodoli eisoes a manteisio i'r eithaf ar y rhain er budd canol y ddinas. Byddai digwyddiadau a gweithgareddau newydd a gynigir gan yr AGB yn cael eu cefnogi a'u cynnal gan bartneriaid, a gallant gynnwys y canlynol:

- **Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi a Ras y Stryd Fawr:** Diwrnod llawn dathliadau diwylliannol sy'n denu'r gymuned gyfan gan gynnwys digon o gerddoriaeth, dawnsio gwerin a bwyd a diod o Gymru. Bydd y diwrnod yn arwain at Ras Stryd Fawr Dydd Gŵyl Dewi lle byddai rhedwyr mewn gwisg draddodiadol Gymreig yn rasio o un pen y Stryd Fawr i'r llall, digwyddiad y disgwylw'n iddo roi Bangor ar y map.
- **Gŵyl Gerddoriaeth #Bangoroc** – Gŵyl gerddorol yng nghanol y ddinas sy'n manteisio ar nifer y bandiau roc sydd ym Mangor, Dyffryn Ogwen a Gogledd Cymru, gyda digwyddiadau cerddoriaeth fyw yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy gydol yr wythnos ar wahanol adegau ac mewn gwahanol leoliadau yn ardal yr AGB. Byddai hyn yn cynnwys cerddoriaeth ar y stryd yn ystod y dydd.
- **Wythnos y Glas:** Wythnos sy'n croesawu myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd i Ddinas Bangor. Bydd yr wythnos o weithgareddau wedi'i chynllunio a'i chynnal ar y cyd â Phrifysgol Bangor a bydd yn creu cysylltiad rhwng y myfyrwyr a'r pethau gorau sydd gan y Ddinas i'w cynnig.

Mae ein syniadau eraill yn cynnwys:

- Ceir Clasurol ar y Stryd Fawr
- Marchnad Nadolig
- Parêd Llusernau
- Diwrnod Santes Dwynwen
- Llwybr Cwrw Go lawn
- Theatr Awyr Agored
- Wythnos Bwyd a Diod

Bydd yr AGB hefyd yn sefydlu “**Her Canol Dinas**” i ennyn diddordeb myfyrwyr ysgol, coleg a phrifysgol o amryw ddisgyblaethau, o ddaearyddiaeth i fusnes, cerddoriaeth i fathemateg yn eu Stryd Fawr leol. Bydd hyn yn cynnwys astudiaethau economaidd a siopa, prosiectau ymddygiad defnyddwyr a chyfleoedd entrepreneuriaeth trwy siopau dros dro (*pop-up shops*), gan ddod ag addysg a sgiliau i ganol y ddinas. Bydd yr AGB yn noddi gwobrau ac yn cynnig profiad gwaith a chyfleoedd hyfforddiant i bobl o bob oedran.

Marchnata a chysylltiadau cyhoeddus

Bydd yr AGB yn cynllunio ac yn cynnal gweithgareddau marchnata a hyrwyddo sydd wedi’u teilwra ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol yn ardal yr AGB. Er mwyn hyrwyddo’r gymuned fusnes ym Mangor a chodi proffil Bangor yn lleol a thu hwnt, bydd yr AGB newydd yn ceisio cydlynu gweithgareddau marchnata gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol. Lle bod hynny yn bosibl, bydd yr AGB yn ceisio cefnogi ac ychwanegu gwerth at weithgareddau marchnata sy’n bodoli eisoes ac yn trefnu mentrau newydd trwy gydweithio gydag eraill. Bydd yn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o gysylltu â pherchnogion eiddo gwag er mwyn ystyried cyfleoedd i fusnesau eu defnyddio.

Cynllun Croesawu Ymwelwyr “Croeso Cynnes / Warm Welcome”

Bydd y Cynllun Croesawu Ymwelwyr yn cynnwys gwefan Croeso Bangor gyda chyfeiriadur llety a bwyta, ac yn cynnwys cynigion arbennig dros y cyfnod y mae myfyrwyr yn graddio. Mae Bangor daflid carreg o amrywiaeth o safleoedd o Landudno a Chonwy yn y dwyrain, Ynys Môn yn y gogledd, Caernarfon a Phen Llŷn yn y gorllewin a Pharc Cenedlaethol Eryri i gyfeiriad y de. Trwy gydredeg â’r cynllun rheoli ehangach ar gyrchfannau rhanbarthol, bydd Cynllun Croesawu Ymwelwyr Bangor yn manteisio ar ei leoliad canolog er mwyn bod yn sylfaen i ddod i adnabod y rhanbarth yn ehangach.

Byddwn yn gweithio gyda gwefannau sy’n bodoli eisoes fel www.explore-bangor.wales i sicrhau bod yna fap (ac ap) siopa ac atyniadau cynhwysfawr ar gyfer Bangor. Bydd hyn yn ei gwneud hi’n llawer haws dod o hyd i bopeth sydd gan Fangor i’w gynnig – o siopau moethus cudd, tafarndai hanesyddol, enwau mawr y stryd fawr a’r llefydd i gael tamaid i fwyta. Gan fod Explore-Bangor yn ddatblygiad newydd cyffrous i’r ddinas, nid yw’r AGB eisieu dyblygu’r gefnogaeth bresennol, ond ei nod fyddai ychwanegu ato a’i wella. Bydd AGB Bangor yn chwilio am ffyrdd o wneud y gorau o fanteision gwefannau o’r fath i fusnesau Bangor.

Gwefan AGB gyda chyfeiriadur busnes lleol “Rwy’n Caru Bangor / I Love Bangor”

Ar gyfer cynulleidfaoedd lleol, bydd yr AGB yn hwyluso ac yn cefnogi datblygiad gwefan penodol am y dref, ac arni bydd â gwybodaeth am fusnesau lleol, cyfeiriadur siopa, hamdden a gwasanaethau, bargeinion a thalebau, hysbysfwrdd swyddi gwag, newyddion a rhestrau digwyddiadau. Bydd y wefan hefyd yn cynnig gwybodaeth a’r diweddaraf am waith yr AGB yn y ddinas.

Ar gyfer busnesau'r AGB, bydd adran i aelodau, gyda hysbysfwrdd a fforwm yno i bob busnes fedru trafod a chodi pynciau; rheolwr yr AGB fydd yn cymedrolï'r fforwm hwn, gan ymateb i unrhyw gwestiwn, awgrym a phroblem. Bydd gwaith yn cael ei wneud i gael gwefan AGB i gyrraedd cynifer o bobl â phosibl drwy gael sylw ar y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Trydar ac Instagram.

DRAFT

5 Dylanwadol ac integredig

Buddsoddiad yr AGB a ragwelir dros 5 mlynedd: £168,600

Bydd yr AGB am weithio gyda phartneriaid ar lefel leol a rhanbarthol i gynrychioli buddiannau cymuned busnesau Bangor er lles ei aelodau. Rhagwelir y bydd yr AGB yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor a Phartneriaeth Canol Tref Bangor i godi proffil a buddiannau Bangor a'i chymuned fusnes.

Cyswllt Canol y Ddinas

Bydd AGB Bangor yn cyflogi rheolwr gweithgar ac amlwg i weithio ar ran yr aelodau a gwneud yn siŵr fod yr AGB yn ateb eu hanghenion. Bydd y rheolwr yn cael ei benodi a'i gyflogi gan AGB Bangor yn rhan-amser, gan fod yn bwynt cyswllt allweddol i fusnesau sy'n aelodau o'r AGB. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn frwdfrydig gyda digon o fynd ynddynt, bydd ganddynt brofiad a sgiliau cysylltiadau cyhoeddus, yn y cyfryngau cymdeithasol ac mewn meithrin a rheoli cysylltiadau. Bydd y rheolwr yn cydlynu'r gwaith o gyflawni prosiectau ar draws pob un o'r tri maes thematig yn ogystal â rheoli gweithgareddau'r AGB o ddydd i ddydd, a hynny'n cynnwys y canlynol:

- **Rheoli Prosiectau:** Bydd y rheolwr yn arwain prosiectau yn ogystal ag arwain cynllun datblygu strategol hirdymor i'r ddinas. Bydd gwaith y rheolwr yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd yr AGB.
- **Eiriolaeth (*advocate*):** Bydd y rheolwr yn cynrychioli ac yn dadlau o blaid busnesau ardal yr AGB. Bydd yn cysylltu â rhanddeiliaid allanol a phartneriaid yn ardal yr AGB a'r cyffiniau, gan bob amser hyrwyddo buddiannau'r AGB a'r busnesau sy'n aelodau.
- **Cydlynu:** Bydd y rheolwr mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol, Cyngor y Ddinas, Llywodraeth Cymru, sefydliadau cymunedol a chyrff eraill, er mwyn llobio ar ran yr AGB a manteisio ar gyfleoedd partneriaeth. Bydd rheolwr yr AGB yn gweithio gyda Phartneriaeth Canol y Dref i sicrhau bod eu meysydd gweithgarwch yn cael eu hintegreiddio'n dda, yn ychwanegu gwerth at ei gilydd ac yn osgoi unrhyw ddyblygu.
- **Creu cyllid ychwanegol:** Bydd y rheolwr yn gyfrifol am ddenu ffynonellau incwm ychwanegol ar gyfer yr AGB (yn ychwanegol at ardoll yr AGB), gan gynnwys cyd-drafod nawdd a pharatoi ceisiadau am gyllid.

Tyfu Busnesau

Mae gan fusnesau a sefydliadau Bangor gyfoeth o wybodaeth a phrofiad mewn masnachu a gweithredu yn y ddinas. Nod yr AGB yw datblygu hyn yn ogystal â dod â gwybodaeth a phrofiad newydd sy'n berthnasol i anghenion busnesau ym Mangor.

- **Helpu busnesau sy'n bodoli eisoes i dyfu a gwella:** Bydd yr AGB yn cynnal digwyddiadau sgiliau a hyfforddiant, gan gynnwys seminarau datblygu busnes, a hyfforddiant a gwybodaeth ar bynciau fel y gyfraith, cyllid, y cyfryngau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata, safbwynt cwsmeriaid, cadwyni cyflenwi lleol a chynaliadwyedd. Bydd yr AGB, trwy ei rwydwaith busnesau, yn gallu cyfeirio aelodau at ffynonellau cymorth a'u helpu i gael gafael ar gefnogaeth drwy asiantaethau perthnasol, gan gynnwys Busnes Cymru.
- **Mentora ar gyfer busnesau sy'n dechrau:** Bydd yr AGB yn helpu i ddenu a sefydlu busnesau newydd llwyddiannus i ychwanegu at arlwy presennol ardal yr AGB a pheidio â dyblygu busnesau sydd eisoes yn bodoli trwy greu rhagor o gystadleuaeth. Bydd hyn yn gwella beth sydd gan Fangor i'w gynnig i bobl leol ac ymwelwyr. Un syniad hefyd yw cael cynllun mentora ar gyfer siopau sy'n dechrau. Bydd y cynllun mentora yn cynnig cymorth unigol i fusnesau newydd yn ardal yr AGB gyda gwybodaeth berthnasol i redeg eu busnes yn effeithiol, o gymorth TG i reoli cyfrifon.
- **Prynu ar y cyd:** Bydd yr AGB yn ymchwilio i gyfleoedd i helpu busnesau i gael gwell bargeinion, trwy brynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin ar y cyd er mwyn arbed amser ac arian. Gallai hyn gynnwys pethau fel prynu nwyddau papur ac offer, neu gaffael gwasanaethau glanhau, hysbysebu neu wella siopau. Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn ardaloedd gwella busnes eraill, a bydd o fantais i fusnesau'r AGB.
- **Gwobrau:** Bydd yr AGB yn cynnal rhaglen wobrwyo. Bydd y gwobrau yn dathlu busnesau llwyddiannus ardal yr AGB mewn amrywiaeth o gategoriâu fel busnes bach y flwyddyn, entrepreneur y flwyddyn a gwasanaeth cwsmeriaid gorau'r flwyddyn. Bydd sylw i'r gwobrau yn codi ymwybyddiaeth o'r busnesau o safon uchel sydd ym Mangor. Bydd gwobrau hefyd i ddisgyblion ysgolion lleol a myfyrwyr yn y colegau a'r Brifysgol i feddwl am syniadau newydd ar gyfer canol y ddinas.

6 Sut bydd yr AGB yn gwneud y newidiadau hyn?

Dechreuodd y prosiect i ddatblygu AGB ym Mangor dros flwyddyn yn ôl, ac ers hynny rydym wedi ymgynghori â'r busnesau ynghylch y prif faterion sy'n effeithio ar ganol dinas Bangor.

Mae rhaglen o welliannau uchelgeisiol wedi cael eu datblygu gyda'r prif nod o wneud Bangor yn amgylchedd siopa a masnachu mwy ffyniannus a rhoi hwb i nifer yr ymwelwyr trwy gystadlu'n well yn erbyn canolfannau siopa llwyddiannus eraill. Creu AGB yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r amcanion hyn, yn ogystal ag i ddatblygu llais busnes unedig.


Caiff AGB ei arwain a'i ariannu gan fusnesau, ac mae'n cynnig cyfle i'r busnesau reoli'r ganolfan fasnachol eu hunain er mwyn cael newidiadau cadarnhaol yn yr ardal. Mae AGB yn fenter nid-er-elw sydd wedi'i ariannu gan fusnesau trwy ardoll (*levy*). Rydym yn cynnig bod busnesau yn talu ardoll sy'n 1.5% o werth ardrethol (*rateable value*) yr uned fusnes (sef hereditament). Y bwriad yw dod o hyd i incwm arall hefyd o ffynonellau eraill, gan gynnwys cyllid grant, a bod yr incwm arall hwn yn hafal i'r incwm o'r ardollau.

Er mwyn sefydlu AGB, rhaid cael pleidlais i roi'r cyfle i fusnesau yn ardal yr AGB bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynnig. Os yw'r bleidlais o blaid sefydlu AGB, bydd yr AGB yn para am gyfnod o bum mlynedd, ac ar ôl hynny bydd angen cynnal ail bleidlais a bydd y broses yn cychwyn eto. Ers i'r AGB cyntaf gael ei sefydlu yn y Deyrnas Unedig yn 2005, mae mwy na 180 AGB wedi'u ffurfio erbyn hyn. Ar hyn o bryd, mae 3 AGB yng Nghymru yn Abertawe, Merthyr Tudful ac yn fwyaf diweddar yng Nghasnewydd, ac 11 AGB arall wrthi'n cael eu datblygu.

Mae'n bosibl mai'r ffordd orau o ddangos pa mor llwyddiannus yw model yr AGB yw'r canran sy'n pleidleisio drosto: 85% y tro cyntaf, ac yn uwch fyth yn y pleidleisiau i adnewyddu. Dyma ein cyfle i newid pethau. Cefnogwch AGB Bangor.

6.1 Ardal yr AGB

Mae'r map isod yn dangos y ffin ar gyfer AGB yng nghanol y ddinas. Caiff pob hereditament (eiddo) yn y ffin eu cynnwys yn yr AGB. Mae'r cyfeiriadau wedi'u codi o'r rhestr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (*National Non-Domestic Rates*).



Dyma'r strydoedd sydd wedi'u cynnwys yn llawn neu'n rhannol yn ardal yr AGB arfaethedig:

- Y Stryd Fawr / High Street
- Stryd yr Orsaf
- Ffordd Gwynedd
- Ffordd Deiniol
- Tan-y-Fynwent
- Stryd Waterloo
- Ffordd Garth
- Glanrafon
- Stryd y Deon / Dean Street
- Ashley Road
- Brick Street
- Stryd y Mynydd / Mount Street
- Teras Plas Llwyd
- Tan y Fynwent
- Ebenezer Place
- York Place
- Ffordd y Ffynnon
- Ffordd Sackville

DRAFT

6.2 Cyllideb yr AGB

Bydd AGB Bangor yn cael ei ariannu trwy ardoll (*levy*) ychwanegol bob blwyddyn, sef ardoll o 1.5% o werth ardrethol (*rateable value*) y busnes. Bydd yr ardoll i'w thalu gan bob busnes sy'n talu ardrethi busnes ac sydd â gwerth ardrethol dros £2,000.

Trwy'r ardoll, byddai AGB Bangor yn creu incwm o **£127,000 y flwyddyn**, neu **£635,000 dros gyfnod pum mlynedd** yr AGB. Byddai hwn yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn prosiectau a gwasanaethau er budd y busnesau.

Byddai'r arian hefyd yn helpu i gael gafael ar gyllid ychwanegol o ffynonellau eraill, gan gynnwys ennill cyllid grantiau a nawdd a chael cyfraniadau gwirfoddol gan landlordiaid a busnesau y tu allan i'r ffin. Bydd busnesau sydd â gwerth ardrethol sy'n is na £2,000 yn gallu cyfrannu'n wirfoddol er mwyn bod yn aelod gwirfoddol o'r AGB.

I dalu'r ardoll bydd yn rhaid i chi dalu un tâl blynyddol am bum mlynedd tuag at yr AGB. Bydd y taliad blynyddol hwn yn cael ei gyfrifo ar 1.5% o werth ardrethol eich eiddo unigol (hereditament). Felly, os ydych chi'n berchen ar fusnes sydd â gwerth ardrethol o £20,000, byddwch yn talu £300 y flwyddyn i'r AGB.

Ardrethi Busnes 2015/16	Gwerth Ardrethol	Ardoll Flynyddol	Cost Dyddiol Cyfatebol
Business Rates 2015/16	Rateable Value	Annual Levy	Daily Equivalent Cost
£2,410	£5,000	£75	21c
£4,820	£10,000	£150	41c
£9,640	£20,000	£300	£2.05
£24,100	£50,000	£750	£4.10
£48,200	£100,000	£1,500	£8.22

Buddsoddiad ydi'r ardoll. Yn gyfnewid am eich buddsoddiad, byddwch yn elwa o gael prosiectau fyddai ddim yn digwydd oni bai am yr AGB. Bydd cwmni'r AGB yn atebol am yr holl arian y bydd yn ei gael neu yn ei gynhyrchu. Bydd y cwmni yn adrodd wrth y busnesau beth maen nhw'n ei gael am eu buddsoddiad.

- Dim ond 33% o fusnesau fydd yn cyfrannu mwy na £1 y diwrnod, a dim ond 10% o fusnesau fydd yn cyfrannu mwy na £2.50 y diwrnod.

Cyllideb **ddrafft** yw hon.

		Blwyddyn 1	Bl. 2	Bl. 3	Bl. 4	Bl. 5
Incwm o ardollau ar 1.5% o'r gwerth ardrethol (yn seiliedig ar gyfradd casglu o 95%)		£	£	£	£	£
Levy income at 1.5% of rateable value (based on 95% collection rate)		127,000	127,000	127,000	127,000	127,000
Costau craidd	Casglu'r ardoll	8,148	8,148	8,148	8,148	8,148
	Rheoli a chydlynu	5,443	5,443	5,443	5,443	5,443
	Costau gweinyddol	3,550	3,550	3,550	3,550	3,550
		17,141	17,141	17,141	17,141	17,141
Glân a Gwyrdd, Smart a Diogel	Glanhau ychwanegol ac o'r newydd	15,500	15,500	15,500	15,500	15,500
	Gwyrddni newydd ac ychwanegol	7,000	7,000	7,000	7,000	7,000
	Arwyddion a gwybodaeth	10,000	10,000	10,000	10,000	10,000
	Gwella blaen y siopau	7,000	7,000	7,000	7,000	7,000
	Amgylchedd diogel	3,000	3,000	3,000	3,000	3,000
		42,500	42,500	42,500	42,500	42,500
Hyrwyddo â balchder	Digwyddiadau a gweithgareddau	12,500	12,500	12,500	12,500	12,500
	Cynllun Croesawu Ymwelwyr	6,000	4,000	4,000	4,000	4,000
	Cyfeiriadur lleol	4,000	5,500	5,000	4,500	4,000
		24,000	23,500	23,000	22,500	22,000
Dylanwadol ac integredig	Costau Rheolwr	14,225	14,725	15,225	15,725	16,225
	Meithrin capasiti	6,000	6,000	6,000	6,000	6,000
	Mentora busnesau newydd	6,000	6,000	6,000	6,000	6,000
	Prynu ar y cyd	2,000	2,000	2,000	2,000	2,000
	Gwobrau	4,500	4,500	4,500	4,500	4,500
		32,725	33,225	33,725	34,225	34,725
Cyfanswm Gwariant		114,866	114,866	114,866	114,866	114,866
Cyfanswm Incwm		127,000	127,000	127,000	127,000	127,000
Gweddill / Wrth Gefn / Dyled Ddrwg		12,134	12,134	12,134	12,134	12,134
Gweddill / Wrth Gefn / Dyled Ddrwg (%)		10%	10%	10%	10%	10%

Mae'r costau craidd yn cynnwys prynu a chynnal meddalwedd casglu'r ardoll, rheoli llinell AGB i'r rheolwr a chostau swyddfa.

Incwm yr AGB

Mae'r gyllideb uchod yn seiliedig ar incwm o ardollau AGB yn unig. Rhagwelir y bydd incwm ychwanegol yn dod o gyfraniadau gwirfoddol gan fusnesau llai o faint a busnesau o'r tu allan i ffin yr AGB sy'n dymuno dod yn aelodau o'r AGB yn ogystal â chyfraniadau posibl gan landlordiaid, cyllid o grant a chyllid cyfatebol gan y sector cyhoeddus a phreifat.

Cyfradd casglu'r ardollau a chyllideb wrth gefn

Mae gan Gyngor Gwynedd gyfradd casglu ardrethi busnes (*business rates collection rate*) o 97.7% sy'n seiliedig ar y tair blynedd ariannol diwethaf. Er hynny, mae ffynonellau eraill yn dweud bod cyfradd casglu is yn fwy doeth. Mae Consortiwm Manwerthu Prydain (British Retail Consortium) yn cynghori llunio cyllideb sy'n seiliedig ar gyfradd casglu o 95% gyda chyllideb wrth gefn o ddim llai na 5% ar bob eitem gwariant. Am y rheswm hwn, mae incwm ardollau AGB yn y tabl uchod yn seiliedig ar gyfradd casglu ardollau o 95%, sy'n agos at gyfradd Cyngor Gwynedd, ond sy'n dal i fod yn ofalus. Mae cronfa wrth gefn ar gyfer dyled ddrwg neu weddill o 10% wedi'i chynnwys, yn unol ag argymhelliad y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi.

DRAFT

7 Ateb eich cwestiynau

Pam rydym yn cynnal pleidlais AGB?

Er mwyn creu AGB, mae'n rhaid i ni gynnal pleidlais ymysg y busnesau sy'n gymwys. Bydd y bleidlais yn gofyn cwestiwn syml: 'Ydych chi o blaid y cynigion ar gyfer Ardal Gwella Busnes (AGB) Bangor?' Er mwyn i'r AGB ddod i fodolaeth, rhaid i fwyafrif y rheiny sy'n pleidleisio bleidleisio o blaid. Ond rhaid i'w pleidleisiau hefyd gynrychioli mwyafrif cyfanswm gwerth ardrethol yr holl eiddo sy'n pleidleisio.

Ydw i'n cael pleidleisio?

Os ydi safle eich busnes o fewn ardal arfaethedig yr AGB a bod ganddo werth ardrethol sydd yn uwch na £2,000, rydych chi'n gymwys i bleidleisio ym mhleidlais yr AGB.

Sut bydd AGB Bangor yn cael ei ariannu?

Os bydd y bleidlais yn llwyddiannus, bydd AGB Bangor yn cael ei ariannu drwy ardoll flynyddol (*annual levy*) o 1.5% o werth ardrethol *pob* uned fusnes gymwys yn ardal yr AGB, boed y busnes hwnnw wedi pleidleisio o blaid neu yn erbyn yr AGB. Er enghraifft, os ydy gwerth ardrethol eich safle yn £10,000, byddwch chi'n talu £150 y flwyddyn. Bydd ardoll yr AGB yn orfodol i bob busnes a chorff cymwys arall, gan gynnwys yr awdurdod lleol.

Casglu'r ardollau

Bydd ardoll yr AGB yn cael ei chasglu'n flynyddol gan yr awdurdod lleol gyda'r ardrethi busnes (*business rates*). Bydd AGB Bangor yn glir ac yn dryloyw ynghylch sut y mae'n gwario'r arian. Bydd gwybodaeth a fydd yn cael ei diweddarau'n gyson am incwm a gwariant ar gael i bob aelod o'r AGB.

Sicrhau bod gwasanaethau'r AGB yn rhai ychwanegol

Bydd AGB yng Nghanol Dinas Bangor yn fenter dan arweiniad busnesau a'r cyllid wedi'i gasglu a'i reoli gennych chi. Rhaid i'r AGB gynnig gwasanaethau sydd yn ychwanegol at y rhai a gynigir gan yr awdurdod lleol ac asiantaethau statudol eraill. Bydd AGB Bangor yn llofnodi Cytundeb Sylfaenol (*Baseline Agreement*) gyda Chyngor Dinas Bangor. Bydd y cytundeb hwn yn cadarnhau beth mae'r awdurdod lleol eisoes yn ei wneud a bydd yr AGB yn monitro'r cytundeb hwn.

Pa mor hir fydd yr AGB yn para?

Bydd yr AGB yn para am bum mlynedd, sy'n golygu sicrwydd buddsoddiad yn ystod y cyfnod hwnnw. Os bydd busnesau eisiau i'r AGB barhau y tu hwnt i'r cyfnod o bum mlynedd, byddwch chi'n gwneud y penderfyniad hwn trwy bleidleisio unwaith eto.

Sut byddaf yn cael fy nghynrychioli?

Os bydd y bleidlais AGB yn llwyddiannus, bydd AGB Bangor yn cael ei ailffurfio yn gwmni cyfyngedig trwy warant nid-er-elw (*not-for-profit company limited by guarantee*). Y bwriad yw cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (AGM) cyntaf ym mis Medi 2016 ar ôl i'r AGB ddechrau ar ei waith ar 1 Ebrill 2016. Bydd pob busnes sy'n talu'r ardoll yn gallu dod yn aelod o'r cwmni er mwyn bod yn gymwys i bleidleisio dros benderfyniadau'r cwmni. Gall unrhyw aelod sefyll i gael ei ethol i'r Bwrdd. Bydd busnesau sydd â gwerth ardrethol sy'n llai na £2,000 yn gallu dewis cyfrannu o leiaf £30 y flwyddyn o'u gwirfodd er mwyn cael bod yn aelod gwirfoddol o'r AGB; serch hynny dim ond aelodau sy'n talu'r ardoll yn orfodol fydd â hawliau pleidleisio llawn.

Sut mae'r cynnig hwn yn cael ei ariannu?

Mae'r cyllid ar gyfer hyn wedi dod gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Bangor, trwy Fforwm Busnes Bangor a Chyngor Gwynedd. Cafodd ymgynghorwyr eu penodi i gynnal astudiaeth ddichonoldeb (*feasibility study*) i weld a fyddai AGB i Fangor yn ymarferol bosibl ai peidio. Roedd yr astudiaeth honno yn gadarnhaol, felly mae'r cynnig hwn wedi cael ei ddatblygu i'w roi i bleidlais. Cyngor Gwynedd fydd yn talu am y costau sydd ynghlwm â chynnal y bleidlais.

8 Rheoli'r AGB

Mae datblygu'r cynnig hwn i gael AGB ym Mangor wedi'i wneud gan grŵp brwdfrydig o gynrychiolwyr o Gyngor Dinas Bangor a Fforwm Busnes Bangor. Os bydd y bleidlais o blaid sefydlu'r AGB, mae'r unigolion hyn wedi cytuno i fynd â'r cwmni AGB newydd ymlaen i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf. Wedyn bydd cyfarwyddwyr yn cael eu hethol yn y Cyfarfod Cyffredinol cyntaf ym mis Medi 2016.

Bydd pob busnes sydd â gwerth ardrethol o £2,000 neu uwch yn gymwys i fod yn aelodau o'r AGB a gallant sefyll fel cyfarwyddwr. Os bydd busnesau wedi'u lleoli oddi fewn i ffin ardal yr AGB ond bod eu gwerth ardrethol yn is na £2,000, yna gallant wneud cyfraniad gwirfoddol o £30 y flwyddyn er mwyn dod yn aelodau. Byddwn yn sefydlu cwmni cyfyngedig trwy warant nid-er-elw.

Bydd Bwrdd y cwmni newydd (AGB Bangor BID Cyf.) yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau a'r mathau canlynol o fusnesau:

- Busnesau bychain
- Busnesau canolig eu maint
- Busnesau mawr
- Busnesau'r economi gyda'r nos
- Fforwm Busnes Bangor
- Prifysgol Bangor
- Sefydliad/mudiad cymunedol
- Cyngor Gwynedd (aelod anweithredol [*non-executive*] o'r Bwrdd)

Bydd **cyfarwyddwyr y Bwrdd** yn gwasanaethu'n wirfoddol. Bydd gan bob busnes sy'n talu ardoll yr AGB hawl i ddod yn aelod o'r cwmni a gallant sefyll i gael eu hethol yn aelodau o Fwrdd yr AGB yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd gofyn i bawb sy'n talu'r ardoll wneud cais i ddod yn aelod o gwmni'r AGB.

Bydd pawb sy'n talu ardoll yn gallu cael **rhan o gwmni'r AGB**, a sicrhau ei fod yn atebol am ei waith a'r cyllid. Bydd yr AGB yn cyflogi **rheolwr** er mwyn sicrhau bod prosiectau yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon ac i chwilio am gyllid ychwanegol, yn ogystal â bod yn brif bwynt cyswllt rhwng y rheiny sy'n talu ardoll a'r Bwrdd.

Bydd Cyngor Gwynedd yn **casglu'r ardoll** ar ran yr AGB.

Addasu trefniadau'r AGB

Ni fydd modd gwneud diwygiadau mawr i drefniadau'r AGB heb ofyn am gymeradwyaeth ffurfiol gan aelodau'r AGB yn gyntaf. Bydd yn bosibl gwneud mân newidiadau i drefniadau'r AGB heb fynd i bleidlais, cyn belled ag nad ydynt yn addasu'r canlynol:

- Ardal ddaearyddol yr AGB
- Ardoll yr AGB mewn ffordd a fyddai'n:
 - golygu bod rhywun yn gorfod talu ardoll yr AGB a hwythau cyn hynny ddim yn gorfod gwneud; neu
 - codi faint o'r ardoll AGB sy'n rhaid ei dalu ac eithrio at ddibenion chwyddiant fel y disgrifwyd uchod.

Mewn achosion lle mae'n bosibl newid trefniadau'r AGB heb bleidlais addasu, bydd yn rhaid i Fwrdd llawn AGB Bangor benderfynu ar yr addasiad hwnnw.

Mesur perfformiad

Bydd AGB Bangor yn gweithio mewn ffordd eglur a thryloyw a bydd yn atebol i'w aelodau. Bydd rheolwr yr AGB, ar y cyd â'r Bwrdd Rheoli, yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso sydd â thargedau blynyddol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs). Bydd y perfformiad yn erbyn y targedau hyn ac effaith rhaglen wella'r AGB yn cael eu monitro'n gyson a bydd adroddiadau ar gynnydd yn cael eu rhoi i'r rhai sy'n talu ardoll ac i'r gymuned fusnes ehangach. Bydd ffocws clir ar reoli perfformiad, cael effaith sy'n amlwg i bawb, a gallu dangos gwerth gwyb am arian.

9 Amserlen AGB Bangor

Mae nifer o gamau i'w cymryd er mwyn sefydlu Ardal Gwella Busnes (AGB). Dyma amserlen bosibl ar gyfer y camau nesaf, ond byddwn yn diweddarau'r wefan i chi gael dyddiadau mwy penodol.

Hysbysu pobl y bydd pleidlais drwy'r post yn digwydd	31 Gorffennaf 2015
Cael pecyn pleidleisio	Erbyn 27 Awst 2015
Y bleidlais drwy'r post yn cau	5pm, Dydd Iau, 24 Medi 2015
Cyhoeddi canlyniadau'r bleidlais	Dydd Gwener, 25 Medi 2015
Sefydlu cwmni'r AGB	Hydref 2015 – Mawrth 2016
Cwmni'r AGB yn mynd yn fyw, a chasglu'r ardoll gyntaf	Ebrill 2016
Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol (CCB) yr AGB	Medi 2016
CCB Blwyddyn 2	Medi 2017
CCB Blwyddyn 3	Medi 2018
CCB Blwyddyn 4	Medi 2019
CCB Blwyddyn 5	Medi 2020
Pleidlais i adnewyddu'r AGB	Rhagfyr 2020

Bydd AGB Bangor yn rhedeg am 5 mlynedd o 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2021.

Rheolau'r Bleidlais

Bydd pob busnes sy'n talu ardrethi busnes yn cael pleidlais os ydynt:

- wedi'u rhestru ar y Rhestr Ardrethi Annomestig (*Non-Domestic Ratings List*) pan fydd Cyngor Gwynedd yn rhoi rhybudd o'r bleidlais
 - wedi'u lleoli o fewn ffin yr AGB, a
 - bod ganddynt werth ardrethol (*rateable value*) sy'n £2,000 neu uwch.
-
- Ym mis Awst 2015, bydd y pecyn pleidleisio yn cael ei anfon at gyfeiriad yr hereditament (eiddo).
 - Rhaid dychwelyd pob pleidlais erbyn 5pm nos Iau 24 Medi 2015.
 - Er mwyn i'r AGB fynd yn ei flaen, rhaid bodloni dau amod:
 - rhaid bod dros 50% o'r busnesau sy'n pleidleisio yn pleidleisio o blaid.
 - rhaid i gyfanswm gwerth ardrethol y pleidleisiau sydd o blaid fod dros 50% o gyfanswm gwerth ardrethol yr holl bleidleisiau sy'n cael eu bwrw.
 - Yn ôl y ddeddfwriaeth, os bydd yr amodau hyn yn cael eu cyflawni, bydd yr ardoll o 1.5% yn orfodol ar bob busnes cymwys, boed nhw wedi pleidleisio o blaid neu beidio.
 - Bydd pleidlais o blaid AGB Bangor yn golygu y bydd y gweithgareddau ychwanegol sydd wedi cael eu haddo yn dechrau digwydd ym mis Ebrill 2016. Bydd yr anfonebau cyntaf yn cael eu hanfon ym mis Mawrth 2016 er mwyn paratoi ar gyfer hyn.
 - Nid oes modd newid ffiniau ardal yr AGB, newid canran ardoll yr AGB na meini prawf y busnesau cymwys unrhyw bryd yn ystod oes pum mlynedd yr AGB heb yn gyntaf gael Pleidlais Addasu llawn. Pwrpas hyn yw diogelu'r rhai sy'n talu ardrethi a rhoi sicrwydd o ran costau ardoll yr AGB.
 - Bwriad cwmni'r AGB yw masnachu fel cwmni sydd ddim yn gwneud elw a'r cwmni hwn fydd yn rhedeg yr AGB.

10 Mae eich pleidlais yn cyfrif!

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae busnesau yng nghanol y ddinas wedi bod yn frwdfrydig iawn dros gael Ardal Gwella Busnes ym Mangor. Dyma'r amser rŵan i gael ffordd gynaliadwy a llwyddiannus o reoli canol ein dinas am flynyddoedd i ddod.

CEFNOGWCH YR AGB – PLEIDLEISIWCH DROS FANGOR

DRAFT

11 Ymchwilio ac astudiaeth ddichonoldeb

Mae'r gwaith o ymchwilio a datblygu AGB Bangor wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Bangor, trwy Fforwm Busnes Bangor a Chyngor Gwynedd. Cafodd astudiaeth ddichonoldeb (*feasibility study*) ei llunio ym mis Rhagfyr 2014 i weld a fyddai Ardal Gwella Busnes yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r problemau sydd yng nghanol y ddinas, gyda'r ffocws ar wella amodau masnachu.

Ar ôl dadansoddi gwerth ardrethol busnesau a chynnal arolwg o'r busnesau sydd o fewn ffin arfaethedig yr AGB, daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod sefydlu AGB llwyddiannus nid yn unig yn syniad cyffrous a gwerthfawr i fusnesau a chymuned ehangach Bangor, ond ei fod hefyd yn ddichonadwy ac yn ymarferol bosibl. Mae cefnogaeth a galw am AGB; byddai'n bosibl yn ariannol; byddai'n gallu gweithredu ar anghenion penodol busnesau AGB dros y tymor hir; a byddai'n gallu ychwanegu gwerth at yr ardoll ar fusnesau trwy integreiddio, partneriaethau, grym a dylanwad.

Fe wnaeth 84 busnes lenwi holiadur yn yr ymchwil, a dywedodd 65 ohonynt (77%) eu bod yn credu bod creu AGB ar gyfer Bangor yn syniad da mewn egwyddor a dylid ei roi i bleidlais. Dim ond un person atebodd 'na' ac nid oedd y gweddill yn siŵr.

Roedd yr 84 holiadur yn cynrychioli cyfradd ymateb o 25% o'r busnesau sydd o fewn ffiniau'r AGB. O ddiystyru perchnogion sawl eiddo, adeiladau cyngor y ddinas a'r sir, meysydd parcio, banciau a pheiriannau twll yn y wal, gorsafoedd heddlu, llyfrgelloedd, gorsafoedd bysiau a safleoedd eraill heb rif ffôn uniongyrchol neu heb fanylion cyswllt dilys, 39% oedd cyfradd yr ymatebion. Roedd hanner y bobl a holwyd yn cynrychioli busnesau annibynnol.

12 Dogfennau ategol

Mae dogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r AGB i'w cael ar wefan yr AGB www.bangorbid.co.uk.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cytundeb Sylfaenol (*Baseline Agreement*) drafft rhwng yr AGB a Chyngor Gwynedd, gan gynnwys datganiad o'r gwasanaethau sylfaenol y mae Cyngor Gwynedd yn eu darparu ar hyn o bryd.
- Cytundeb Gweithredu (*Operating Agreement*) drafft rhwng yr AGB a Chyngor Gwynedd, sy'n nodi'r telerau o ran sut bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel yr awdurdod bilio a phleidleisio ar ran yr AGB.

Mae'r adnoddau eraill yn cynnwys:

- Llawlyfr AGB Llywodraeth Cymru
- Astudiaethau achos a dolenni i Ardaloedd Gwella Busnes eraill yn y Deyrnas Unedig

I gael rhagor o wybodaeth am AGB Bangor a sut y gallwch chi fod yn rhan, cysylltwch â chadeirydd yr AGB:

(name and contact details here)

Atodiad 1: Gwybodaeth hanfodol

Geirfa:

Ardal Gwella Busnes (AGB) = *Business Improvement District (BID)*

ardoll = *levy*

ardrethi annomestig = *non-domestic rates*

cynllun rhyddhad ardrethi = *rate relief scheme*

cymwys = *eligible*

gwerth ardrethol = *rateable value*

Pwy sy'n talu'r ardoll?

1. Y person fydd yn gyfrifol am dalu ardoll yr AGB yw'r person sy'n gyfrifol am ardrethi annomestig mewn perthynas â'r eiddo.
2. Bydd ardoll yr AGB yn berthnasol i bob eiddo sydd â chyfeiriad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) o fewn ffin ardal AGB Bangor.
3. Ni fydd busnesau sydd â gwerth ardrethol sy'n is na £2,000 yn gymwys i dalu ardoll yr AGB ond gallant gyfrannu o'u gwirfodd er mwyn dod yn aelodau gwirfoddol o'r AGB.

Dyddiadau pwysig

1. Bydd yr AGB arfaethedig yn para am 5 blwyddyn ariannol olynol o fis Ebrill 2016 ymlaen.
2. Bydd gan bob busnes cymwys hawl i bleidleisio ynghylch y cynnig AGB mewn pleidlais drwy'r bost a fydd yn para am 28 diwrnod. Bydd y pleidleisio yn dechrau ar 27 Awst 2015 ac yn cau am 5pm nos Iau 24 Medi 2015. Caiff y canlyniadau eu cyhoeddi ddydd Gwener 25 Medi ar wefan yr AGB.

Yr Ardoll

1. Ardoll yr AGB fydd 1.5% o werth ardrethol pob eiddo am y pum mlynedd lawn fel y manylir yn rhestr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol 2010.
2. Ni fydd gwahaniaeth rhwng eiddo gwag neu eiddo wedi'i feddiannu.
3. Ni fydd ardoll yr AGB wedi'i heffeithio gan y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bychain.
4. Yr awdurdod lleol fydd yn casglu ardoll yr AGB ac yn cadw'r symiau hynny yng Nghyfrif Refeniw AGB.
5. Bydd yr ardoll yn cael ei chyfrifo ar gyfer pob eiddo yn flynyddol ac yn cael ei hanfonebu ar gyfer dechrau pob blwyddyn yr AGB. Nid yw'r trefniant hwn wedi'i gadarnhau eto. Gallai casgliadau amlach fod yn bosibl yn dibynnu ar y costau cysylltiedig o wneud hynny.
6. Bydd yr ardoll yn cael ei chodi yn unol â gweithdrefnau'r diwrnod codi treth (*chargeable day procedures*). Bydd yn seiliedig ar gofnodion rhestr ardrethi 2010 ar gyfer pob eiddo yn ardal yr AGB a'r cofnodion hynny wedi'u cymryd ar y dyddiad pan fydd Cyngor

Gwynedd yn rhoi rhybudd o'r bleidlais. Bydd hyn yn sicrhau bod rhestr y gwerth ardrethol a ddefnyddir i greu'r biliau blynyddol yn gyflawn ac yn gywir.

7. Bydd y Cytundeb Gweithredu ar gael os bydd darpar dalwr ardoll yn gofyn amdano.
8. Gallai busnesau ddechrau gorfod talu'r ardoll er nad oeddent yn gorfod gwneud hynny'n flaenorol, er enghraifft, pan nad oedd eiddo yn ardal yr AGB ar y rhestr ardrethi ond fod yr eiddo yn cael ei ychwanegu at y rhestr wedi hynny.
9. Y cyfnod y codir ffi arno fydd tymor yr AGB o bum mlynedd o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Ni fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ailbrizio ardrethi yn 2017, oni bai fod eiddo yn ymddangos am y tro cyntaf ar y rhestr honno. Yn yr achos hwnnw, y gwerth ardrethol sydd ar y rhestr honno fydd yn cael ei ddefnyddio. Yr eithriad fydd unrhyw newid yn nefnydd neu newid ffisegol i eiddo neu hereditament.
10. Defnyddir pob mecanwaith sydd ar gael i fynd ar ôl busnes sydd ddim wedi talu ardoll yr AGB.

DRAFT

Cynnig i gael Ardal Gwella Busnes (AGB) yng Nghaernarfon

DRAFFT 12/6/2015

AGB Caernarfon (Cynigydd yr AGB)
Mehfin 2015

Business Improvement District (BID)

1 Cyflwyniad

“Ardal Gwella Busnes Caernarfon Business Improvement District” (sef “AGB Caernarfon BID”) – y bwriad yw sefydlu hwn fel cwmni cyfyngedig trwy warant nid-er-elw (not-for-profit company limited by guarantee).

Rhagair gan Gadeirydd AGB Caernarfon

Mae Caernarfon yn dref unigryw am sawl rheswm – ei diwylliant, y Gymraeg, treftadaeth, hanes a’i siopau amrywiol. Ond er bod ganddi sawl mantais a chryfder, byddai’n bosibl gwneud mwy i fanteisio ar yr hyn sydd gan Gaernarfon i’w gynnig i drigolion lleol ac i ymwelwyr. Bydd creu Ardal Gwella Busnes yn dwyn ynghyd cymuned fusnes Caernarfon i fod yn un llais i wella rhagolygon economaidd y dref.

Mae Ardal Gwella Busnes (neu AGB) yn gorff sy’n cael ei arwain a’i ariannu gan y gymuned fusnes. Os caiff ei sefydlu, bydd yn gweithio i wella pethau ac i drefnu gweithgareddau newydd ac ychwanegol yng Nghaernarfon er mwyn ceisio gwella pa mor ffyniannus yw’r gymuned fusnes a chodi proffil canol y dref. Byddai’r AGB yn cael ei ariannu gan ardoll (*levy*). Bydd faint o ardoll mae busnes yn ei dalu yn dibynnu ar werth ardrethol (*rateable value*) yr uned fusnes mewn ardal benodol.

Rydym wedi holi nifer o aelodau’r gymuned fusnes dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae adborth a barn y busnesau hynny wedi’u cynnwys a’u defnyddio i fod yn sylfaen i’r cynnig AGB hwn. Mae’r addewidion yn y cynnig AGB hwn, felly, yn ymateb i’r themâu y mae cymuned fusnes Caernarfon wedi sôn amdanynt.

Os caiff ei sefydlu, bydd yr AGB yn cael ei arwain gan Fwrdd o aelodau wedi’u hethol. Bydd yr aelodau hyn yn dod o’r gymuned fusnes a byddant yn cynrychioli trawstoriad cyfoethog o fusnesau Caernarfon, ynghyd â chynrychiolwyr o’r trydydd sector a’r sector cyhoeddus. Bydd gwaith a gwariant yr AGB yn gwbl glir a thryloyw drwy gydol cyfnod pum mlynedd y cynllun.

Er bod Ardaloedd Gwella Busnes yn syniad weddol newydd i Gymru, nid yw’n newydd i’r Deyrnas Unedig. Mae mwy na 180 AGB yn y Deyrnas Unedig ac maent wedi bod yn ffordd effeithiol iawn o roi cyfle i gymunedau busnes newid pethau er mwyn gwella proffidioldeb eu hardal, cynyddu pa mor gystadleuol yw’r ardal a lleihau costau i fusnesau.

Ym mis Awst, gofynnir i chi fwrw pleidlais ar gynnig AGB Caernarfon. Os bydd mwyafrif y busnesau o blaid, bydd Ardal Gwella Busnes yn cael ei sefydlu yng Nghaernarfon ac yn cael ei lansio ar 1 Ebrill 2016. Dyma gyfle unigryw i’r gymuned fusnes yng Nghaernarfon greu cyllid trwy ardoll, ac arwain at welliannau i wneud gwir wahaniaeth i Gaernarfon a’i busnesau.

Chris Stuhlfelder
Grŵp Llywio AGB Caernarfon BID

AGB ar gyfer Caernarfon

Beth ydi Ardal Gwella Busnes (AGB)?

Ardal Gwella Busnes ydi ardal benodol lle mae busnesau'n cydweithio efo'i gilydd ac yn buddsoddi mewn gwasanaethau, prosiectau a digwyddiadau arbennig y cytunwyd arnynt.

Mae cylch gwaith AGB Caernarfon wedi cael ei benderfynu a bydd yn cael ei reoli gennych chi, y busnesau sy'n rhan ohono. Wrth i chi reoli'r AGB, byddwch yn chwarae rôl allweddol wrth benderfynu pa brosiectau a mentrau fydd yn digwydd yn ystod tymor pum mlynedd yr AGB. Bydd yr AGB yn cael ei ariannu gan ardoll (*levy*) o 1.5%. Mae faint o ardoll y byddwch yn ei dalu yn seiliedig ar eich gwerth ardrethol (*rateable value*). Bydd cytundeb i sefydlu AGB yn cael ei wneud drwy bleidlais drwy'r post. Rhaid i chi bleidleisio er mwyn dweud eich dweud. Nid yw'r AGB yn gallu cymryd lle gwasanaethau craidd y sector cyhoeddus ac mae'n rhaid iddo gynnig enillion clir ar y buddsoddiad (*clear return on investment*) i'r rheiny sy'n talu'r ardoll.

Gwefan: www.agbcaernarfonbid.com
Cyfeiriad e-bost: bid@gwynedd.gov.uk

Mae cynnig AGB Caernarfon wedi'i arwain gan Grŵp AGB sy'n cynnwys cynrychiolwyr gwirfoddol o wahanol sectorau busnes a sefydliadau yn y dref. Ar ôl ymgynghori, mae'r grŵp wedi creu cynllun busnes pum mlynedd mewn tri maes gweithgarwch.

Y bleidlais

Bydd tua 340 o fusnesau yng Nghaernarfon yn cael gwahoddiad i fwrw pleidlais ynghylch talu ardoll ychwanegol o 1.5% ar ben yr ardrethi busnes, sef arian ychwanegol i fynd i gronfa a fydd yn cael ei defnyddio at gynnal gweithgareddau a mentrau i gael tref fwy bywiog ac economaidd lwyddiannus. Dyma'r amser i fusnesau a'r sector cyhoeddus ddod at ei gilydd i geisio creu canol tref sy'n brysurach ac yn fwy deniadol. Mae Cyngor Gwynedd o blaid y cynnig ac mae ymrwymiad y Cyngor i AGB Caernarfon wedi'i ddangos drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu a sefydlu'r AGB ac fel sefydliad mawr sy'n talu ardrethi.

Y busnesau eu hunain fydd yn berchen ar yr AGB a nhw fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n iawn. Bydd Bwrdd yn goruchwylio'r AGB a bydd yn cael ei werthuso'n annibynnol. Bydd pob ceiniog yn cyfrif. Rydyn ni'n gwybod fod Caernarfon yn dref wych a llawer o bethau i'w gwneud, i'w gweld a'u profi yma. Rydyn ni hefyd yn gwybod fod angen gwneud llawer yn barhaus i wella pethau drwy'r amser, yn enwedig yng nghanol y dref. Bydd AGB Caernarfon yn gallu gwneud i hyn ddigwydd.

Yr AGB: Pam?

Pwrpas yr AGB yw esgor ar gydweithredu a chydweithio er mwyn gwella pethau. Byddwn yn cydweithio i wneud ein gweledigaeth yn bosibl ac yn ystod y pum mlynedd nesaf bydd canol y dref yn cael buddsoddiad o £430,000 yn ogystal â chael sicrwydd o ran lefelau gwasanaeth gan Gyngor Gwynedd.

- Bydd dros £86,000 yn cael ei godi gan yr AGB trwy'r ardoll (*levy*) bob blwyddyn.
- Mae hynny bron yn hanner miliwn o fuddsoddiad ychwanegol yng nghanol y dref dros gyfnod o bum mlynedd.

Dychmygwch sut y gallai ein dyfodol edrych:

Erbyn 2020, bydd Canol Tref Caernarfon wedi mynd o nerth i nerth. Bydd faint o ymwelwyr sy'n dod yma wedi codi. Bydd ein busnesau yn ffynnu a chanol y dref fydd un o'r canolfannau gorau ar gyfer ymwelwyr a'r cymunedau lleol a chyfagos.

Rhan allweddol o sicrhau bod hyn yn digwydd yw trwy bleidleisio o blaid AGB Caernarfon.

DRAFT

2 Beth mae'r AGB yn ei addo

Mae Caernarfon yn denu ymwelwyr o bedwar ban byd oherwydd y castell a'r muriau tref trawiadol o'r 13eg ganrif sydd wedi'u dynodi'n safle UNESCO. Mae Caernarfon mewn lleoliad trawiadol ar y Fenai; mae'r rhodfa ar y glannau wedi'i hadfywio; ac mae marina Doc Fictoria a Galeri (theatr, sinema a chanolfan gelfyddydau Caernarfon) yn adeiladu ar yr arlwy hamdden i bobl leol hefyd. Mae'r gwaith o adfywio a chadw'r Cei Llechi hanesyddol yn ogystal â sefydlu gorsaf Rheilffordd Ucheldir Cymru yn ychwanegu at ddyfnder a phwysigrwydd hanes, treftadaeth a diwylliant Caernarfon trwy'r oesoedd, a hyn oll wedi'i ategu gan y defnydd o'r Gymraeg ym mhobman.


Yn ystod gaeaf 2014, holwyd 83 o fusnesau Caernarfon am eu barn ynghylch canol y dref ac am AGB¹. Roedd y prif faterion a blaenoriaethau y soniodd busnesau amdanynt yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys cael y parcio i gostio llai, gwella sut mae canol y dref yn edrych, a chael rhagor o bobl i ddod yma trwy ddigwyddiadau a hyrwyddo, a thrwy wneud y gorau o asedau'r dref i ymestyn y tymor ymwelwyr.

Felly, er mwyn i Gaernarfon fod yn dref i **ymweld â hi ac i weithio, byw a mwynhau ynddi**, gweledigaeth yr AGB ydi bod y dref:

- **Yn Ddylanwadol ac Integredig:** Codi llais cymuned fusnes Caernarfon er mwyn i fusnesau cael dweud eu dweud yn natblygiad y dref a'r rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Chyngor Gwynedd i ddelio â'r problemau parcio a rheoli traffig y soniodd aelodau'r AGB amdanynt. Bydd yr AGB yn datblygu cysylltiadau sy'n fanteisiol i bawb rhwng busnesau, cymunedau lleol a sefydliadau treftadaeth, er mwyn cyflawni'r hyn sydd orau i Gaernarfon a meithrin cyfleoedd i fusnesau newydd ac i fusnesau sydd wedi ennill eu plwyf.
- **Wedi'i hyrwyddo â balchder:** Hyrwyddo Caernarfon fel tref wych i ymweld â hi ac i fuddsoddi ynddi. Gan fod asedau treftadaeth a diwylliannol mor bwysig yma, gan gynnwys ei hunaniaeth iaith Gymraeg gref, mae Caernarfon yn gallu hyrwyddo'i hun fel tref i siopa, treulio amser ynddi, a buddsoddi a gwneud busnes ynddi i ymwelwyr a chymunedau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.
- **Glân a Gwyrdd, Smart a Diogel:** Gwella delwedd Caernarfon trwy ei gwneud hi'n dref fwy deniadol a chroesawgar. Bydd ardal yr AGB yn lanach o lawer, a bydd blodau a gwyrddni yn rhoi lliw i'r strydoedd. Bydd ardal yr AGB yn gwella'r cysylltiadau ffisegol rhwng atyniadau pwysig y dref, gan adeiladu ar asedau fel y Castell, ardal y glannau sydd wedi gwella'n fawr, Doc Fictoria, Galeri, y Maes a gorsaf Rheilffordd Ucheldir Cymru. Bydd yr AGB hefyd yn gwneud canol tref Caernarfon yn lle mwy croesawgar drwy ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sbwriel a niwsans yn ystod y dydd a'r nos.

¹ Gweler rhan 11 i gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwil gyda busnesau.

Bwriad yr AGB yw **canolbwyntio ar y tri maes gweithgarwch yma**. Bydd yn llunio cynllun gweithredu manwl sydd â cherrig milltir i'w monitro bob chwarter a bydd gwerthusiad yn cael ei gynnal bob blwyddyn ar y cynnydd tuag at y targedau. Ar ôl i'r AGB gael ei sefydlu, bydd yr aelodau yn gallu dylanwadu ar ffocws yr AGB er mwyn cynnal prosiectau dan y themâu hyn sy'n cyd-fynd orau â newidiadau yn anghenion canol y dref.



3 Dylanwadol ac integredig

Buddsoddiad yr AGB a ragwelir dros 5 mlynedd: £128,600

Bydd yr AGB am weithio gyda phartneriaid ar lefel leol a rhanbarthol i gynrychioli buddiannau cymuned busnesau Caernarfon er lles ei aelodau.

Cyswllt Canol y Dref

Bydd AGB Caernarfon yn cyflogi rheolwr gweithgar ac amlwg i weithio ar ran yr aelodau a gwneud yn siŵr fod yr AGB yn ateb eu hanghenion. Y rheolwr fydd y pwynt cyswllt allweddol i fusnesau sy'n aelodau o'r AGB. Bydd yn cael ei benodi a'i gyflogi gan AGB Caernarfon ac yn cael contract i weithio 18.5 awr yr wythnos sy'n sicrhau mwy o hyblygrwydd a gwerth am arian i fusnesau Caernarfon na threfniadau rhan-amser eraill a allai olygu nad yw rheolwr AGB yn bresennol am ddyddiau ar ôl ei gilydd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn frwdfrydig gyda digon o fynd ynddynt, bydd ganddynt brofiad a sgiliau cysylltiadau cyhoeddus, yn y cyfryngau cymdeithasol ac mewn meithrin a rheoli cysylltiadau. Bydd rheolwr yr AGB yn cydlynu'r gwaith o gyflawni prosiectau ym mhob un o'r tri maes thematig yn ogystal â rheoli gweithgareddau'r AGB o ddydd i ddydd, a hynny'n cynnwys y canlynol:

- **Rheoli Prosiectau:** Bydd y rheolwr yn arwain prosiectau yn ogystal ag arwain cynllun datblygu strategol hirdymor i'r dref. Bydd gwaith y rheolwr yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd yr AGB.
- **Creu cyllid ychwanegol:** Bydd y rheolwr yn gyfrifol am ddenu ffynonellau incwm ychwanegol ar gyfer yr AGB (yn ychwanegol at ardoll yr AGB), gan gynnwys cyd-drafod nawdd a pharatoi ceisiadau am gyllid.
- **Parcio:** Bydd rheolwr yr AGB yn gyfrifol am weithio gyda Chyngor Gwynedd i fynd i'r afael â'r problemau parcio a rheoli traffig sydd o bryder mawr i sawl busnes yn ardal yr AGB. Bydd hyn yn cynnwys gweld beth sy'n achosi'r problemau, archwilio beth y gellid ei wneud a threialu atebion arloesol i leddfu effaith y problemau hyn ar fasnach y dref e.e. hyblygrwydd wrth godi tâl yn ystod digwyddiadau pwysig.
- **Delio â siopau gwag:** Bydd y rheolwr yn ystyried opsiynau a chyfleoedd i wneud defnydd cadarnhaol o eiddo gwag yn y dref. Mae hyn yn debygol o gynnwys gosod finyl yn y ffenestri i osod deunydd marchnata cyrchfan, hysbysebu busnesau ac arddangosfeydd gan y gymuned leol, yn ogystal â threfnu cyfleoedd dros dro (*pop-up*) i ysgolion a grwpiau eraill ddefnyddio'r siopau gwag.
- **Cydlynu:** Bydd y rheolwr yn cydlynu â'r Awdurdod Lleol, Cyngor y Dref, Llywodraeth Cymru, sefydliadau cymunedol a chyrrff eraill, er mwyn llobio ar ran yr AGB a manteisio ar gyfleoedd partneriaeth. Mae hyn yn benodol yn cynnwys gweithio gyda Cadw er mwyn manteisio ar gyfleoedd i gysylltu â digwyddiadau a gweithgareddau yn y Castell a gwella profiad yr ymwelwyr.

- **Eiriolaeth** (*advocate*): Bydd y rheolwr yn cynrychioli ac yn dadlau o blaid busnesau ardal yr AGB. Bydd yn cysylltu â rhanddeiliaid allanol a phartneriaid yn ardal yr AGB a'r cyffiniau, gan bob amser hyrwyddo buddiannau'r AGB a'r busnesau sy'n aelodau.

Tyfu Busnesau

Mae gan fusnesau a sefydliadau Caernarfon gyfoeth o wybodaeth a phrofiad mewn masnachu a gweithredu yn y dref. Nod yr AGB yw datblygu hyn yn ogystal â dod â gwybodaeth a phrofiad newydd sy'n berthnasol i anghenion busnesau yng Nghaernarfon.

- **Helpu busnesau sy'n bodoli eisoes i dyfu a gwella:** Bydd yr AGB yn cynnal digwyddiadau sgiliau a hyfforddiant, gan gynnwys seminarau datblygu busnes, a hyfforddiant a gwybodaeth ar bynciau fel y gyfraith, cyllid, y cyfryngau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata, safbwynt cwsmeriaid, cadwyni cyflenwi lleol a chynaliadwyedd. Bydd yr AGB, trwy ei rwydwaith busnesau, yn gallu cyfeirio aelodau at ffynonellau cymorth a'u helpu i gael gafael ar gefnogaeth drwy asiantaethau perthnasol, gan gynnwys Busnes Cymru.
- **Mentora ar gyfer busnesau sy'n dechrau:** Bydd yr AGB yn helpu i ddenu a sefydlu busnesau newydd llwyddiannus i ychwanegu at arlwy presennol ardal yr AGB. Bydd hyn yn gwella beth sydd gan Gaernarfon i'w gynnig i bobl leol ac ymwelwyr, a pheidio â dyblygu busnesau sydd eisoes yn bodoli trwy greu rhagor o gystadleuaeth. Un syniad hefyd yw cael cynllun mentora ar gyfer siopau sy'n dechrau, wedi'i gydlynu gan yr AGB. Bydd y cynllun mentora yn cynnig cymorth unigol i fusnesau newydd yn ardal yr AGB gyda gwybodaeth berthnasol i redeg eu busnes yn effeithiol, o gymorth TG i reoli cyfrifon.
- **Prynu ar y cyd:** Bydd yr AGB yn ymchwilio i gyfleoedd i helpu busnesau i gael gwell bargeinion, trwy brynu nwyddau a gwasanaethau cyffredin ar y cyd er mwyn arbed amser ac arian. Gallai hyn gynnwys pethau fel prynu nwyddau papur ac offer, neu gaffael gwasanaethau glanhau, hysbysebu neu wella siopau. Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn Ardaloedd Gwella Busnes eraill, a bydd o fantais i fusnesau'r AGB.
- **Gwobrau:** Bydd yr AGB yn cynnal rhaglen wobrwyo. Bydd y gwobrau yn dathlu busnesau llwyddiannus ardal yr AGB mewn amrywiaeth o gategoriâu fel busnes bach y flwyddyn, entrepreneur y flwyddyn a gwasanaeth cwsmeriaid gorau'r flwyddyn. Bydd sylw i'r gwobrau yn codi ymwybyddiaeth o'r busnesau o safon uchel sydd yng Nghaernarfon. Bydd gwobrau hefyd i ddisgyblion ysgolion lleol sydd â'r syniadau gorau ar gyfer canol y dref a byddai hyn yn rhan o brosiect blynyddol gydag ysgolion a cholegau yn ardal Caernarfon.

4 Hyrwyddo â balchder

Buddsoddiad yr AGB a ragwelir dros 5 mlynedd: £67,500

Digwyddiadau a Gweithgareddau

Bydd yr AGB yn cefnogi rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer y dref. Bydd digwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol lleol ac eraill, gan gydweithio i ennyn diddordeb trigolion ac ymwelwyr, i fywiogi'r strydoedd ac i annog pawb i dreulio amser yn y dref.

Mae Castell Caernarfon yn gaffaeliad enfawr i'r dref ond ni chafwyd yr effaith gadarnhaol bosibl ar fusnesau'r dref. Bydd yr AGB yn meithrin cysylltiadau cryfach rhwng busnesau a'r Castell er mwyn iddynt fanteisio ar ei gilydd. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau ffrinj cerdd, celf a chomedi i gyd-fynd â digwyddiadau yn y Castell, a'r digwyddiadau ymylol yma wedi'u cynnal mewn gwahanol leoliadau o gwmpas y dref fel tafarndai, caffis a siopau.

Bydd yr AGB am gefnogi grwpiau yng Nghaernarfon sy'n trefnu digwyddiadau ac yn rhoi cefnogaeth i wella'r digwyddiadau sy'n bodoli eisoes a'u tynnu allan i strydoedd ardal yr AGB. Bydd y digwyddiadau a gweithgareddau newydd a gynigir gan yr AGB yn cael eu cefnogi a'u cynnal gan bartneriaid, ac maent yn cynnwys y canlynol:

- **Digwyddiadau Cadw:** Bydd yr AGB yn integreiddio gyda chyfleoedd sydd wedi'u creu gan Gastell Caernarfon, ac yn adeiladu arnynt. Bydd yn hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau'r castell ac yn cefnogi digwyddiadau ffrinj o gwmpas ardal yr AGB er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu heffaith ar y dref.
- **Gŵyl Fwyd Caernarfon:** Bydd AGB Caernarfon yn cefnogi'r grŵp sy'n datblygu gŵyl fwyd yn y dref trwy gynig y gefnogaeth angenrheidiol iddi lwyddo.
- **Ffair Ganoloesol:** Penwythnos llawn dathliadau i ddenu'r gymuned gyfan ac yn cynnwys digon o gerddoriaeth, dawnsio, adloniant a bwyd a diod canoloesol. Bydd gwisgoedd canoloesol hefyd yn dod â'r dref gaerog yn fyw.
- **Diwrnod Santes Dwynwen:** Bydd yr wythnos sy'n arwain at Ddiwrnod Santes Dwynwen yn dangos ochr ramantus Caernarfon gyda'r busnesau yn cael eu hannog i addurno blaenau eu siopau a chyflwyno cynigion arbennig i ddathlu ac annog cwsmeriaid i brynu anrhegion ar gyfer eu cariadon.
- **Llwybr Cwrw Cofi:** Mae cyfle i ddathlu tafarndai Caernarfon gan fod ganddi amrywiaeth o dafarndai hanesyddol sydd yn aml iawn yn gwerthu dewis o gwrw lleol. Mae nifer o'r tafarndai hyn wedi'u cynnwys mewn cerddi a cherddoriaeth Gymraeg ac mae ganddynt hanes hynod ddiddorol. Bydd y llwybr yn cael ei hysbysebu a'i farchnata a bydd mapiau ar gael ym mhob tafarn sy'n cymryd rhan yn ardal yr AGB.

Dyma rai o'r syniadau eraill a gafodd eu cynnig trwy'r ymgynghoriad:

- Ceir Clasurol ar y Maes
- Marchnad Nadolig
- Parêd y Pasg
- Theatr Awyr Agored
- Wythnos Bwyd a Diod
- Gŵyl Bwyd Môr
- Gŵyl Cerddoriaeth Stryd

Bydd yr AGB hefyd yn sefydlu **"Her Canol Tref"** i ennyn diddordeb myfyrwyr ysgol, coleg a phrifysgol o amryw ddisgyblaethau, o ddaearyddiaeth i fusnes, cerddoriaeth i fathemateg, yn eu Stryd Fawr leol. Bydd hyn yn cynnwys astudiaethau economaidd a siopa, prosiectau ymddygiad defnyddwyr a chyfleoedd entrepreneuriaeth trwy siopau dros dro (*pop-up shops*), gan ddod ag addysg a sgiliau i ganol y dref. Bydd yr AGB yn noddi gwobrau ac yn cynnig profiad gwaith a chyfleoedd hyfforddiant i bobl o bob oedran.

Marchnata a chysylltiadau cyhoeddus

Bydd yr AGB yn cynllunio ac yn cynnal gweithgareddau marchnata a hyrwyddo sydd wedi'u teilwra ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol yn ardal yr AGB. Bydd yn hyrwyddo busnesau Caernarfon trwy ddangos bod yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig yn cyd-fynd â'r arlwy hanesyddol, treftadaeth a diwylliannol presennol i drigolion ac ymwelwyr lleol fel ei gilydd. Lle bo'n bosibl, bydd yr AGB yn cydweithio â phartneriaid lleol i gefnogi ac ychwanegu gwerth at weithgareddau marchnata sy'n bodoli eisoes ac yn trefnu mentrau newydd. Bydd hefyd yn ystyried cysylltu â pherchnogion eiddo gwag er mwyn ystyried cyfleoedd i fusnesau eu defnyddio.

- **Cynllun Croesawu Ymwelwyr "Croeso Cynnes / Warm Welcome"**

Mae gan Gaernarfon rywbeth unigryw i'w gynnig fel Safle Treftadaeth y Byd, mae ganddi dreftadaeth hanesyddol a diwydiannol cyfoethog a hunaniaeth gref fel canolfan fywiog i'r Gymraeg. Mae mewn lleoliad canolog i amrywiaeth o safleoedd yn y Gogledd Orllewin, gydag Ynys Môn i'r gogledd, Pen Llŷn i'r gorllewin a Pharc Cenedlaethol Eryri, Porthmadog a Chricieth i gyfeiriad y de.

Bydd Cynllun Croesawu Ymwelwyr i Gaernarfon yn cael ei arwain gan yr AGB a bydd yn manteisio ar arlwy unigryw'r dref er mwyn denu ymwelwyr ychwanegol i gryfhau ac ymestyn y tymor ymwelwyr. Bydd Cynllun Croesawu Ymwelwyr yn cynnwys gwefan Croeso Caernarfon, ac ar y wefan bydd cyfeiriadur llety a bwytai.

- **Gwefan AGB gyda chyfeiriadur busnes lleol “Rwy’n Caru Caernarfon / I Love Caernarfon”**

Ar gyfer cynulleidfaoedd lleol, bydd yr AGB yn hwyluso ac yn cefnogi datblygiad gwefan penodol am y dref, ac arni bydd cyfeiriadur siopa, hamdden a gwasanaethau, bargeinion a thalebau, hysbysfwrdd swyddi gwag, newyddion a rhestrau digwyddiadau. Bydd y wefan hefyd yn cynnig gwybodaeth a’r diweddaraf am waith yr AGB yn y dref.

Ar gyfer busnesau’r AGB, bydd adran i aelodau, gyda hysbysfwrdd a fforwm yno i bob busnes fedru trafod a chodi pynciau; rheolwr yr AGB fydd yn cymedrolï’r fforwm hwn, gan ymateb i unrhyw gwestiwn, awgrym a phroblem.

Bydd gwaith yn cael ei wneud i gael gwefan AGB i gyrraedd cynifer o bobl â phosibl drwy gael sylw ar y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Twitter ac Instagram. Bydd postiadau cyson yn adeiladu ac yn datblygu diddordeb yn AGB Caernarfon ac yn y dref ei hun trwy roi gwybod i bobl am newyddion, gweithgareddau a hyrwyddiadau trwy ddolenni cyswllt i’r wefan.

DRAFT

5 Glân a Gwyrdd, Smart a Diogel

Buddsoddiad yr AGB a ragwelir dros 5 mlynedd: £105,000

Gwella argraff gyntaf siopwyr, ymwelwyr a thrigolion wrth iddynt gyrraedd Caernarfon oedd un thema gyffredin a oedd wedi codi yn ystod yr ymgynghoriad gyda busnesau. Gyda dewisiadau deniadol eraill fel Llandudno a Chaer, yn ogystal â siopau tu allan i'r dref ar Ffordd Caernarfon, Bangor, yn gyrchfannau poblogaidd i siopwyr, soniodd sawl busnes fod angen i Gaernarfon gystadlu'n well gyda'r trefi a'r dinasoedd hynny er mwyn denu siopwyr ac ymwelwyr o bob cwr o Wynedd, Ynys Môn, Conwy a thu hwnt. Gyda'r datblygiadau treftadaeth ac adfywio sy'n mynd rhagddynt yng Nghaernarfon, mae'n bryd i ganol y dref fanteisio ar yr ymwelwyr a'r cymunedau cyfagos sy'n dod i'r dref.

Fel rhan o'i waith yn ymchwilio i bosibiliadau am arian cyfatebol, bydd rheolwr yr AGB yn archwilio'r cyfle y mae cyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn ei gynnig i gynorthwyo â'r gwaith dan y thema Glân a Gwyrdd, Taclus a Diogel.

Bydd yr AGB yn canolbwyntio ar y gweithgareddau canlynol dan y thema Glân a Gwyrdd, Smart a Diogel:

- **Glanhau ychwanegol ac o'r newydd**

Sicrhau bod mwy o lanhau effeithiol ar y strydoedd o gymharu â'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, e.e. mwy o lanhau yn rheolaidd, glanhau dwfn, mynd i'r afael â baw adar sy'n creu llanast mewn rhannau o'r dref ac adolygu lleoliadau biniau sbwriel i'w cael yn y llefydd gorau posibl. Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi amserlen sylfaenol o wasanaethau glanhau a bydd yn llofnodi Cytundeb Sylfaenol (*Baseline Agreement*) gyda'r AGB i sicrhau bod gweithgareddau AGB yn ychwanegol at y gwasanaethau presennol.

- **Gwyrddni newydd ac ychwanegol**

Byddwn yn datblygu ac yn gwella'r basgedi crog, y planhigion a manau gwyrdd eraill yng Nghaernarfon er mwyn gwneud y dref yn fwy deniadol i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi.

- **Mannau gwybodaeth Darganfod Caernarfon ac ardaloedd sy'n arwain at y canol**

Bydd yr AGB yn canolbwyntio ar greu llefydd mynediad deniadol a chroesawgar i'r dref trwy roi sylw i'r ardaloedd y mae pobl yn cyrraedd iddynt a'r llwybrau allweddol i mewn i'r dref e.e. gorsaf drenau Rheilffordd Ucheldir Cymru, yr orsaf fysiau, Galeri, safleoedd tacsis a meysydd parcio. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy arwyddion wedi'u brandio, mapiau o safon uchel ac apiau rhyngweithiol i gyfeirio ymwelwyr at safleoedd a gwasanaethau lleol. Byddwn yn creu map (ac ap) cynhwysfawr o siopau a safleoedd Caernarfon er mwyn ei gwneud hi'n llawer cliriach dod o hyd i bopeth sydd gan y dref i'w gynnig – siopau moethus cudd, tafarndai hanesyddol, enwau mawr y stryd fawr a'r llefydd i gael tamaid i fwyta.

- **Blaen siopau**

Byddwn yn ceisio cael gafael ar arian ychwanegol i roi hwb i gyllid yr AGB sydd wedi'i glustnodi i wella blaen y siopau, boed yn siopau gwag neu wedi'u llenwi. Yn ddiweddar, denodd Caernarfon gyllid canol tref i fynd i'r afael â thlodi ac ar y cyd â'r AGB, bydd yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddenu buddsoddiad pellach. Bydd y prosiectau gwella yn cynnwys cynnal a chadw a glanhau, yn ogystal â gosod finyl ar ffenestri i greu gofod i farchnata cyrchfannau, hysbysebion busnes, ac arddangosfeydd cymunedol lleol.

- **Amgylchedd diogel**

Bydd yr AGB yn ymdrechu i wneud canol tref Caernarfon yn lle mwy croesawgar i ymwelwyr, trigolion fel ei gilydd. Gan gydweithio gyda Chynllun Gwarchod Tafarndai Caernarfon a'r Cylch a'r heddlu byddwn yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sbwriel a niwsans yn ystod y dydd a'r nos.

Bydd yr AGB yn gweithio efo Cyngor Gwynedd i gefnogi'r gwaith o gynnal ei wasanaethau safonol mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Drwy gydweithio efo'r Awdurdod, bydd yr AGB yn ceisio cyflawni'r gwasanaethau a'r gweithgareddau ychwanegol fel y nodwyd uchod.

6 Sut bydd yr AGB yn gwneud y newidiadau hyn?

Dechreuodd y prosiect i ddatblygu AGB yng Nghaernarfon dros flwyddyn yn ôl, ac ers hynny rydym wedi ymgynghori â'r busnesau ynghylch y prif faterion sy'n effeithio ar ganol tref Caernarfon.

Mae rhaglen o welliannau uchelgeisiol wedi cael eu datblygu gyda'r prif nod o wneud Caernarfon yn amgylchedd siopa a masnachu mwy ffyniannus a rhoi hwb i nifer yr ymwelwyr trwy gystadlu'n well yn erbyn canolfannau siopa llwyddiannus eraill. Creu AGB yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r amcanion hyn, yn ogystal ag i ddatblygu llais busnes unedig.

Caiff AGB ei arwain a'i ariannu gan fusnesau, ac mae'n cynnig cyfle i'r busnesau reoli eu canolfan fasnachol eu hunain er mwyn cael newidiadau cadarnhaol yn yr ardal. Mae AGB yn fenter nid-er-elw sydd wedi'i ariannu gan fusnesau trwy ardoll (*levy*). Rydym yn cynnig bod busnesau yn talu ardoll sy'n 1.5% o werth ardrethol (*rateable value*) yr uned fusnes (sef hereditament). Y bwriad yw dod o hyd i incwm arall hefyd o ffynonellau eraill, gan gynnwys cyllid grant, a bod yr incwm arall hwn yn hafal i'r incwm o'r ardollau.

Er mwyn sefydlu AGB, rhaid cael pleidlais i roi'r cyfle i fusnesau yn ardal yr AGB bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynnig. Os yw'r bleidlais o blaid sefydlu AGB, bydd yr AGB yn para am gyfnod o bum mlynedd, ac ar ôl hynny bydd angen cynnal ail bleidlais a bydd y broses yn cychwyn eto. Ers i'r AGB cyntaf gael ei sefydlu yn y Deyrnas Unedig yn 2005, mae mwy na 180 AGB wedi'u ffurfio erbyn hyn. Ar hyn o bryd, mae 3 AGB yng Nghymru yn Abertawe, Merthyr Tudful ac yn fwyaf diweddar yng Nghasnewydd, ac 11 AGB arall wrthi'n cael eu datblygu.

Mae'n bosibl mai'r ffordd orau o ddangos pa mor llwyddiannus yw model yr AGB yw'r canran sy'n pleidleisio drosto: 85% y tro cyntaf, ac yn uwch fyth yn y pleidleisiau i adnewyddu. Dyma ein cyfle i newid pethau. Cefnogwch AGB Caernarfon.

6.1 Ardal yr AGB

Mae'r map isod yn dangos y ffin ar gyfer AGB yng nghanol y dref. Caiff pob hereditament (eiddo) yn y ffin eu cynnwys yn yr AGB. Mae'r cyfeiriadau wedi'u codi o'r rhestr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (*National Non-Domestic Rates*).



Dyma'r strydoedd sydd wedi'u cynnwys yn llawn neu'n rhannol yn ardal yr AGB arfaethedig:

Caernarfon	
Y Maes / Castle Square	Pendeitsh / Castle Ditch
Stryd Llyn / Pool Street	Allt y Castell / Castle Hill
Tan y Bont / Greengate Street	Bont Bridd / Bridge Street
Stryd Twll yn y Wal / Hole in the Wall Street	Penllyn / Pool Side
Stryd y Plas / Palace Street	Cei Banc / Bank Quay
Stryd y Jêl / Shirehall Street	Glan Môr / Crown Street
Stryd Bangor / Bangor Road	Doc Fictoria
Penllyn / Pool Hill	Balacafa / Balaclava Road
Ffordd Santes Helen / St Helens Road	Stryd yr Eglwys / Church Street
Lôn yr Eglwys / Church Lane	Stryd y Farchnad / Market Street
Stryd Pedwar a Chwech / Northgate Street	Rhes Pretoria / Pretoria Terrace
Y Stryd Fawr / High Street	Stryd y Castell / Castle Street
Lôn Crwyn	Lôn y Felin / Mill Lane
Penrallt Uchaf / North Penrallt	Penrallt Isaf / South Penrallt
Lôn Twthill	Pen y Graig / Pool Lane
Cei Llechi / Slate Quay	Allt Pafiliwn

6.2 Cyllideb yr AGB

Bydd AGB Caernarfon yn cael ei ariannu trwy ardoll ychwanegol bob blwyddyn. Bydd yr ardoll yma yn 1.5% o werth ardrethol (*rateable value*) eich busnes. Bydd yr ardoll i'w thalu gan bob busnes sy'n talu ardrethi ac sydd â gwerth ardrethol o dros £2,000.

Trwy'r ardoll, byddai AGB Caernarfon yn creu incwm o **£86,000 y flwyddyn**, neu **£430,000 dros gyfnod pum mlynedd** yr AGB.

Byddai hwn yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn prosiectau a gwasanaethau er budd y busnesau.

Bydd yr AGB yn helpu i gael gafael ar gyllid ychwanegol o ffynonellau eraill gan gynnwys ennill cyllid grantiau a nawdd a chael cyfraniadau gwirfoddol gan landlordiaid a busnesau y tu allan i'r ffin. Bydd busnesau sydd â gwerth ardrethol sy'n is na £2,000 yn gallu cyfrannu'n wirfoddol er mwyn bod yn aelod gwirfoddol o'r AGB.

I dalu'r ardoll bydd yn rhaid i chi dalu un tâl blyneddol tuag at yr AGB am bum mlynedd. Bydd y tâl blyneddol hwn yn cael ei gyfrifo ar 1.5% o werth ardrethol eich eiddo unigol (hereditament). Felly, os ydych chi'n berchen ar fusnes sydd â gwerth ardrethol o £20,000, byddwch yn talu £300 y flwyddyn i'r AGB.

Ardrethi Busnes 2015/16	Gwerth Ardrethol	Ardoll Flynyddol	Cost Dyddiol Cyfatebol
Business Rates 2015/16	Rateable Value	Annual Levy	Daily Equivalent Cost
£2,410	£5,000	£75	21c
£4,820	£10,000	£150	41c
£9,640	£20,000	£300	£2.05
£24,100	£50,000	£750	£4.10
£48,200	£100,000	£1,500	£8.22

Buddsoddiad ydi'r ardoll. Yn gyfnewid am eich buddsoddiad, byddwch yn elwa o gael prosiectau fyddai ddim yn digwydd oni bai am yr AGB. Bydd cwmni'r AGB yn atebol am yr holl arian y bydd yn ei gael neu yn ei gynhyrchu. Bydd y cwmni yn adrodd wrth y busnesau beth maen nhw'n ei gael am eu buddsoddiad.

- Dim ond 12% o fusnesau fydd yn cyfrannu mwy na £1 y diwrnod.
- Dim ond hanner y busnesau fydd yn talu mwy na 25c y diwrnod.

Cyllideb **ddrafft** yw hon. Mae'r gyllideb hon yn seiliedig ar incwm o'r ardoll gan y busnesau yn unig ac nid yw'n ystyried **ffynonellau cyllid ychwanegol** y bydd yr AGB yn chwilio amdanynt i chwyddo incwm yr AGB.

		Blwyddyn 1	Bl. 2	Bl. 3	Bl. 4	Bl. 5
Incwm o ardollau ar 1.5% o'r gwerth ardrethol (yn seiliedig ar gyfradd casglu o 95%)		£	£	£	£	£
Levy income at 1.5% of rateable value (based on 95% collection rate)		86,000	86,000	86,000	86,000	86,000
Costau craidd	Casglu'r ardoll	8,322	8,322	8,322	8,322	8,322
	Rheoli a chydlynu	5,443	5,443	5,443	5,443	5,443
	Costau gweinyddol	3,550	3,550	3,550	3,550	3,550
		17,315	17,315	17,315	17,315	17,315
Glân a Gwyrdd, Smart a Diogel	Glanhau ychwanegol ac o'r newydd	4,000	4,000	4,000	4,000	4,000
	Gwyrddni newydd ac ychwanegol	4,000	4,000	4,000	4,000	4,000
	Arwyddion a gwybodaeth	6,000	6,000	6,000	6,000	6,000
	Gwella blaen y siopau	4,500	4,500	4,500	4,500	4,500
	Amgylchedd diogel	2,500	2,500	2,500	2,500	2,500
		21,000	21,000	21,000	21,000	21,000
Hyrwyddo â balchder	Digwyddiadau a gweithgareddau	8,000	8,000	8,000	8,000	8,000
	Cynllun Croesawu Ymwelwyr	3,000	2,000	2,000	2,000	1,500
	Cyfeiriadur lleol	3,500	4,000	3,500	3,000	3,000
		14,500	14,000	13,500	13,000	12,500
Dylanwadol ac integredig	Costau Rheolwr	14,225	14,725	15,225	15,725	16,225
	Meithrin capasiti	3,000	3,000	3,000	3,000	3,000
	Mentora busnesau newydd	3,000	3,000	3,000	3,000	3,000
	Prynu ar y cyd	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500
	Gwobrau	3,000	3,000	3,000	3,000	3,000
		24,725	25,225	25,725	26,225	26,725
Cyfanswm Gwariant		77,540	77,540	77,540	77,540	77,540
Cyfanswm Incwm		86,000	86,000	86,000	86,000	86,000
Gweddill / Wrth Gefn / Dyled Ddrwg		8,460	8,460	8,460	8,460	8,460
Gweddill / Wrth Gefn / Dyled Ddrwg (%)		10%	10%	10%	10%	10%

Mae'r costau craidd yn cynnwys prynu a chynnal meddalwedd casglu'r ardoll, costau casglu'r ardoll, rheoli llinell AGB i'r rheolwr a chostau swyddfa.

Incwm yr AGB

Mae'r gyllideb uchod yn seiliedig ar incwm o ardollau AGB yn unig. Rhagwelir y bydd incwm ychwanegol yn dod o gyfraniadau gwirfoddol gan fusnesau llai o faint a busnesau o'r tu allan i ffin yr AGB sy'n dymuno dod yn aelodau o'r AGB yn ogystal â chyfraniadau posibl gan landlordiaid, cyllid o grantiau a chyllid cyfatebol gan y sector cyhoeddus a phreifat.

Cyfradd casglu'r ardollau a chyllideb wrth gefn

Mae gan Gyngor Gwynedd gyfradd casglu ardrethi busnes (*business rates collection rate*) o 97.7% sy'n seiliedig ar y tair blynedd ariannol diwethaf. Er hynny, mae ffynonellau eraill yn dweud bod cyfradd casglu is yn fwy doeth. Mae Consortiwm Manwerthu Prydain (British Retail Consortium) yn cynghori llunio cyllideb sy'n seiliedig ar gyfradd casglu o 95% gyda chyllideb wrth gefn o ddim llai na 5% ar bob eitem gwariant. Am y rheswm hwn, mae incwm ardollau AGB yn y tabl uchod yn seiliedig ar gyfradd casglu ardollau o 95%, sy'n agos at gyfradd Cyngor Gwynedd, ond sy'n dal i fod yn ofalus. Mae cronfa wrth gefn ar gyfer dyled ddrwg neu weddill o 10% wedi'i chynnwys, yn unol ag argymhelliad y Gymdeithas Rheoli Canol Trefi.

DRAFT

7 Ateb eich cwestiynau

Pam rydym yn cynnal pleidlais AGB?

Er mwyn creu AGB, mae'n rhaid i ni gynnal pleidlais ymysg y busnesau sy'n gymwys. Bydd y bleidlais yn gofyn cwestiwn syml: 'Ydych chi o blaid y cynigion ar gyfer Ardal Gwella Busnes (AGB) Caernarfon?' Er mwyn i'r AGB ddod i fodolaeth, rhaid i fwyafrif y rheiny sy'n pleidleisio bleidleisio o blaid. Ond rhaid i'w pleidleisiau hefyd gynrychioli mwyafrif cyfanswm gwerth ardrethol yr holl eiddo sy'n pleidleisio.

Ydw i'n cael pleidleisio?

Os ydi safle eich busnes o fewn ardal arfaethedig yr AGB a bod ganddo werth ardrethol sydd yn uwch na £2,000, rydych chi'n gymwys i bleidleisio ym mhleidlais yr AGB.

Sut bydd AGB Caernarfon yn cael ei ariannu?

Os bydd y bleidlais yn llwyddiannus, bydd AGB Caernarfon yn cael ei ariannu drwy ardoll flynyddol (*annual levy*) o 1.5% o werth ardrethol *pob* uned fusnes gymwys yn ardal yr AGB, boed y busnes hwnnw wedi pleidleisio o blaid neu yn erbyn yr AGB. Er enghraifft, os ydy gwerth ardrethol eich safle yn £10,000, byddwch chi'n talu £150 y flwyddyn. Bydd ardoll yr AGB yn orfodol i bob busnes a chorff cymwys arall, megis yr awdurdod lleol.

Casglu'r ardollau

Bydd ardoll yr AGB yn cael ei chasglu'n flynyddol gan yr awdurdod lleol gyda'r ardrethi busnes (*business rates*). Bydd AGB Caernarfon yn glir ac yn dryloyw ynghylch sut y mae'n gwario'r arian. Bydd gwybodaeth a fydd yn cael ei diweddarau'n gyson am incwm a gwariant ar gael i bob aelod o'r AGB.

Sicrhau bod gwasanaethau'r AGB yn rhai ychwanegol

Bydd AGB yng nghanol tref Caernarfon yn fenter wedi'i harwain gan y busnesau a'r cyllid wedi'i gasglu a'i reoli gennych chi. Rhaid i'r AGB gynnig gwasanaethau sydd yn ychwanegol at y rhai a gynigir gan yr awdurdod lleol ac asiantaethau statudol eraill. Bydd AGB Caernarfon yn llofnodi Cytundeb Sylfaenol (*Baseline Agreement*) gyda Chyngor Gwynedd. Bydd y cytundeb hwn yn cadarnhau beth mae'r awdurdod lleol eisoes yn ei wneud a bydd yr AGB yn monitro'r cytundeb hwn.

Pa mor hir fydd yr AGB yn para?

Bydd yr AGB yn para am bum mlynedd, sy'n golygu sicrwydd buddsoddiad yn ystod y cyfnod hwnnw. Os bydd busnesau eisiau i'r AGB barhau y tu hwnt i'r cyfnod o bum mlynedd, byddwch chi'n gwneud y penderfyniad hwn trwy bleidleisio unwaith eto.

Sut byddaf yn cael fy nghynrychioli?

Os bydd y bleidlais AGB yn llwyddiannus, bydd AGB Caernarfon yn cael ei ailffurfio yn gwmni cyfyngedig trwy warant nid-er-elw (*not-for-profit company limited by guarantee*). Y bwriad yw cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (AGM) cyntaf ym mis Medi 2016 ar ôl i'r AGB ddechrau ar ei waith ar 1 Ebrill 2016. Bydd pob busnes sy'n talu'r ardoll yn gallu dod yn aelod o'r cwmni er mwyn bod yn gymwys i bleidleisio dros benderfyniadau'r cwmni. Gall unrhyw aelod sefyll i gael ei ethol i'r Bwrdd. Bydd busnesau sydd â gwerth ardrethol sy'n llai na £2,000 yn gallu dewis cyfrannu o leiaf £30 y flwyddyn o'u gwirfodd er mwyn cael bod yn aelod gwirfoddol o'r AGB; serch hynny dim ond aelodau sy'n talu'r ardoll yn orfodol fydd â hawliau pleidleisio llawn.

Sut mae'r cynnig hwn yn cael ei ariannu?

Mae'r cyllid ar gyfer hyn wedi dod gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Tref Caernarfon, trwy Siambr Fasnach Caernarfon a Chyngor Gwynedd. Cafodd ymgynghorwyr eu penodi i gynnal astudiaeth ddichonoldeb (*feasibility study*) i weld a fyddai AGB i Gaernarfon yn ymarferol bosibl ai peidio. Roedd yr astudiaeth honno yn gadarnhaol, felly mae'r cynnig hwn wedi cael ei ddatblygu i'w roi i bleidlais. Cyngor Gwynedd fydd yn talu am y costau sydd ynghlwm â chynnal y bleidlais.

8 Rheoli'r AGB

Mae datblygu'r cynnig hwn i gael AGB yng Nghaernarfon wedi'i wneud gan grŵp brwdfrydig o gynrychiolwyr o Gyngor Tref Caernarfon a Siambr Fasnach Caernarfon. Os bydd y bleidlais o blaid sefydlu'r AGB, mae'r unigolion hyn wedi cytuno i fynd â'r cwmni AGB newydd ymlaen i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol cyntaf. Wedyn bydd cyfarwyddwyr yn cael eu hethol yn y Cyfarfod Cyffredinol cyntaf ym mis Medi 2016.

Bydd pob busnes sydd â gwerth ardrethol o £2,000 neu uwch yn gymwys i fod yn aelodau o'r AGB a gallant sefyll fel cyfarwyddwr. Os bydd busnesau wedi'u lleoli oddi fewn i ffin ardal yr AGB ond bod eu gwerth ardrethol yn is na £2,000, yna gallant wneud cyfraniad gwirfoddol o £30 y flwyddyn er mwyn dod yn aelodau, ond dim ond aelodau sydd yn talu'r ardoll yn orfodol fydd â hawliau pleidleisio llawn. Byddwn yn sefydlu cwmni cyfyngedig trwy warant nid-er-elw.

Bydd Bwrdd y cwmni newydd (AGB Caernarfon BID Cyf.) am gael cynrychiolwyr ar draws y sectorau ac o fusnesau y tu fewn a thu allan i furiau'r Castell. Er enghraifft, bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

- Busnesau bychain
- Busnesau canolig eu maint
- Busnesau mawr
- Busnesau'r economi gyda'r nos
- Siambr Fasnach Caernarfon
- Sefydliad/mudiad cymunedol
- Cyngor Gwynedd (aelod anweithredol [*non-executive*] o'r Bwrdd)

Bydd **cyfarwyddwyr y Bwrdd** yn gwasanaethu'n wirfoddol. Bydd gan bob busnes sy'n talu ardoll yr AGB hawl i ddod yn aelod o'r cwmni a gallant sefyll i gael eu hethol yn aelodau o Fwrdd yr AGB yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. Bydd gofyn i bawb sy'n talu'r ardoll wneud cais i ddod yn aelod o gwmni'r AGB.

Bydd pawb sy'n talu ardoll yn gallu cael **rhan o gwmni'r AGB**, a sicrhau ei fod yn atebol am ei waith a'r cyllid. Bydd yr AGB yn cyflogi **rheolwr** er mwyn sicrhau bod prosiectau yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon ac i chwilio am gyllid ychwanegol, yn ogystal â bod yn brif bwynt cyswllt rhwng y rheiny sy'n talu ardoll a'r Bwrdd.

Bydd Cyngor Gwynedd yn **casglu'r ardoll** ar ran yr AGB.

Addasu trefniadau'r AGB

Ni fydd modd gwneud diwygiadau mawr i drefniadau'r AGB heb ofyn am gymeradwyaeth ffurfiol gan aelodau'r AGB yn gyntaf. Bydd yn bosibl gwneud mân newidiadau i drefniadau'r AGB heb fynd i bleidlais, cyn belled ag nad ydynt yn addasu'r canlynol:

- Ardal ddaearyddol yr AGB
- Ardoll yr AGB mewn ffordd a fyddai'n:
 - golygu bod rhywun yn gorfod talu ardoll yr AGB a hwythau cyn hynny ddim yn gorfod gwneud; neu
 - codi faint o'r ardoll AGB sy'n rhaid ei thalu ac eithrio at ddibenion chwyddiant fel y disgrifwyd uchod.

Mewn achosion lle mae'n bosibl newid trefniadau'r AGB heb bleidlais addasu, bydd yn rhaid i Fwrdd llawn AGB Caernarfon benderfynu ar yr addasiad hwnnw.

Mesur perfformiad

Bydd AGB Caernarfon yn gweithio mewn ffordd eglur a thryloyw a bydd yn atebol i'w aelodau. Bydd rheolwr yr AGB, ar y cyd â'r Bwrdd Rheoli, yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso sydd â thargedau blynyddol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs). Bydd y perfformiad yn erbyn y targedau hyn ac effaith rhaglen wella'r AGB yn cael eu monitro'n gyson a bydd adroddiadau ar gynnydd yn cael eu rhoi i'r rhai sy'n talu ardoll ac i'r gymuned fusnes ehangach. Bydd ffocws clir ar reoli perfformiad, cael effaith sy'n amlwg i bawb, a gallu dangos gwerth gwyd am arian.

9 Amserlen AGB Caernarfon

Mae nifer o gamau i'w cymryd er mwyn sefydlu Ardal Gwella Busnes (AGB). Dyma amserlen bosibl ar gyfer y camau nesaf, ond byddwn yn diweddarau'r wefan i chi gael dyddiadau mwy penodol.

Hysbysu pobl y bydd pleidlais drwy'r post yn digwydd	31 Gorffennaf 2015
Cael pecyn pleidleisio	Erbyn 27 Awst 2015
Y bleidlais drwy'r post yn cau	5pm Dydd Iau 24 Medi 2015
Cyhoeddi canlyniadau'r bleidlais	Dydd Gwener 25 Medi 2015
Sefydlu cwmni'r AGB	Hydref 2015 – Mawrth 2016
Cwmni'r AGB yn mynd yn fyw, a chasglu'r ardoll gyntaf	Ebrill 2016
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) yr AGB	Medi 2016
CCB Blwyddyn 2	Medi 2017
CCB Blwyddyn 3	Medi 2018
CCB Blwyddyn 4	Medi 2019
CCB Blwyddyn 5	Medi 2020
Pleidlais i adnewyddu'r AGB	Rhagfyr 2020

Bydd AGB Caernarfon yn rhedeg am 5 mlynedd o 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2021.

Rheolau'r Bleidlais

Bydd pob busnes sy'n talu ardrethi busnes yn cael pleidlais os ydynt:

- wedi'u rhestru ar y Rhestr Ardrethi Annomestig (*Non-Domestic Ratings List*) pan fydd Cyngor Gwynedd yn rhoi rhybudd o'r bleidlais
- wedi'u lleoli o fewn ffin yr AGB, a
- bod ganddynt werth ardrethol (*rateable value*) sy'n £2,000 neu uwch.

- Ym mis Awst 2015, bydd y pecyn pleidleisio yn cael ei anfon at gyfeiriad yr hereditament (eiddo).
- Rhaid dychwelyd pob pleidlais erbyn 5pm nos Iau 24 Medi 2015.
- Er mwyn i'r AGB fynd yn ei flaen, rhaid bodloni dau amod:
 - rhaid bod dros 50% o'r busnesau sy'n pleidleisio yn pleidleisio o blaid.
 - rhaid i gyfanswm gwerth ardrethol y pleidleisiau sydd o blaid fod dros 50% o gyfanswm gwerth ardrethol yr holl bleidleisiau sy'n cael eu bwrw.
- Yn ôl y ddeddfwriaeth, os bydd yr amodau hyn yn cael eu cyflawni, bydd yr ardoll o 1.5% yn orfodol ar bob busnes cymwys, boed nhw wedi pleidleisio o blaid neu beidio.
- Bydd pleidlais o blaid AGB Caernarfon yn golygu y bydd y gweithgareddau ychwanegol sydd wedi cael eu haddo yn dechrau digwydd ym mis Ebrill 2016. Bydd yr anfonebau cyntaf yn cael eu hanfon ym mis Mawrth 2016 er mwyn paratoi ar gyfer hyn.
- Nid oes modd newid ffiniau ardal yr AGB, newid canran ardoll yr AGB na meini prawf y busnesau cymwys unrhyw bryd yn ystod oes pum mlynedd yr AGB heb yn gyntaf gael Pleidlais Addasu llawn. Pwrpas hyn yw diogelu'r rhai sy'n talu ardrethi a rhoi sicrwydd o ran costau ardoll yr AGB.
- Bwriad cwmni'r AGB yw masnachu fel cwmni sydd ddim yn gwneud elw a'r cwmni hwn fydd yn rhedeg yr AGB.

10 Mae eich pleidlais yn cyfrif!

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae busnesau yng nghanol y dref wedi bod yn frwdfrydig iawn dros gael Ardal Gwella Busnes yng Nghaernarfon. Dyma'r amser rŵan i gael ffordd gynaliadwy a llwyddiannus o reoli canol ein tref am flynyddoedd i ddod.

CEFNOGWCH YR AGB – PLEIDLEISIWCH DROS GAERNARFON

DRAFT

11 Ymchwilio ac astudiaeth ddichonoldeb

Mae'r gwaith o ymchwilio a datblygu AGB Caernarfon wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Tref Caernarfon, trwy Fforwm Busnes Caernarfon a Chyngor Gwynedd. Cafodd astudiaeth ddichonoldeb (*feasibility study*) ei llunio ym mis Rhagfyr 2014 i weld a fyddai Ardal Gwella Busnes yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r problemau sydd yng nghanol y dref, gyda'r ffocws ar wella amodau masnachu.

Ar ôl dadansoddi gwerth ardrethol busnesau a chynnal arolwg o'r busnesau sydd o fewn ffin arfaethedig yr AGB, daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod sefydlu AGB llwyddiannus nid yn unig yn syniad cyffrous a gwerthfawr i fusnesau a chymuned ehangach Caernarfon, ond ei fod hefyd yn ddichonadwy ac yn ymarferol bosibl. Mae cefnogaeth a galw am AGB; byddai'n bosibl yn ariannol; byddai'n gallu gweithredu ar anghenion penodol busnesau AGB dros y tymor hir; a byddai'n gallu ychwanegu gwerth at yr ardoll ar fusnesau trwy integreiddio, partneriaethau, grym a dylanwad.

Fe wnaeth 83 busnes lenwi holiadur yn yr ymchwil, a dywedodd 69 (83%) ohonynt eu bod yn credu bod creu AGB ar gyfer Caernarfon yn syniad da mewn egwyddor a dylid ei roi i bleidlais. Dim ond un person atebodd 'na' ac nid oedd y gweddill yn siŵr.

Roedd yr 83 holiadur yn cynrychioli cyfradd ymateb o 24% o'r busnesau sydd o fewn ffiniau'r AGB. O ddiystyru perchnogion sawl eiddo, adeiladau cyngor y dref a'r sir, meysydd parcio, banciau a pheiriannau twll yn y wal, gorsafoedd heddlu, llyfrgelloedd, gorsafoedd bysiau a safleoedd eraill heb rif ffôn uniongyrchol neu heb fanylion cyswllt dilys, 42% oedd cyfradd yr ymatebion. Roedd dau draean y bobl a holwyd yn cynrychioli busnesau annibynnol.

12 Dogfennau ategol

Mae dogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r AGB i'w cael ar wefan yr AGB www.caernarfonbid.co.uk.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cytundeb Sylfaenol (*Baseline Agreement*) drafft rhwng yr AGB a Chyngor Gwynedd, gan gynnwys datganiad o'r gwasanaethau sylfaenol y mae Cyngor Gwynedd yn eu darparu ar hyn o bryd.
- Cytundeb Gweithredu (*Operating Agreement*) drafft rhwng yr AGB a Chyngor Gwynedd, sy'n nodi'r telerau o ran sut bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel yr awdurdod bilio a phleidleisio ar ran yr AGB.

Mae'r adnoddau eraill yn cynnwys:

- Llawlyfr AGB Llywodraeth Cymru
- Astudiaethau achos a dolenni i Ardaloedd Gwella Busnes eraill yn y Deyrnas Unedig

I gael rhagor o wybodaeth am AGB Caernarfon a sut y gallwch chi fod yn rhan, cysylltwch â chadeirydd yr AGB:

(name and contact details here)

Atodiad 1: Gwybodaeth hanfodol

Geirfa:

Ardal Gwella Busnes (AGB) = *Business Improvement District (BID)*

ardoll = *levy*

ardrethi annomestig = *non-domestic rates*

cynllun rhyddhad ardrethi = *rate relief scheme*

cymwys = *eligible*

gwerth ardrethol = *rateable value*

Pwy sy'n talu'r ardoll?

1. Y person fydd yn gyfrifol am dalu ardoll yr AGB yw'r person sy'n gyfrifol am ardrethi annomestig mewn perthynas â'r eiddo.
2. Bydd ardoll yr AGB yn berthnasol i bob eiddo sydd â chyfeiriad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) o fewn ffin ardal AGB Caernarfon.
3. Ni fydd busnesau sydd â gwerth ardrethol sy'n is na £2,000 yn gymwys i dalu ardoll yr AGB ond gallant gyfrannu o'u gwirfodd er mwyn dod yn aelodau gwirfoddol o'r AGB.

Dyddiadau pwysig

1. Bydd yr AGB arfaethedig yn para am 5 blwyddyn ariannol olynol o fis Ebrill 2016 ymlaen.
2. Bydd gan bob busnes cymwys hawl i bleidleisio ynghylch y cynnig AGB mewn pleidlais drwy'r bost a fydd yn para am 28 diwrnod. Bydd y pleidleisio yn dechrau ar 27 Awst 2015 ac yn cau am 5pm nos Iau 24 Medi 2015. Caiff y canlyniadau eu cyhoeddi ddydd Gwener 25 Medi ar wefan yr AGB.

Yr Ardoll

1. Ardoll yr AGB fydd 1.5% o werth ardrethol pob eiddo am y pum mlynedd lawn fel y manylir yn rhestr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol 2010.
2. Ni fydd gwahaniaeth rhwng eiddo gwag neu eiddo wedi'i feddiannu.
3. Ni fydd ardoll yr AGB wedi'i heffeithio gan y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bychain.
4. Yr awdurdod lleol fydd yn casglu ardoll yr AGB ac yn cadw'r symiau hynny yng Nghyfrif Refeniw AGB.
5. Bydd yr ardoll yn cael ei chyfrifo ar gyfer pob eiddo yn flynyddol ac yn cael ei hanfonebu ar gyfer dechrau pob blwyddyn yr AGB. Nid yw'r trefniant hwn wedi'i gadarnhau eto. Gallai casgliadau amlach fod yn bosibl yn dibynnu ar y costau cysylltiedig o wneud hynny.
6. Bydd yr ardoll yn cael ei chodi yn unol â gweithdrefnau'r diwrnod codi treth (*chargeable day procedures*). Bydd yn seiliedig ar gofnodion rhestr ardrethi 2010 ar gyfer pob eiddo yn ardal yr AGB a'r cofnodion hynny wedi'u cymryd ar y dyddiad pan fydd Cyngor

Gwynedd yn rhoi rhybudd o'r bleidlais. Bydd hyn yn sicrhau bod rhestr y gwerth ardrethol a ddefnyddir i greu'r biliau blynyddol yn gyflawn ac yn gywir.

7. Bydd y Cytundeb Gweithredu ar gael os bydd darpar dalwr ardoll yn gofyn amdano.
8. Gallai busnesau ddechrau gorfod talu'r ardoll er nad oeddent yn gorfod gwneud hynny'n flaenorol, er enghraifft, pan nad oedd eiddo yn ardal yr AGB ar y rhestr ardrethi ond fod yr eiddo yn cael ei ychwanegu at y rhestr wedi hynny.
9. Y cyfnod y codir ffi arno fydd tymor yr AGB o bum mlynedd o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Ni fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ailbrizio ardrethi yn 2017, oni bai fod eiddo yn ymddangos am y tro cyntaf ar y rhestr honno. Yn yr achos hwnnw, y gwerth ardrethol sydd ar y rhestr honno fydd yn cael ei ddefnyddio. Yr eithriad fydd unrhyw newid yn nefnydd neu newid ffisegol i eiddo neu hereditament.
10. Defnyddir pob mecanwaith sydd ar gael i fynd ar ôl busnes sydd ddim wedi talu ardoll yr AGB.

DRAFT

CYTUNDEB ARFAETHEDIG AGB CAERNARFON / BANGOR

DRAFT

DRAFFT O GYTUNDEB GWEITHREDU

Dyddiedig

**Cyngor Gwynedd
(y Cyngor)**

AGB Caernarfon BID / AGB Bangor BID
(Cwmni'r AGB)

Cynnwys

- 1 Diffiniadau**
- 2 Awdurdodau Statudol**
- 3 Cychwyniad**
- 4 Gosod yr Ardoll AGB**
- 5 Y Cyfrif Refeniw AGB**
- 6 Debydau o'r Cyfrif Refeniw AGB**
- 7 Casglu'r Ardoll AGB**
- 8 Gweithdrefnau sydd ar gael i'r Cyngor i orfodi talu'r Ardoll AGB**
- 9 Mekanweithiau Gorfodi am beidio casglu'r Ardoll AGB gan y Cyngor**
- 10 Gweithdrefnau Cyfrifo a Monitro**
- 11 Terfynu**
- 12 Cyfrinachedd**
- 13 Hysbysiadau**
- 14 Amrywiol**
- 15 Arfer pwerau'r Cyngor**
- 16 Contractau (Hawliau Trydydd Partïon)**
- 17 Cyflafareddu**
- 18 Rhyddid Gwybodaeth**

Cytundeb Gweithredu

Dyddiedig

- (1) Cyngor Gwynedd (y Cyngor), Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd.
- (2) **AGB Caernarfon BID / AGB Bangor BID** (y Cwmni AGB) cwmni cyfyngedig trwy warant gyda swyddfa gofrestredig yn y cyfeiriad

Croniciadau

- A Y Cyngor yw'r awdurdod bilio at ddibenion Deddf Llywodraeth Leol 2003 ac y mae'n gyfrifol am gasglu'r Ardoll AGB a gweinyddu'r Cyfrif Refeniw AGB a ddefnyddir tuag at weithredu'r AGB yn ardal y Cyngor a chyllido'r Trefniadau AGB.
- B Mae'r Cwmni AGB yn gyfrifol am weithredu'r AGB ac am ddefnyddio'r Ardoll AGB at ddibenion cyrraedd yr amcanion a'r dyheadau a osodir allan yn y Trefniadau AGB.
- C Dymuna'r naill ochr a'r llall gadarnhau'r trefniadau ar gyfer casglu'r Ardoll AGB ynghyd â threfniadau cyffredinol ynghylch y berthynas a sefydlir rhwng y Cyngor a'r Cwmni AGB tra pery'r AGB.
- D Pwrpas y Cytundeb hwn yw:
 - sefydlu'r weithdrefn ar gyfer gosod yr Ardoll AGB;
 - cadarnhau'r sail y bydd y Cyngor yn gyfrifol am gasglu'r Ardoll AGB;
 - gosod allan y mecanweithiau gorfodaeth sydd ar gael ar gyfer casglu'r Ardoll AGB;
 - gosod allan y gweithdrefnau ar gyfer cyfrifo a throsglwyddo'r Ardoll AGB;
 - darparu ar gyfer monitro ac adolygu'r ardoll AGB;

- Cadarnhau'r modd o dalu treuliau'r Cyngor a ddaeth i'w rhan wrth gasglu'r Ardoll AGB.

CYTUNIR:

1 Diffiniadau

y **Treuliau Gweinyddol** yw'r holl gostau a ddaw i ran y Cyngor wrth weinyddu, casglu ac adennill yr Ardoll AGB gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw gostau staffio ac unrhyw wariant a ddaeth i ran y Cyngor yng nghyswllt meddalwedd neu systemau eraill a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r ardoll AGB ac unrhyw gostau cysylltiedig â'r Cytundeb hwn neu unrhyw derfynu arno.

yr **Adroddiad Blynyddol** yw adroddiad i'w baratoi gan y Cyngor sy'n rhoi manylion am y canlynol:-

- (i) cyfanswm yr Ardoll AGB a gesglir yn ystod y Flwyddyn Ariannol berthnasol;
- (ii) manylion y raddfa lwyddiant am gasglu'r Ardoll AGB;
- (iii) cynigion y Cyngor (os oes rhai) i helpu i wella eu heffeithlonrwydd wrth gasglu a gorfodi'r ardoll AGB;
- (iv) manylion y Talwyr Ardoll AGB hynny sydd wedi talu'r Ardoll AGB a'r rhai nad ydynt wedi talu'r ardoll AGB; a
- (v) cynigion y Cyngor am ddyledion drwg neu amheus

yr **Hysbysiad Apêl** yw hysbysiad a gyflwynir gan y Cwmni AGB yn unol â chymal 9.2.

Bydd i **Ddyledion Drwg neu Amheus** yr un ystyr ag a ddisgrifir yn Rhan 2 Atodlen 3 y Rheoliadau.

Yr **AGB** yw'r Ardal Gwella Busnes a reolir ac a redir gan y Cwmni AGB ac sy'n gweithredu yn y strydoedd a osodir allan isod ac sy'n eu cynnwys, ac a ddangosir ar y map a atodir yma.

Cynhwysir y strydoedd canlynol yn ardal yr AGB yn gyfan neu yn rhannol:-

Caernarfon	Bangor
Castle Square / Y Maes	High Street / Stryd Fawr
Pool Street / Stryd Llyn	Station Road / Stryd yr Orsaf
Greengate Street / Tan y Bont	Ffordd Gwynedd
Hole in the Wall Street / Stryd Twll yn y Wal	Deiniol Road / Ffordd Deiniol
Palace Street / Stryd y Plas	Tan-y-Fynwent
Shirehall Street / Stryd y Jêl	Waterloo Road / Stryd Waterloo
Bangor Road / Stryd Bangor	Garth Road / Ffordd Garth
Pool Hill / Penllyn	Glanrafon
St Helens Road / Ffordd Santes Helen	Dean Street / Stryd y Deon
Church Lane / Lôn yr Eglwys	Ashley Road
Northgate Street / Stryd Pedwar a Chwech	Brick Street
High Street / Stryd Fawr	Mount Street
Lôn Crwyn	Plas Llwyd Terrace
North Penrallt / Penrallt Uchaf	Tan y Fynwent
Lôn Twthill	Ebenezer Place
Slate Quay / Cei Llechi	York Place
Castle Ditch / Pendeitsh	Ffordd y Ffynnon
Castle Hill / Allt y Castell	Sackville Road / Ffordd Sackville
Bridge Street / Bont Bridd	
Pool Side / Penllyn	
Bank Quay / Cei Banc	
Glan Môr / Crown Street	
Doc Fictoria	
Balaclava Road / Balaclafa	
Church Street / Stryd yr Eglwys	
Market Street / Stryd y Farchnad	
Pretoria Terrace / Rhes Pretoria	
Castle Street / Stryd y Castell	
Mill Lane / Lôn y Felin	
South Penrallt / Penrallt Isaf	
Pool Lane / Pen y Graig	
Allt Pafiliwn	

Golyga'r **Trefniadau AGB** y trefniadau hynny i'w gosod yn eu lle yn unol â'r Rheoliadau gan y Cwmni AGB er mwyn galluogi'r prosiectau a nodwyd i'w gwneud er lles yr AGB neu'r rhai sydd yn byw, gweithio neu yn cynnal unrhyw weithgaredd yn yr ardal.

Adroddiad y Cwmni AGB yw adroddiad am bob Blwyddyn Ariannol i'w baratoi gan yr AGB.

Cwmni sy'n rhoi manylion am y canlynol:-

- (a) cyfanswm incwm a gwariant yr Ardoll AGB;
- (b) incwm a gwariant arall y Cwmni AGB nad yw'n Ardoll AGB;
- (c) datganiad diffygion gwirioneddol a rhai sydd i ddod; a
- (d) amrywiol fentrau a chynlluniau y gwariwyd yr ardoll AGB arnynt gan y Cwmni AGB

yr **Ardoll AGB** yw'r tâl a godir ac a gesglir yn ardal yr AGB yn unol â'r Rheoliadau a'r Cytundeb hwn. Mae manylion yr ardoll AGB wedi eu cynnwys yn Atodlen 1.

Hysbysiad Terfynu'r Cwmni AGB yw hysbysiad i'w gyflwyno gan y Cwmni AGB ar y Cyngor yn unol â chymal 11.8 a Rheoliad 18 y Rheoliadau.

Talwr/wyr Ardoll AGB yw'r talwyr trethi annomestig sy'n atebol i dalu'r ardoll AGB a ddisgrifir yn yr Atodlen.

Rheolau'r Ardoll AGB yw'r rheolau a osodir allan yn yr Atodlen sydd yn gosod allan sut y caiff yr Ardoll AGB ei gyfrifo, manylion Eiddo Eithriedig a gofynion eraill ynghylch yr Ardoll AGB (fel y gellir eu diwygio gan bleidlais newid lwyddiannus).

y **Cyfrif Refeniw AGB** yw'r cyfrif i'w sefydlu yn unol â Rheoliad 14 ac a redir yn unol ag Atodlen 3 y Rheoliadau.

Tymor yr AGB yw'r cyfnod o 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2021.

Hysbysiad Terfynu'r Cyngor yw'r hysbysiad a gyflwynir gan y Cyngor i'r Cwmni AGB yn unol â chymal 11.1 a Rheoliad 18 y Rheoliadau.

Cyfranwyr yw'r Talwyr Ardoll AGB neu Gyfranwyr eraill sy'n gwneud cyfraniadau gwirfoddol i'r Cwmni AGB.

Bydd gan **Hysbysiad Hawlio** yr un ystyr ag a roddir iddo fel sydd wedi ei osod allan ym mharagraffau 2 a 3 Atodlen 4 y Rheoliadau.

Bydd gan **Hereditament** yr un ystyr ag a ddiffinnir yn y Rheoliadau.

Gohebiaeth Electronig yw gohebiaeth a drosglwyddir (boed oddi wrth un unigolyn at un arall, o un ddyfais i un arall neu oddi wrth unigolyn i ddyfais neu vice versa):

- (a) trwy system delegyfathrebu (yn ystyr Deddf Telegyfathrebu 1984); neu
- (b) trwy dduilliau eraill ond ar ffurf electronig

Hysbysiad Gorfodi yw hysbysiad a gyflwynir ar y Cyngor fel y manylir yng nghymal 9.

Rheoliadau Gorfodi yw Rheoliadau Trethiant Annomestig (Casglu a Gorfodaeth)(Rhestr Lleol) 1989.

yr Eithriadau yw'r amgylchiadau lle na fydd gofyn i'r Cyngor geisio gorfodi talu'r ardoll AGB lle methodd talwr Ardoll AGB wneud taliad yn unol â Hysbysiad Hawlio. Bydd yr eithriadau fel y cytunir arnynt gan y partïon o bryd i'w gilydd.

yr **Eiddo Eithredig** yw'r dosbarth neu'r dosbarthiadau hynny o eiddo fel y'u nodwyd yn Rheolau'r Ardoll AGB Rules a fydd wedi eu heithrio naill ai o unrhyw ofynion i dalu'r ardoll AGB neu eu bod yn cael disgownt ar yr ardoll AGB.

Blwyddyn Ariannol yw'r flwyddyn ariannol i'r Cwmni AGB sy'n rhedeg o 1 Ebrill tan 31 Mawrth y flwyddyn ddilynol.

Golyga'r **Treuliau Blaenoriaeth Gyntaf** y treuliau gweinyddol a ddaeth i ran y Cyngor yng nghyswllt pob cost resymol sy'n codi o gydymffurfio â'u hymrwymadau dan y Cytundeb hwn a'r Rheoliadau yn ystod pob blwyddyn o barhad y Cytundeb hwn.

Gorchymyn Atebolrwydd yw gorchymyn a gafwyd gan y Llys Ynadon yn unol â Rheoliad 12 y Rheoliadau Gorfodi.

y **Grŵp Monitro** yw'r grŵp a sefydlir i fonitro casglu a gorfodi'r ardoll AGB (fel y cyfeiriwyd ato yng nghymal 10) a bydd y cyfryw grŵp yn cynnwys un swyddog o Gyngor Gwynedd ac un cynrychiolydd o'r Cwmni AGB.

y **Dyddiad Gweithredu** yw'r dyddiad y daw'r Trefniadau AGB i rym.

y **Cyfarfod Cyhoeddus** yw'r cyfarfod a gynhelir o'r holl Dalwyr Ardoll AGB yn unol â'r Hysbysiad Cyfarfod Cyhoeddus a Rheoliad 18 y Rheoliadau.

Hysbysiad Cyfarfod Cyhoeddus yw hysbysiad i'w gyflwyno yn unol â chymal 11.1 neu 11.8 naill ai gan y Cyngor neu'r Cwmni AGB sydd yn darparu'r canlynol:-

- (a) cadarnhad fod y naill ochr neu'r llall yn ystyried terfynu'r AGB;
- (b) manylion y lleoliad lle cynhelir y cyfarfod cyhoeddus;
- (c) cadarnhad y caniateir i'r holl Dalwyr Ardoll AGB fydd yn bresennol i wneud sylwadau

Rheoliadau yw Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005 a'r cyfryw welliannau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 48 ac Adran 58 Deddf Llywodraeth Leol 2003 (from time to time).

Hysbysiad Atgoffa yw'r hysbysiad a gyflwynir yn unol â chymal 8.1.

Hysbysiad Gwŷs yw'r hysbysiad i'w gyflwyno yn dilyn Hysbysiad Atgoffa ac yn unol â chymal 8.2.

Diwrnod Gwaith yw unrhyw ddydd o'r wythnos ar wahân i Sadwrn, Sul neu ŵyl banc.

2 Awdurdodau Statudol

- 2.1 Gwneir y Cytundeb hwn yn unol â Rhan IV o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 y Rheoliadau a'r holl bwerau galluogi eraill.

3 Cychwyniad

- 3.1 Bydd y Cytundeb hwn yn effeithiol o **XXXXXXXXXX**
- 3.2 os, ar ddiwedd y Tymor AGB y cynhelir pleidlais adnewyddu ac y bydd yn llwyddo, yna adolygir telerau'r Cytundeb hwn cyn cychwyn y Tymor AGB.

4 Gosod yr Ardoll AGB

- 4.1 Cyn gynted ag sy'n ymarferol a chyn cychwyn y tymor AGB, dylai'r Cyngor weithio allan yr ardoll AGB dyledus gan bob Talwr Ardoll AGB yn unol â'r Rheolau Ardoll AGB.
- 4.2 Cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi canlyniad y bleidlais, bydd Cyngor Gwynedd yn cadarnhau yn ysgrifenedig i'r Cwmni AGB yr ardoll AGB taladwy yn flynyddol gan bob talwr Ardoll AGB.

5 Y Cyfrif Refeniw AGB

- 5.1 Bydd taliadau llog ar arian yn y Cyfrif Refeniw AGB yn destun trefniadau bancio'r Cyngor ar adeg rhedeg y cyfrif. Telir y cyfryw log, os bydd peth, i'r Cwmni AGB fel rhan o'r Ardoll AGB.

6 Debydau o'r Cyfrif Refeniw AGB

- 6.1 Gall y Cyngor ddebydu'n uniongyrchol o'r Cyfrif Refeniw AGB:-
- (i) y Treuliau Blaenoriaeth Gyntaf ar ganol pob blwyddyn ariannol ar yr amod y rhoddwyd manylion amdanynt mewn anfoneb TAW dilys a gyflwynwyd i'r Cwmni AGB gan roi dadansoddiad manwl o'r costau ddaeth i'w rhan.

6.2 Er gwaethaf y ddarpariaeth uchod, bydd y Cwmni AGB yn gyfrifol am sicrhau y telir pob anfoneb TAW a gludir i'r Cwmni AGB, oni chaiff ei ddebydu o'r Cyfrif Refeniw AGB, ymhen 28 diwrnod o'i gyflwyno.

7 Casglu'r Ardoll AGB

7.1 Bydd y Cyngor ar ddechrau pob Blwyddyn Ariannol yn cadarnhau yn ysgrifenedig wrth y Cwmni AGB:-

- (i) y dull o anfonebu'r Talwr Ardoll AGB am yr Ardoll AGB; ac
- (ii) y dyddiad y cesglir yr Ardoll AGB am y tro cyntaf.

7.2 Yn unol â chymal 7.1(ii) bydd y Cyngor yn cyflwyno'r Hysbysiadau Hawlio i bob Talwr Ardoll AGB ac wedi hynny bydd yn parhau i gyfrifo'r Ardoll AGB a chyflwyno'r Hysbysiadau Hawlio trwy gydol Tymor yr AGB.

7.3 Bydd y Cyngor yn cynnal rhestr sydd yn nodi talu a/neu beidio talu'r Ardoll AGB ac yn peri ei fod ar gael i'r Cwmni AGB ar gyfnodau o ddim llai nac unwaith y mis.

7.4 Bydd y Cyngor yn cysylltu â'r Cwmni AGB wrth wneud adolygiadau misol o bob Hereditament yn yr Ardal AGB. Os digwydd unrhyw newid ym meddiannwr pob Hereditament neu uno neu rannu Hereditament (neu ddarparu Hereditament ychwanegol) bydd yn:

- (a) cyflwyno rhestr gyfoes o Dalwyr Ardoll AGB ar y Cwmni AGB;
- (b) cyflwyno Hysbysiad Hawlio (neu newid unrhyw Hysbysiad Hawlio presennol os yw'n briodol) ar y Talwr Ardoll AGB perthnasol.

7.5 Bydd y Cyngor yn defnyddio pob ymdrech resymol i gasglu'r Ardoll AGB ar y dyddiad a bennwyd (yn unol â chymal 7.1(ii) uchod) ac wedi hynny yn flynyddol ac yn unol â'r weithdrefn a osodir allan yn Atodlen 4 y Rheoliadau.

- 7.6 Bydd y Cyngor yn defnyddio pob ymdrech resymol i gymryd camau rhesymol i gasglu'r Ardoll AGB sy'n gyson â'u gweithdrefnau arferol am gasglu ardrethi annomestig.
- 7.7 Bydd y Cyngor yn hysbysu'r Cwmni AGB o'r symiau a gredydwyd i'r Cyfrif Refeniw AGB ac o swm y debydau awdurdodedig yn unol â chymal 6. Gwneir hysbysiadau ar ddiwrnod gwaith olaf mis Ebrill a phob ail fis wedi hynny. Wedi derbyn anfoneb briodol gan y Cwmni AGB, bydd y Cyngor yn trosglwyddo i gyfrif banc y Cwmni AGB ei hun y swm dyledus gan roi cadarnhad ysgrifenedig o'r swm a drosglwyddwyd.
- 7.8 Os digwydd i'r Cyngor ordalu mwy na £5,000 i'r AGB am gyfnod o fwy na thri mis yn olynol, bydd yr AGB yn dychwelyd y gordaliad i Gyngor Gwynedd ymhen 14 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys.

8 Gweithdrefnau sydd ar gael i'r Cyngor i orfodi talu'r Ardoll AGB

- 8.1 Os digwydd na thelir yr Ardoll AGB yn gyfan ymhen wyth diwrnod ar hugain o'r dyddiad mae'r taliad yn ddyledus, yna (yn amodol ar yr Eithriadau neu fel y cytunir fel arall rhwng y partion) bydd y Cyngor yn cyflwyno Hysbysiad Atgoffa ar y cyfryw Dalwr Ardoll AGB sy'n diffyg dalu a fydd yn gwneud y canlynol:-
- (i) nodi'r swm taladwy;
 - (ii) rhoi 14 (pedwar ar ddeg) o ddiwrnodau i'r taliad gael ei wneud;
 - (iii) cadarnhau oni dderbynnir taliad yn unol ag (ii) uchod bydd y Cyngor yn gwneud cais i'r Llys Ynadon am Orchymyn Atebolrwydd i adennill y swm nas talwyd (ynghyd â chostau). I osgoi unrhyw amheuaeth, cytunir y bydd y costau a ddyfarnwyd ac a gafwyd gan y Cyngor yn codi o wneud unrhyw Orchymyn Atebolrwydd yn ddyledus i ac yn cael eu cadw gan y Cyngor ac ni fyddant yn daladwy i'r Cwmni AGB.
- 8.2 Os na thelir yr ardoll AGB yn llawn ymhen 14 (pedwar ar ddeg) diwrnod o gyflwyno'r Hysbysiad Atgoffa yn unol â chymal 8.1 yna bydd y Cyngor yn hysbysu'r Cwmni AGB yn syth o'r cyfryw fethiant pellach i dalu (yn amodol ar yr Eithriadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan y

Cwmni AGB cyn penderfynu gwneud cais i'r Llys Ynadon am Orchymyn Atebolrwydd. Bydd y Cyngor fel rheol wedyn yn gwneud cais i'r Llys Ynadon am Orchymyn Atebolrwydd i adennill swm dyledus yr Ardoll AGB fel y caniateir gan y Rheoliadau a'r Rheoliadau Gorfodi (fel y'u diwygiwyd).

- 8.3 Os caniateir i gais y Cyngor i'r Llys Ynadon am Orchymyn Atebolrwydd bydd yn rhoi gwybod yn syth i'r Cwmni AGB. Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan y Cwmni AGB cyn dod i drefniant gorfodi talu neu roi cyfarwyddiadau adennill i'r Asiant Gorfodi. Bydd y Cyngor yn ceisio defnyddio Asiantwyr Gorfodi y mae ganddynt drefniadau gyda hwy ar yr adeg berthnasol.

9 Mekanweithiau Gorfodi am beidio casglu'r Ardoll AGB gan y Cyngor

- 9.1 Os nad yw'r Cyngor yn cymryd camau priodol i orfodi talu'r Ardoll AGB yn unol â chymal 8 uchod, bydd y Cwmni AGB yn cyflwyno'r Hysbysiad Gorfodi i'r Cyngor yn gofyn iddynt:-

- (i) gyflwyno Hysbysiad Atgoffa; neu
- (ii) Hysbysiad Atgoffa Pellach; neu
- (iii) wneud cais i Lys i gael Gorchymyn Atebolrwydd yn unol â chymal 8.3 uchod; neu
- (iv) ddod i drefniant gorfodi talu neu roi'r cyfrif i'r Asiant Gorfodi.

a bydd y Cyngor wedyn yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig o'r camau a gymerwyd i adennill yr Ardoll AGB na thalwyd.

- 9.2 Os, wedi derbyn Hysbysiad Gorfodi, y metha'r Cyngor gymryd y camau a fynnir ymhen 28 diwrnod, yna bydd y Cwmni AGB yn cyflwyno Hysbysiad Apêl i Brif Weithredwr y Cyngor. Bydd y cyfryw hysbysiad yn gwneud y canlynol:-

- (i) rhoi manylion y swm sydd yn dal heb ei dalu;
- (ii) cadarnhau y methodd y Cyngor ddefnyddio'r Mekanweithiau Gorfodi sydd ar gael iddo fel y cyfeirir atynt yn y Cytundeb hwn i adennill y swm; a

- (iii) gofyn am gyfarfod rhwng y Prif Weithredwr, swyddogion perthnasol y Cyngor a'r Cwmni AGB i gael ateb a/neu gytuno ar strategaeth i adennill y swm dyledus, a'r cyfryw gyfarfod i ddigwydd beth bynnag ddim hwyrach na 28 (wyth ar hugain) diwrnod o gyflwyno'r Hysbysiad Apêl.

10 Gweithdrefnau Cyfrifo a Monitro

10.1 O fewn 1 (un) mis o'r Dyddiad Gweithredu, bydd y Cyngor a'r Cwmni AGB yn ffurfio'r Grŵp Monitro.

10.2 Yn ychwanegol at y wybodaeth a amlinellir yn 7.4, bob mis, yn ystod Tymor yr AGB, bydd y Cyngor yn rhoi i'r Cwmni AGB ddadansoddiad o'r canlynol:-

- (i) swm yr Ardoll AGB am bob Talwr Ardoll AGB unigol;
- (ii) yr Ardoll AGB a gasglwyd yng nghyswllt pob Talwr Ardoll AGB;
- (iii) manylion (ynghyd â'r swm sydd yn dal heb ei dalu) y Talwyr Ardoll AGB hynny sydd heb dalu'r Ardoll AGB ~~yn ystod y 6 mis hynny;~~
- (iv) manylion yr Hysbysiadau Atgoffa a gyflwynwyd trwy gydol y cyfnod hwnnw; a
- (v) manylion unrhyw Orchmynion Atebolwydd a gafwyd neu y gwnaed cais amdanynt gan y Cyngor.

16.3 Bydd pob contract a chytundeb yr eir iddo neu a wneir gan Gwmni AGB yng nghyswllt y Cytundeb hwn yn gontractau neu gytundebau fel rhwng Cwmni AGB fel prif barti a'r trydydd partion ac ni fydd gan y Cyngor unrhyw ymrwymiad nac atebolrwydd danynt.

16.4 Bydd y naill ochr a'r llall yn rhyddarbed ac yn cadw wedi eu rhyddarbed yr ochr arall rhag pob cost hawliad gofyniad cam ac atebolrwydd a all ddod i'w rhan o ganlyniad i unrhyw weithred, esgeulustod neu ddiffyg gan y parti sy'n rhyddarbed, ei gyflogwyr contractwyr neu asiantwyr wrth gyflawni eu hymrwymadau dan y Cytundeb hwn.

17. Datrys Anghydfod

17.1 Os cyfyd unrhyw anghydfod neu wahaniaeth rhwng y Cyngor a'r Cwmni AGB yng nghyswllt telerau'r Cytundeb hwn neu yn codi ohonynt, yna cyfeirir yr anghydfod at Reolwyr-Gyfarwyddwyr neu Brif Swyddogion Gweithredol y Cyngor a'r Cwmni AGB neu eu cynrychiolwyr dynodedig, a fydd yn cyfarfod yn ddidwyll i geisio datrys yr anghydfod neu'r gwahaniaeth.

- 17.2 Os, wedi 28 diwrnod (neu pa gyfnod hwy y gall y partion gytuno arno) na chafodd yr anghydfod neu'r gwahaniaeth ei ddatrys yna gall y naill neu'r llall o'r Partion roi rhybudd eu bod am geisio datrys yr anghydfod trwy gyfryngu yn unol â Model Cyfryngu Enghreifftiol y Ganolfan Datrys Anghydfod ("CEDR") 2001 ("Y Weithdrefn Enghreifftiol") neu pa bynnag argraffiad diweddarach fydd mewn grym o bryd i'w gilydd.
- 17.3 Os nad yw'r Partion yn cytuno pwy ddylai'r Cyfryngwr fod, yna gall y naill barti neu'r llall ofyn i CEDR benodi un.
- 17.4 Caiff y Weithdrefn Enghreifftiol ei newid i gymryd i ystyriaeth o unrhyw ddarpariaethau perthnasol o'r Cytundeb neu unrhyw gytundeb arall y gall y partion ddod yn rhan ohono yng nghyswllt cynnal y cyfryngu.
- 17.5 Bydd y naill Barti a'r llall yn ymdrechu orau y gallant i sicrhau bod y Cyfryngu yn cychwyn o fewn ugain diwrnod gwaith o gyflwyno'r hysbysiad cyfryngu a thalu ffi'r cyfryngwr mewn cyfrannau cyfartal.
- 17.6 Bydd unrhyw gytundeb y daw'r partion iddo o ganlyniad i gyfryngu yn rhwymo'r partion, fel sydd wedi ei osod allan yn y Weithdrefn Enghreifftiol, ond os na chafodd yr anghydfod ei ddatrys trwy gyfryngu o fewn 10 diwrnod gwaith o gychwyn y cyfryngu, yna gall y naill ochr neu'r llall gychwyn camau cyfreithiol (ond nid cyn hynny).
- 17.7 Ni fydd Cymal 17 hwn yn gwahardd y naill ochr na'r llall rhag cymryd y camau hynny yng nghyswllt camau cyfreithiol fel y tybiant sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol i amddiffyn eu safle, gan gynnwys cyhoeddi neu fel arall gymryd camau i atal cyfnodau cyfyngu rhag dod i ben a gwneud cais am ryddhad interim, ond heb ei gyfyngu i hyn.

YN DYST o hyn gosododd y Cyngor ei Sêl a gweithredodd y Cwmni AGB y Cytundeb hwn fel Gweithred y diwrnod a'r flwyddyn a ysgrifennwyd gyntaf cyn hyn

Gosodwyd Sêl Gyffredin Cyngor Gwynedd at hyn ym mhresenoldeb:)

Llofnodydd Awdurdodedig

Gosodwyd Sêl Gyffredin [Y CWMNI AGB] at hyn ym mhresenoldeb:

)


Llofnodydd Awdurdodedig

Llofnodydd Awdurdodedig

DRAFT

Atodlen 1 – Ardal Map AGB

Caernarfon



Bangor



Atodlen 2 – Gwasanaethau Gwaelodlin Safonol Cyngor Gwynedd **Caernarfon / Bangor**

Manylion darpariaeth gwasanaethau Cyngor Gwynedd (CG) yn yr Ardal Gwella Busnes (AGB) arfaethedig. Gwybodaeth i'w gynnwys yn yr atodlen hon o'r cytundeb gwaelodlin ac yn adlewyrchu'r gwasanaethau safonol a ddarperir gan CG.

Mae'r gwasanaethau a lefel y gweithgareddau a nodir yn Atodlen 2 yn amodol ar ganlyniadau'r adolygiad gwariant cynhwysfawr a gynhelir ar hyn o bryd gan Gyngor Gwynedd. Gwneir unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau hyn trwy ymgynghoriad â'r AGB fel sydd wedi ei osod allan ym mhara 5.8 y cytundeb hwn

Cynhwysir mapiau'r ardal AGB arfaethedig ar derfyn y ddogfen hon. Y strydoedd a gynhwysir yn llawn neu yn rhannol yn yr ardal AGB arfaethedig lle darperir gwasanaethau yw :-

Caernarfon	Bangor
Castle Square / Y Maes	High Street / Stryd Fawr
Pool Street / Stryd Llyn	Station Road / Stryd yr Orsaf
Greengate Street / Tan y Bont	Ffordd Gwynedd
Hole in the Wall Street / Stryd Twll yn y Wal	Deiniol Road / Ffordd Deiniol
Palace Street / Stryd y Plas	Tan-y-Fynwent
Shirehall Street / Stryd y Jêl	Waterloo Road / Stryd Waterloo
Bangor Road / Stryd Bangor	Garth Road / Ffordd Garth
Pool Hill / Penllyn	Glanrafon
St Helens Road / Ffordd Santes Helen	Dean Street / Stryd y Deon
Church Lane / Lôn yr Eglwys	Ashley Road
Northgate Street / Stryd Pedwar a Chwech	Brick Street
High Street / Stryd Fawr	Mount Street
Lôn Crwyn	Plas Llwyd Terrace
North Penrallt / Penrallt Uchaf	Tan y Fynwent
Lôn Twthill	Ebenezer Place
Slate Quay / Cei Llechi	York Place
Castle Ditch / Pendeitsh	Ffordd y Ffynnon
Castle Hill / Allt y Castell	Sackville Road / Ffordd Sackville
Bridge Street / Bont Bridd	
Pool Side / Penllyn	
Bank Quay / Cei Banc	
Glan Môr / Crown Street	
Doc Fictoria	
Balaclava Road / Balaclafa	
Church Street / Stryd yr Eglwys	
Market Street / Stryd y Farchnad	
Pretoria Terrace / Rhes Pretoria	
Castle Street / Stryd y Castell	
Mill Lane / Lôn y Felin	
South Penrallt / Penrallt Isaf	
Pool Lane / Pen y Graig	
Allt Pafiliwn	

Gwasanaethau Rheoleiddio

1. Rheoli Cynllun Gwella Ffyrdd

1.1. Goruchwylio a rheoli cynlluniau gwella ffyrdd arfaethedig yn ardaloedd yr AGB.

2. Rheoli, Cynllunio a Gorfodaeth Traffig

2.1. Creu gorchmynion Rheoleiddio Traffig dros dro a pharhaol, h.y., Parcio, Cyflymder, cyfyngiadau Uchder a Phwysau a systemau unffordd a chau ffyrdd.

2.2. Rheoli cydgordio gwaith ar y Briffordd.

2.3. Sicrhau defnydd diogel a llif rhydd y briffordd, trwy drwyddedu a gorfodi.

3. Rheoli Parcio

3.1. Rheoli Meysydd Parcio ym mherchenogaeth CG neu sy'n gyfrifoldeb iddynt yn ôl polisiau sefydledig CG a deddfwriaeth a rheoliadau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys :-

Caernarfon	Bangor
- Ffordd Glan y Môr Uchaf	- Kyffin Square
- Galeri	- Minafon
- Balaclafa	- Glanrafon
- Greengate Street	- Y Canondy
- Maes Parcio Aml-lawr Penllyn	- Rhes Plas Llwyd
- Ffordd y Felin	- James Street
- Ffordd Glan y Môr Uchaf	

3.2. Gweithgareddau gorfodaeth parcio statudol a sifil yn ardal yr AGB sydd yn cynnwys gorfodaeth mewn meysydd parcio a pharcio ar y stryd. Mae swyddogion gorfodaeth traffig yn gweithio yn ddyddiol yn ardal yr AGB i orfodi rheoliadau ar gyfer pawb sy'n defnyddio'r ffyrdd.

3.3. Rheoli bolardiau rheoli traffig lle maent wedi eu gosod yn ardal yr AGB.

3.4. Rheoli cynlluniau parcio preswylwyr lle maent eisoes wedi eu sefydlu yn ardal yr AGB.

4. Trwyddedu

4.1. Yn ardal yr AGB a nodwyd, mae CG yn darparu gweithgareddau trwyddedu ynghylch y canlynol:

- Defnyddio goleuadau traffig, sgipiau a sgaffaldiau;
- Defnyddio byrddau-A, cadeiriau a byrddau mewn manau cyhoeddus
- Darparu trwyddedau am ddigwyddiadau yn ôl y gofyn yn ardal yr AGB.

5. Cludiant Cyhoeddus

5.1. Rheoli canolbwyntiau trafndiaeth yn ardal yr AGB gan gynnwys gofal, cynnal ac ymateb i fandaliaeth.

5.2. Cynnal a chyfoesi Byrddau Ymadael.

5.3. Monitro bod y ddarpariaeth cludiant cyhoeddus o ganolbwyntiau trafndiaeth yn cadw at delerau ac amodau'r contract.

5.4. Comisiynu darpariaeth cludiant cyhoeddus o ganolbwyntiau trafndiaeth.

Priffyrdd a Gwasanaethau Bwrdeistrefol

6. Glanhau Strydoedd

- 6.1. Yn y manau a gynhwysir yn yr AGB mae Cyngor Gwynedd yn glanhau strydoedd fel mater o drefn ac yn gofalu am finiau sbwriel bychain
- 6.2. Mae ardaloedd yn yr AGB wedi eu cynnwys yn y cynlluniau glanhau presennol sydd yn nodi pa mor aml y dylid glanhau er mwyn cydymffurfio a chodau ymarfer ar gyfer sbwriel a gwastraff.
- 6.3. Rhannwyd tir a reolir gan y corff dyletswydd (Cyngor Gwynedd) yn bedwar prif barth: dwysedd defnydd uchel, dwysedd defnydd canolig, dwysedd isel, ac ardaloedd gydag amgylchiadau arbennig. Mae tir wedi ei neilltuo i un o'r pedwar parth ac fe'i rheoli yn unol â hynny. Mae **Atodiad 1** (isod) yn nodi'r math o dir ym mhob categori. Nodir y parthau hyn ar fapiau ac y mae **Atodiad 1** yn rhoi gwybodaeth am yr ardal o fewn yr AGB.
- 6.4. Oriau Gweithredu - 06:00 – 18:00

Gwasanaeth Glanhau Dwys / Glanhau dan bŵer

- 6.5. Mae manau cyhoeddus yng Nghaernarfon yn cael eu glanhau yn ddwys yn flynyddol. Caiff manau cyhoeddus a phalmentydd eu glanhau dan bŵer yn ychwanegol pan gyfyd yr angen yn ardal yr AGB arfaethedig.

Graffiti

- 6.6. Eiddo a reolir gan Gyngor Gwynedd neu yn eu meddiant – bydd Cyngor Gwynedd yn symud graffiti gan gynnwys deunydd tramgwyddus neu hiliol o adeiladau yn eu meddiant neu dan eu rheolaeth.
- 6.7. Eiddo preifat – Bydd Cyngor Gwynedd yn cyngori ac yn helpu perchenogion eiddo ynghylch symud graffiti o eiddo preifat. Lle bo hynny'n gymwys, mae modd darparu gwasanaeth symud ar amodau y cytunir arnynt ac os adenillir costau a ddaw'n rhesymol i'w rhan.

7. Cyfleusterau Cyhoeddus

- 7.1. 3 Y prif gyfleusterau cyhoeddus sydd yng Nghaernarfon :-

Lleoliad

Yr Empire, Ffordd Glan y Môr *
Allt y Castell
Penllyn *

Oriau Agor

9am – 6pm
6am – 7pm
7am – 7pm (gaeaf)
6am – 7pm (haf)

*mae'r toiledau hyn yn codi 20p ar hyn o bryd

- 2 Prif gyfleusterau cyhoeddus ym **Mangor** yn ardal yr AGB @-

Lleoliad

Tan y Fynwent
Glanrafon

Oriau Agor

7am – 7pm
8am – 6pm

- 7.2. Mae gan gyfleusterau cyhoeddus yng Nghaernarfon/Bangor dîm unswydd sy'n gyfrifol am gynnal a glanweithdra'r cyfleusterau trwy gydol y dydd.

8. Caeau chwarae – Caernarfon yn unig

- 8.1. Mae caeau chwarae sydd yn cael eu cynnal yn yr AGB yn Stryd Pedwar a Chwech
- 8.2. Cânt eu harchwilio unwaith y mis i nodi unrhyw risgiau newydd neu ychwanegol ac i gynnal safonau iechyd a diogelwch yn y cae chwarae. Mae gwaith gofal a thrwsio yn cael ei wneud lle bo angen

9. Torri Gwair a Thrin Gerddi

- 9.1. Yn yr AGB mae gwaith cynnal gwair yn cael ei wneud fel a ganlyn :-
 - Safon uchel
 - Safon ganolig
 - Ger ardaloedd 30mya
- 9.2. **Caernarfon** – gwely blodau ger y gylchfan a ger yr orsaf fysus. Mae'r manau a nodir yn cael gwaith cynnal ar gyfartaledd bob 10 – 14 diwrnod, ond mae hyn yn dibynnu i raddau ar yr amodau tyfu, e.e., gallwn dorri'n amlach yn ystod cyfnodau o dyfu cyflym, neu wneud llai yn ystod cyfnodau sych.

Bangor – Gerddi'r Beibl. Mae'r manau a nodir yn cael gwaith cynnal ar gyfartaledd bob 10 – 14 diwrnod, ond mae hyn yn dibynnu i raddau ar yr amodau tyfu, e.e., gallwn dorri'n amlach yn ystod cyfnodau o dyfu cyflym, neu wneud llai yn ystod cyfnodau sych.
- 9.3. Bydd llwyni yn cael eu tocio/siapio ddwywaith y flwyddyn fel arfer. Bydd gwaith tocio ychwanegol yn cael ei wneud yn ôl y galw er mwyn diogelwch.
- 9.4. Mae gwair yn cael ei dorri trwy ddefnyddio mathau gwahanol o beiriannau yn dibynnu ar rwyddineb mynediad, e.e., defnyddir peiriannau lladd gwair wrth gerdded mewn manau llai ar hyd **Lord Street** etc, tra bod manau mwy a pharciau yn cael eu torri trwy ddefnyddio peiriannau lladd gwair sy'n cael eu llywio fel ceir ac unedau cylchdro ar dractorau. Mae **Atodiad 1** yn nodi'r manau a'r drefn o dorri - **Caernarfon**
- 9.5. Mae gwair yn cael ei dorri trwy ddefnyddio mathau gwahanol o beiriannau yn dibynnu ar rwyddineb mynediad, e.e., defnyddir peiriannau lladd gwair wrth gerdded mewn manau llai, tra bod manau mwy a pharciau yn cael eu torri trwy ddefnyddio peiriannau lladd gwair sy'n cael eu llywio fel ceir ac unedau cylchdro ar dractorau. Mae **Atodiad 1** yn nodi'r manau a'r drefn o dorri - **Bangor**

10. Cyflwr y briffordd ac archwiliadau

- 10.1. Archwiliadau Priffyrdd – Bwriad archwiliadau diogelwch yw nodi pob diffyg sy'n debyg o achosi perygl neu anghyfleustra difrifol i ddefnyddwyr y rhwydwaith neu'r gymuned yn ehangach. Nodir amlder archwiliadau yn **Atodiad 1** ac y maent yn seiliedig ar gategori'r gerbydlon
- 10.2. Diffyg Categori 1– Lle mae angen sylw ar frys oherwydd bod y diffyg yn berygl yn syth neu ar ddigwydd. Diogelu neu drwsio o fewn 24 awr. Mae lefel uchel o ymateb ymhen 2 awr hefyd ar gael lle tybir bod diffygion yn peri risg arbennig o uchel.
- 10.3. Diffyg Categori 2– Lle nad yw'r diffyg yn berygl yn syth neu'n debyg o ddigwydd. Trwsio yn ystod y rhaglen nesaf fydd ar gael (risg bychan)

11. Cynnal ac Archwilio Goleuadau Stryd

Math o weithgaredd	Gweithgaredd	Safon Adrannol	Safonau Cod Ymarfer
Ymatebol	Amser ymateb i drin diffygion Categori 1, niwed i'r unedau gan wynt, difrod gan drawiad a gwifriad agored.	Trin neu wneud yn saff diffygion Categori 1 - sylw mewn argyfwng mewn 2 awr os yw'n bosib.	1 diwrnod gwaith mewn argyfwng. 5 diwrnod gwaith ddim mewn argyfwng.
Ataliol	Newid Lampau	Newid unigol os yw'n methu	Llosgi i ddifodiant, amnewid lampau tan iddynt fethu. Newid lampau mewn grŵp yn ddibynnol ar y math.
	Llusern – mewnol ag allanol	Archwiliad gweledol yn flynyddol ac yn fanwl fel yr angen.	Chydymffurfio gyda'r amnewid lampau mewn grŵp.
	Peintio colofnau	Fel yr angen	Fel yr angen o'n ddim hirach nag 10 mlynedd.
	Profion Strwythurol.	Archwilio gweledol blynyddol ond asesu os oes angen profion strwythurol ar ôl 10 mlynedd.	Archwilio gweledol gyda bob ymweliad cynnal a chadw ac yn unol â'r adroddiad ILE Rhif 22
Monitro Cyflwr	Golau wedi methu neu rwystrau o ddeiliant, llystyfiant neu bosteri anghyfreithlon.	Patrôl sgowntio yn y nos bob 4 wythnos. Ymateb i adroddiadau 3ydd parti.	Patrôl bob 14 diwrnod calendar a gallai fod hirach yn yr haf.
	Archwiliadau a phrofion trydanol	Wedi'i amserlenni mewn trefn gylchredol mewn cyfnod am o leiaf 6 mlynedd neu ymweliad trin	Mewn cyfnod o ddim mwy na 6mlynedd.

12. Rheolaeth asedau manau cyhoeddus.

- 12.1. Mae asedau manau cyhoeddus yn derbyn archwiliadau ffurfiol rheolaidd yn bennaf ar gyfer pwrpas rheolaeth risg ac i adnabod gwaith cynnal a chadw ymatebol angenrheidiol. Gallai asedau manau cyhoeddus cynnwys - meinciau, bolardiau, cerfluniau, ffynhonnau, biniau, coed ayyb. Mae amllder archwiliadau yn ddibynnol ar werthusiadau risg ag anghenion rheolaeth yr ased. Gallai archwiliadau cael i'w cynnal yn fisol, chwarterol, 6misol neu'n flynyddol. Bu hefyd cynnal archwiliadau cyflwr wrth ymateb i adroddiadau o ddifrod neu achos penodol. Gallai adolygu amllder archwiliadau wrth ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau.

Ardal AGB arfaethedig gyfredol

Caernarfon




Bangor





STRYD/STREET	PARTH/ZONE	DWYSEDD/INTENSITY
		UCHEL/HIGH
		CANOLIG/MEDIUM
		ISEL/LOW



ADRODDIAD I'R CABINET

14 Gorffennaf 2015

Aelod Cabinet: *Cyng. Mandy Williams-Davies*

Pwnc: *Strategaeth Caffael 2015*

Swyddog cyswllt: *Arwel Evans / Arwel Ellis Jones*

1.Y penderfyniad a geisir

1.1 Gwahoddir y Cabinet fabwysiadu'r strategaeth yn amodol ar argymhellion i'w adolygu ym mharagraff 3.1 (a) hyd at 3.1 (d)

2.Ystyriaethau perthnasol

2.1 Roedd Strategaeth Caffael flaenorol ar gyfer y cyfnod 2008-2011. Yn sgil y Cynllun Strategol 2013-17 ac argymhellion y prawf ffitrwydd caffael cenedlaethol mae angen diweddarau'r strategaeth i gyfarch amcanion cyfredol caffael y Cyngor.

2.2 Cafodd Strategaeth Caffael 2015 ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar y 11eg o Fehefin.

2.3 Dyma grynodeb o brif sylwadau'r Pwyllgor:

- a) *Angen esboniad o'r swm £185m (Ddim cynnwys cyflogaeth swyddogion a chostau darpariaeth gwasanaeth mewnol ayb).*
- b) *Y Pwyllgor yn dymuno bod Cynghorau yn mesur 'gwariant lleol' yn gyfartal.*
- c) *Y Pwyllgor eisiau diweddariad gyda'r cynnydd mewnosod cynnwys y strategaeth caffael.*
- ch) *Y Pwyllgor yn dymuno bod mwy o bwyslais ar yr Iaith Gymraeg, gan awgrymu bod trefn yn ddogfen yn cael ei addasu i ddod a'r pennawd perthnasol i dublaen y ddogfen.*

d) Y Pwyllgor yn cydnabod bod graddfa'r trawsnewid yn sylweddol a bod angen hyfforddi swyddogion y Cyngor. Bu awgrym hefyd i Gynghorau Tref a Chynghorau Cymunedol bod yn ymwybodol o'r newidiadau.

dd) Yr angen i ddarparu arweiniad yn y maes caffael i Gynghorau Tref a Chymuned oherwydd y gallent fod yn cymryd rhai o wasanaethau'r Cyngor drosodd.

3.Argymellion

3.1 Argymhellir i'r Cabinet bod y newidiadau canlynol yn cael eu cyflwyno:

a) *Angen esboniad o'r swm £185m (Ddim cynnwys cyflogaeth swyddogion a chostau darpariaeth gwasanaeth mewnol ayb).*

Cynnwys troednodyn yn esbonio'r swm gwariant o £185m 'Cyfanswm o wariant y Cyngor gyda darparwyr allanol o gyllidebau refeniw, cyfalaf a grantiau. Nid yw'r swm yn cynnwys costau cyflogaeth swyddogion mewnol y Cyngor na unrhyw wasanaeth sydd yn cael ei ddarparu'n fewnol. Mae'r swm yn ddadansoddiad o holl anfonebau mae'r Cyngor yn prosesu o fewn y flwyddyn ariannol berthnasol'

b) *Y Pwyllgor yn dymuno bod Cynghorau yn mesur 'gwariant lleol' yn gyfartal.*

Nid oes trefn neu ddiffiniad safonol ar gyfer mesur gwariant lleol ar draws Gynghorau Cymru. Rydym yn draddodiadol wedi defnyddio cod post pencadlys cwmnïau fel trefn adrodd. O waith ymchwilio i drefniadau mesur rydym wedi adnabod bod Cynghorau eraill yn ail asesu'r diffiniad lleol ble mae'n amlwg bod canghennau o fewn y Sir neu gyflogaeth i bobl leol. Rydym yn argymhell ein bod yn adrodd ar fesur traddodiadol a drwy drefn newydd uchod gan sicrhau cymhariaeth o'r run drefn mesur flaenorol.

c) *Y Pwyllgor eisïau diweddariad gyda'r cynnydd mewnosod cynnwys y strategaeth caffael.*

Argymellir ein bod yn diweddarau'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn flynyddol.

ch) Y Pwyllgor yn dymuno bod mwy o bwyslais ar yr Iaith Gymraeg, gan awgrymu bod trefn yn ddogfen yn cael ei addasu i ddod a'r pennawd perthnasol i dublaen y ddogfen.

Argymhell ein bod yn newid trefn y papur i ddod a'r pennawd perthnasol i dublaen y ddogfen.

d) Y Pwyllgor yn cydnabod bod graddfa'r trawsnewid yn sylweddol a bod angen hyfforddi swyddogion y Cyngor. Bu awgrym hefyd i Gynghorau Tref a Chynghorau Cymunedol bod yn ymwybodol o'r newidiadau.

Nodwyd yn y cyfarfod bod swm o £200,000 wedi clustnodi fel rhan o Gynllun Strategol Cadw'r Budd yn Lleol i drawsnewid trefniadau caffael i rai sydd yn seiliedig ar reolaeth categori. Rydym yn argymhell bod pecyn gwaith yn cael ei nodi ar gynlluniau'r prosiect i ymgysylltu a'r Gynghorau Cymunedol i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau perthnasol.

dd) Yr angen i ddarparu arweiniad yn y maes caffael i Gynghorau Tref a Chymuned oherwydd y gallent fod yn cymryd rhai o wasanaethau'r Cyngor drosodd

Ni fwriedi ddiwygio'r Strategaeth mewn ymateb i'r sylw hyn. Yn amlwg bydd unrhyw Gyngor sydd yn cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau yn wynebu gofynion caffael ar gyfer y gwasanaeth hynny. Bydd rhaid i hyn fod yn glir wrth i'r cyfrifoldeb am unrhyw wasanaeth drosglwyddo.

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:

“Mae'r Strategaeth ddiwygiedig hon yn un pwysig gan bod gweithredu arni wrthi a dau o brif flaenoriaethau'r Cyngor, sef Cadw'r Budd yn Lleol a sicrhau Gwerth am Arian. Mae'r cynigion ynddi ar symud i drefn rheolaeth categori yn eithriadol o bwysig er mwyn gwireddu'r blaenoriaethau hyn ac rwy'n ei chymeradwyo i sylw'r Cabinet.”

Y Swyddog Monitro:

“Mae’r strategaeth arfaethedig yn sefydlu’r egwyddorion â’r gyfundrefn weithredol ar gyfer y Cyngor er caffael nwyddau , gwasanethau a gwaith o’r farchnad. Gosodir amcanion a fframwaith briodol ar gyfer y maes pwysig yma ac rwy’n fodlon gyda priodoldeb y strategaeth.”

Y Pennaeth Cyllid:

“Bydd yn gryn her i’r Cyngor sicrhau arbedion sylweddol o brynu cyflenwadau yn rhatach, tra hefyd yn ‘Cadw’r Budd yn Lleol’. Fodd bynnag, cadarnhaf fod y Cyngor wedi gwario dros £185m ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau a ddarparwyd gan sefydliadau allanol. Felly, diau fod cyfleon sydd angen sylw ac ystyriaeth briodol, yn unol â’r Strategaeth Caffael.”

Tabl cynnwys

1. **Cyflwyniad**
 - 1.1 Caffael yng Ngwynedd
 - 1.2 Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

2. **Buddion Lleol o Wariant ar Gaffael**
 - 2.1 Rheolaeth categori
 - 2.2 Ymgysylltu gyda Chyflenwyr Lleol
 - 2.3 Caffael cynaliadwy a buddion lleol
 - 2.4 Datblygu sgiliau, gallu a chapasiti i gaffael
 - 2.5 Llywodraethu a chyfrifoldebau

3. **Arbedion Caffael ac Arbedion Effeithlonrwydd**
 - 3.1 Cyfyngiadau ariannol
 - 3.2 Gwerth am arian
 - 3.3 Caffael electronig ac arbedion effeithlonrwydd

4. **Dyheadau caffael ehangach**
 - 4.1 Caffael ar y Cyd
 - 4.2 Y Polisi Iaith Gymraeg
 - 4.3 Mentrau Cymdeithasol a'r Trydydd Sector
 - 4.4 Cydymffurfiaeth a gweithdrefnau

5. **Y Prif Ymrwymadau Caffael**
 - 5.1 Beth ydym eisiau ei gyflawni?

Rhagair gan yr Aelod Cabinet Caffael a'r Economi

Croeso i Strategaeth Gaffael y Cyngor. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer caffael ac yn dangos sut mae caffael wedi cyfrannu a sut all gyfrannu ymhellach at nodau'r Cyngor dros dymor cyfredol y Cabinet. Mae'r strategaeth hon yn dwyn ynghyd flaenoriaethau lleol ac argymhellion Llywodraeth Cymru ar gyfer comisiynu a chaffael yn y sector cyhoeddus.

Yn ystod 2013/14 fe wnaeth y Cyngor wario dros £185 miliwn ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau a ddarparwyd gan sefydliadau allanol, ac mae dyletswydd arnom i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau bosib i gwrdd ag anghenion ein dinasyddion ac i gyrraedd ein hamcanion strategol ehangach.

Ein prif flaenoriaethau caffael ac economaidd yw:

- Cadw'r budd yn lleol, sy'n cynnwys cryfhau gwytnwch busnesau o fewn y sir a chadw budd economaidd lleol
- Gwella ein gallu i gaffael a'n canlyniadau
- Defnyddio caffael i gwrdd â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor a darparu gwasanaethau'n effeithiol i bobl Gwynedd

Fel yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am gaffael, rwy'n cydnabod fod caffael effeithiol yn allweddol er mwyn cyflawni ein nodau a'n hamcanion. Gall ymagwedd strategol tuag at gaffael ddod â buddion sylweddol i'r Cyngor, i bobl leol ac i'r gymuned leol.

Datblygwyd y weledigaeth hon, y cyfeiriad a'r blaenoriaethau allweddol sydd wedi'u hamlinellu yn dilyn ymgynghori gyda budd-ddeiliaid. Nid fydd strategaeth ar ei phen ei hun yn arwain at gaffael yn effeithiol. Yr elfennau pwysicaf er mwyn i gaffael lwyddo yw ymrwymiad gan uwch reolwyr a bod y strategaeth yn cael ei defnyddio trwy'r Cyngor cyfan.

Mandy Williams-Davies

Aelod Cabinet

1. Cyflwyniad

1.1 *Caffael yng Ngwynedd*

1.1.1 Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor drefniant caffael sydd wedi'i ddatganoli, lle mae'r Gwasanaethau'n gyfrifol am gomisiynu a chaffael nwyddau a gwasanaethau.

1.1.2 Mae gennym Uned Caffael Corfforaethol a'i rôl yw monitro a gwella canlyniadau caffael y Cyngor. Mae'r Uned Caffael Corfforaethol yn mesur ac yn adrodd ar berfformiad y Gwasanaethau, ac yn ceisio gwella caffael trwy wella prosesau mewnol a dealltwriaeth ynglŷn â chaffael ar draws y Cyngor.

1.1.3 Trwy gaffael a chomisiynu'n effeithiol mae'r Cyngor yn sicrhau nwyddau a gwasanaethau mewn modd cynaliadwy sy'n sicrhau gwerth am arian i bobl Gwynedd.

1.2 *Yr hyn rydym wedi'i gyflawni*

1.2.1 Mae caffael wedi cyfrannu'n sylweddol i'r gymuned leol. Mae'r rhestr isod yn nodi rhai o'n llwyddiannau yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Gaffael 2008-2011:

- Gweithredu'r Polisi Caffael Cynaliadwy a chraffu'r Polisi ymhellach yn llwyddiannus.
- Gwireddu Buddion Cymunedol mewn nifer o brosiectau caffael ar raddfa fawr.
- Rydym wedi cydweithio gydag awdurdodau cyfagos ar amryw o brosiectau trawsffurfio a gwella caffael.
- Fe wnaethom greu a sefydlu contractau cydweithio a chytundebau fframwaith trwy weithio gyda phartneriaid ar draws Gogledd Cymru.
- Gweithredu amryw o declynnau e-Gaffael megis Systemau Prynu i Dalu (*Purchase to Pay*) cwbl integredig ac e-dendro cyfres o declynnau.
- Rydym wedi gwireddu arbedion caffael ac wedi sicrhau gwerth am arian trwy ein gweithgareddau caffael a'n prosesau caffael electronig.
- Rydym yn adrodd yn rheolaidd ar ein perfformiad caffael ac yn gwerthuso gwariant lleol.
- Rydym wedi datblygu gallu a sgiliau caffael ein Huned Caffael Corfforaethol ac aelodau staff trwy'r holl Wasanaethau sy'n ymgymryd â gweithgareddau caffael.
- Rydym wedi ymgysylltu â'r Trydydd Sector trwy Fforwm Mentrau Cymdeithasol ac wedi datblygu Teclyn Mentrau Cymdeithasol.
- Rydym wedi creu Fframwaith Caffael Mentrau Cymdeithasol er mwyn gweithio gyda'r Trydydd Sector a chawn ein hadnabod fel Sir Mentrau Cymdeithasol gan Social Enterprise UK.

Mae enghreifftiau o'r buddion hyn yn cynnwys:

- Prentisiaethau a phrofiad gwaith fel rhan o raglenni cyfalaf mawr megis Ysgol yr Hendre, Cynllun Adfywio Blaenau Ffestiniog a phrosiectau adeiladu eraill.
- Enwebiad am Wobr Genedlaethol am weithredu e-Gaffael yn ysgolion Gwynedd.

- Arbedion ariannol o £200,000 trwy occiwn electronig llwyddiannus ar gyfer contractau cludiant cyhoeddus.

2. **Buddion Lleol o Wariant ar Gaffael**

2.1 *Rheolaeth categori*

2.1.1 Mae'r Cyngor yn dymuno sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf posib o gaffael a chomisiynu nwyddau a gwasanaethau.

2.1.2 Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'i weithgareddau caffael a thrwy weithdai, ymgynghori â gwasanaethau ac adolygiadau allanol, mae wedi adnabod rhai meysydd allweddol i'w gwella. Dymuna'r Cyngor fynd i'r afael â'r diffygion hyn trwy fabwysiadu egwyddorion Rheolaeth Categori.

2.1.3 Mae Rheolaeth Categori yn ymagwedd strategol at gaffael a chomisiynu sy'n trefnu adnoddau caffael i ganolbwyntio ar gategoriâu gwariant penodol. Mae hyn yn wahanol i'r trefniant presennol lle mae'r gwasanaethau eu hunain yn prynu nwyddau a gwasanaethau. Mae edrych ar gaffael yn strategol yn rhoi mwy o bwyslais ar gynnal dadansoddiad trylwyr o'r farchnad a mwy o gydweithio rhwng comisiynwyr a chaffaelwyr. Gyda rolau a chyfrifoldebau penodol i ymgymryd â thasgau penodol, gall y timau comisiynu a chaffael ennyn gwell canlyniadau wrth brynu trwy egwyddorion rheolaeth categori o gymharu â dulliau caffael traddodiadol sy'n canolbwyntio ar y gwasanaeth.

2.1.4 Credwn y gall y dull caffael hwn gyflawni gwell arbedion effeithlonrwydd yn y maes caffael, a chynyddu'r budd lleol ar yr un pryd.

2.2 *Ymgysylltu gyda Chyflenwyr Lleol*

2.2.1 Fel y soniwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi adnabod datblygu'r economi lleol fel un o'i allbynnau strategol allweddol dros dymor y Cabinet cyfredol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall ei wariant gyda darparwyr allanol gael effaith sylweddol ar yr economi lleol ac mae'n dymuno cael y buddion mwyaf posib i'r economi lleol o'r gwariant hwn.

2.2.2 Mae'r Cyngor wedi adnabod mesurau perfformiad allweddol er mwyn cynyddu'r budd lleol, ac maent yn cynnwys:

- Cynyddu'r gwariant gyda darparwyr allanol o swm 2013/14 o 40%
- Diogelu a chreu cyfleoedd gwaith o ganlyniad i wariant y Cyngor gyda darparwyr allanol
- Cynyddu'r defnydd o gymalau cymdeithasol mewn prosiectau caffael mawr i fod o fudd i'r gymuned leol

2.2.3 Creda'r Cyngor y gall ymagwedd gyson at gaffael trwy Rheolaeth Categori wella gallu cyflenwyr lleol i gystadlu am ei gontractau. Yn yr un modd, gall arferion tryloyw a chyhoeddi blaen raglen gaffael arfaethedig y Cyngor baratoi'r farchnad leol yn well i allu cystadlu am gontractau newydd.

2.2.4 Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor gofrestr contractau a blaen raglen gaffael sy'n cael eu rheoli'n ganolog, fodd bynnag, mae angen gwella pa mor gyflawn yw'r gofrestr hon, a dim ond trwy ymgysylltu'n ehangach ar draws y Cyngor y gellir gwneud hynny.

2.3 *Caffael cynaliadwy a buddion lleol*

2.3.1 Fe wnaeth y Cyngor weithredu Polisi a chanllaw Caffael Cynaliadwy yn 2011. Nod hyn oedd sicrhau bod Gwasanaethau yn ymgymryd â gweithgareddau caffael mewn modd cyfrifol a chynaliadwy. Mae'r Polisi yn anelu i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posib o wariant y Cyngor o ran gwella'r budd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn y Sir.

2.3.2 Mae amcanion y Polisi Caffael Cynaliadwy fel a ganlyn:

- Lleihau ein heffaith amgylcheddol i'r eithaf trwy ddethol a defnyddio nwyddau, gwaith a gwasanaethau yn well.
- Sicrhau y caiff gweithgareddau caffael eu cyflawni mewn modd sy'n annog yr holl gyflenwyr, gan gynnwys mentrau bach a chanolig, i fidio am gontractau'r Cyngor;
- Creu amgylchedd sy'n darparu cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r buddion sy'n deillio o gynnwys a defnyddio meini prawf cymdeithasol mewn gweithgareddau caffael.
- Sicrhau bod asesiadau gwerth am arian yn seiliedig ar y gost oes gyfan, ac nid y pris prynu cychwynnol yn unig, pan fo hynny'n bosib.

2.3.3 Mae'r canllaw, sy'n cynnwys Rhestr Wirio Caffael Cynaliadwy a Theclyn Caffael Cynaliadwy, yn helpu defnyddwyr i ystyried y ffactorau y soniwyd amdanynt wrth ddylunio eu dull caffael.

2.3.4 Mae'r Cyngor yn credu fod ymagwedd gynaliadwy at gaffael yn hollbwysig er mwyn sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf posib yn lleol o wariant gyda darparwyr allanol, a bydd yr ymagwedd hon yn cael effaith gadarnhaol am amser maith ar ein cymunedau.

2.4 *Datblygu sgiliau, gallu a chapasiti i gaffael*

2.4.1 Ar hyn o bryd mae nifer o staff y Cyngor yn ymgymryd ag amryw o agweddau comisiynu a chaffael, boed hynny'n cynnwys adnabod anghenion busnes, cyhoeddi dogfennau tendr neu reoli contractau.

2.4.2 Mae amllder a gallu'r staff i wneud y tasgau hyn yn amrywio trwy'r Cyngor, ac o dan egwyddorion Rheolaeth Categori, bydd y Cyngor yn ceisio cydlynu'r gweithgaredd hwn yn well. Trwy roi rolau a chyfrifoldebau clir i unigolion o ran caffael a chomisiynu, disgwyliwn weld gwelliant yn ein canlyniadau caffael a chanlyniadau'r gwasanaeth.

2.4.3 Ar hyn o bryd, fel rhan o Fatrics Hyfforddiant Corfforaethol y Cyngor, mae yna gwrs hyfforddiant caffael safonol a chwrs caffael arall uwch. Bydd y Cyngor yn gobeithio gweithredu Fframwaith Cymhwysedd Caffael i sicrhau bod unigolion sydd ynghlwm â phrosesau comisiynu a

chaffael yn fedrus ac yn cael digon o gefnogaeth i ymgymryd â gweithgareddau caffael strategol a gweithredol.

2.4.4 Trwy gefnogaeth a hyfforddiant Rheolaeth Categori arbenigol gallwn wella ein gallu i gyflawni gwell canlyniadau caffael a chanlyniadau i'r gwasanaeth, a fydd o fudd i drigolion Gwynedd.

2.4.5 Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y newid trawsffurfiol hwn yn anferth a bydd yn defnyddio dull graddol wrth weithredu unrhyw newid.

2.5 *Llywodraethu a chyfrifoldebau*

2.5.1 Er mwyn i Reolaeth Categori gael ei fabwysiadu'n effeithiol ar draws y Cyngor, mae'n rhaid cael trefniadau llywodraethu a chyfrifoldeb clir.

2.5.2 Fel rhan o weithredu'r drefn Rheolaeth Categori, bydd y Timau Categori a benodir yn gyfrifol am gyflwyno caffael ar draws categorïau gwariant sydd wedi'u cytuno. Bydd hyn yn cynnwys paratoi cynlluniau categori a chynlluniau caffael, ac mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth perthnasol a'r Rheolwr Caffael Corfforaethol gytuno arnynt. Bydd y cynlluniau caffael hyn yn rhoi sylw i anghenion y Gwasanaeth, unrhyw dargedau effeithlonrwydd a adnabuwyd a sut y bydd y dull caffael o fudd i'r gymuned leol.

2.5.3 Bydd y Timau Categori yn cael eu rheoli gan y Gwasanaethau, ond bydd angen iddynt adrodd yn broffesiynol i'r Rheolwr Caffael Corfforaethol ar eu canlyniadau a'u perfformiad caffael.

2.5.4 Er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau caffael eu monitro gan Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor, bydd perfformiad caffael yn cael ei adrodd yn y Panel Cyflawni perthnasol a fydd yn cynnwys Pennaeth Gwasanaeth y categori perthnasol a'r Aelod Cabinet.

2.5.5 Bydd yr Arweinyddion Categori a'r Rheolwr Caffael Corfforaethol yn gyfrifol am adrodd am y canlyniadau caffael cyffredinol i'r Aelod Cabinet ar gyfer Caffael a'r Economi.

3. **Arbedion Caffael ac Arbedion Effeithlonrwydd**

3.1 *Yr her ariannol*

3.1.1 O ganlyniad i benderfyniad y Llywodraeth ac wedi hynny penderfyniad Llywodraeth Cymru i gwtogi cyllidebau Awdurdodau Lleol trwy Gymru, mae'r Cyngor yn wynebu diffyg cyllidebol o thua £34m rhwng 2015/16 a 2017/18.

3.1.2 Fel rydym eisoes wedi'i brofi yn lleol, gall caffael yn well arwain at arbedion ariannol a chyfrannu'n sylweddol at gwrdd â'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Er mwyn meintioli cyfraniad caffael yn llawn, mae'n rhaid i ni fabwysiadu dull sy'n gallu monitro'n fanwl gywir yr arbedion effeithlonrwydd nad ydynt ar ffurf arian parod, arbedion arian parod a'r budd cymunedol.

3.1.3 Wrth ddefnyddio'r dull Rheolaeth Categori i gaffael, mae'n rhaid i bob cynllun categori ymgorffori targed arbedion neu darged osgoi costau, gan gytuno ar darged penodol a'i fonitro er mwyn cyfrifo ei effaith.

3.1.4 Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Cynllun Arbedion Caffael Corfforaethol. Bydd gofyn i'r Cyngor fonitro arbedion caffael a sicrhau bod pob dull o gaffael yn gwneud y mwyaf o'r cyfle i wireddu arbedion a fydd o fudd i bobl Gwynedd.

3.1.5 Yn yr un modd mae'n rhaid i bob cynllun categori ystyried buddion cymunedol posib yn unol â'r Polisi Caffael Cynaliadwy.

3.2 *Gwerth am arian*

3.2.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei holl weithgareddau caffael, pan fydd yn prynu nwyddau a gwasanaethau neu waith, yn rhoi gwerth am arian. Fel rhan o Bolisi Caffael Cynaliadwy y Cyngor, bydd yn ystyried cost oes gyfan unrhyw gaffaeliad ac yn sicrhau nad yw unrhyw weithgaredd caffael yn cael effaith andwyol ar ddinasyddion Gwynedd heddiw nac yfory.

3.2.2 Pan fyddo'n briodol bydd y Cyngor hefyd yn adolygu'r ddarpariaeth fewnol o gyflwyno nwyddau a gwasanaethau er mwyn sicrhau mai dyma'r model gorau o ddarparu gwasanaeth.

3.3 *Caffael electronig ac arbedion effeithlonrwydd*

3.3.1 Bydd y Cyngor yn ymdrechu'n barhaus i wella ei brosesau caffael a phrynu er mwyn sicrhau eu bod mor effeithlon ac effeithiol â phosib. Byddwn felly'n cynnal Rhaglen e-Gaffael i adolygu ein holl drefniadau tendro a phrynu. Trwy fabwysiadu teclynnau electronig, bydd y Rhaglen e-Gaffael yn ceisio moderneiddio'r holl gyhoeddiadau am gyfleoedd tendro a'r modd y caiff archebion ac anfonebau am daliadau eu prosesu.

3.3.2 Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd yn cwrdd â gofynion electronig Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2014 sy'n gofyn i gyfleoedd tendro fod ar gael yn electronig erbyn y dyddiad a osodwyd.

3.3.3 Mae'r modd y mae Gwasanaethau'n rhyngweithio â gwahanol gyflenwyr a marchnadoedd yn gymhleth iawn, felly mae'n bosib y byddwn yn ceisio mabwysiadu cyfres o declynnau i fedru masnachu'n electronig. Bydd y Rhaglen e-Gaffael yn adnabod y dull electronig mwyaf effeithiol ac effeithlon ac yn monitro'r defnydd o'r dull y cytunir arno. Bydd pob Gwasanaeth yn cytuno ar ddull penodol o gaffael yn electronig gan adnabod sut y bydd yn prosesu ei gyfleoedd tendro ac yn prosesu archebion ac anfonebau.

3.3.4 Er mwyn i'r Cyngor allu hysbysu'r farchnad leol am gyfleoedd tendro fydd ar y gweill yn fuan a defnyddio'r dull Rheolaeth Categori wrth gaffael, bydd y Cyngor yn gweithredu proses electronig o reoli contractau. Bydd y Rhaglen Rheoli e-Contractau yn atgoffa'r Gwasanaethau am ddyddiadau adnewyddu contractau er mwyn paratoi'r Cyngor a'r farchnad leol yn dda at ymarferion caffael sydd i ddod. Yn yr un modd, er mwyn i'r Cyngor fabwysiadu dull mwy strategol o gaffael, bydd y Cyngor yn ceisio integreiddio'r holl gyfeirnodau contract gyda phrosesau cyllidebu ariannol presennol y Cyngor.

3.3.5 Bydd cadw gwell golwg ar wariant caffael yn galluogi Gwasanaethau a'r Timau Categori i wneud penderfyniadau mwy deallus ynglŷn â'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i gyflwyno gwasanaethau i bobl Gwynedd. Hefyd, bydd prosesau caffael hygyrch a thryloyw yn ei gwneud yn haws i'r economi lleol fod yn ymwybodol o gyfleoedd contractio.

4. Dyheadau caffael ehangach

4.1 *Caffael ar y Cyd*

4.1.1 Bydd y Cyngor yn ceisio cydweithio gydag Awdurdodau a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru os bydd hynny o fudd i bobl Gwynedd. Gallai hynny gynnwys rhannu arfer orau a chyfnewid profiadau er mwyn adnabod a datblygu gwell ffyrdd o gaffael.

4.1.2 Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried cydweithio gydag eraill i gronni'r galw am nwyddau a gwasanaethau, oherwydd gallai hynny arwain at brisiau gwell a hefyd lleihau'r ymdrech sydd ei angen o ran caffael.

4.1.3 Yn dilyn sefydlu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, sefydlwyd fframweithiau cydweithio. Bydd y Cyngor yn ymgysylltu'n frwd â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac yn gwneud y defnydd gorau o'r fframwaith cydweithio sydd ar gael. Wrth benderfynu ar ddefnyddio unrhyw fframwaith, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y fframwaith yn rhoi gwerth am arian yn nhermau ansawdd a chost. Mae'n rhaid hefyd ystyried yr ymdrech sydd ei angen ar gyfer sefydlu trefniadau tebyg a p'un a fydd hynny'n cynrychioli unrhyw fudd i'r economi lleol.

4.2 *Polisi Iaith Gymraeg*

4.2.1 Fel rhan o'r strategaeth gaffael a'i ymdrechion ehangach, mae'r Cyngor yn ymroddedig i hyrwyddo a diogelu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i fabwysiadu cyngor Bwrdd yr Iaith 'dan Adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993' trwy ymgorffori 'Contractio contractau gwasanaethau cyhoeddus allan a'r Iaith Gymraeg' yn ei ymarferion caffael. Bydd y Cyngor yn adolygu'r polisi a'r dogfennau gweithdrefnol perthnasol i gynnwys y cymorth ymarferol yn y papur hwn.

4.3 *Mentrau Cymdeithasol a'r Trydydd Sector*

4.3.1 Mae'r Trydydd Sector yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, grwpiau hunan gymorth, cwmnïau cydweithredol yn y gymuned, sefydliadau crefyddol, a sefydliadau eraill nid er elw.

4.3.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y Trydydd Sector yn sector allweddol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau hanfodol. Bydd y Cyngor yn adeiladu ar ei berthynas waith ac yn ymgysylltu â'r Trydydd Sector i sicrhau y caiff gwasanaethau eu cyflwyno'n gynaliadwy ac i sicrhau gwerth am arian i bobl Gwynedd.

4.3.3 Yn wyneb yr heriau ariannol presennol, mae'r Cyngor yn adolygu nifer o opsiynau cyflwyno gwasanaeth ac mae'n gweithio i adnabod cyfleoedd pellach i weithio gyda'r Sector. Bydd y Cyngor yn ystyried modelau cyflwyno gwasanaeth amgen lle bo hynny'n briodol, y gallai y Trydydd Sector eu darparu.

4.3.4 Creda'r Cyngor y bydd ymgorffori'r fframwaith a'r gyfres o declynnau ymhellach yn cynorthwyo'r ddau barti i ddatblygu eu perthynas waith.

4.4 Cydymffurfiaeth a gweithdrefnau

4.4.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reolau a rheoliadau caffael statudol, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfarwydddeb 2014/24/EU Senedd Ewrop
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

Yn ogystal, mae'n rhaid i unigolion sy'n cyflawni gweithgareddau caffael sicrhau eu bod yn gweithio'n unol â'r canllawiau yn Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor ac unrhyw Bolisi Caffael Cymru.

5. Y Prif Ymrwymadau Caffael

5.1 Beth ydym eisiau ei gyflawni?

5.1.1 Mae'r strategaeth gaffael hon yn amlinellu'r allbynnau allweddol yr ydym yn dymuno eu cyflawni yn y maes caffael. Byddwn yn gosod y dyddiadau targed a ganlyn er mwyn ymgorffori amcanion y strategaeth gaffael hon:

Allbynnau Allweddol i'w Cwblhau	Dyddiad Targed
Cychwyn Rheolaeth Categori yn y Categori Peilot	Mehefin 2015
Gweithredu Rheolaeth Categori ar draws yr holl gategoriâu gwariant	Medi 2016
Rhaglen Cyfleoedd Caffael ar gyfer y Categori Peilot <ul style="list-style-type: none"> • Blaen Raglen Caffael • Rhestr Contractau Presennol 	Awst 2015 Awst 2015
Rhaglen Cyfleoedd Caffael ar gyfer yr holl gategoriâu gwariant <ul style="list-style-type: none"> • Blaen Raglen Caffael • Rhestr Contractau Presennol 	Rhagfyr 2016 Rhagfyr 2016
Arbedion caffael ac arbedion effeithlonrwydd <ul style="list-style-type: none"> • Cwblhau'r Cynllun Arbedion Caffael Corfforaethol • Mesur arbedion caffael yn effeithiol – arbedion y gellir eu trosglwyddo'n arian, ac arbedion na ellir eu trosglwyddo'n arian 	2015 – 2017 (parhaus) Awst 2015

Creu fframwaith cymhwysedd a chynllun hyfforddiant ar gyfer y Gwasanaethau a'r Timau Categori	Rhagfyr 2015
e-Gaffael, cwblhau a datblygu: <ul style="list-style-type: none"> • Y Rhaglen e-Gaffael • Rheoli e-Contractau • Cyfeirnoddi Contractau 	2015 – 2017 (parhaus) Awst 2015 Rhagfyr 2015
Adolygu gweithdrefnau yn fewnol <ul style="list-style-type: none"> • Mabwysiadu'r Rheoliadau • Gweithredu'r dull rheolaeth categori yn archebion sefydlog y Cyngor • Y Polisi Iaith Gymraeg 	Ebrill 2015 Awst 2016 Rhagfyr 2015